# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL POWYS

# 2011-2026

# Adroddiad Adolygu

## Chwefror 2022

## CYNNWYS


**CRYNODEB GWEITHREDOL .......... 5**

**1. CYFLWYNIAD .......... 7**

**2. ADRODDIAD YR ADOLYGIAD .......... 8**

2.1 Y Broses o Adolygu'r CDLl .......... 8
2.2 Strwythur a Chynnwys yr Adroddiad Adolygu .......... 8

**3. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CDLL .......... 10**

3.1 Trosolwg .......... 10
3.2 Materion Strategaeth / Polisi .......... 11
3.3 Rhagor o waith ymchwil .......... 13
3.4 Dangosyddion cyd-destunol .......... 13

**4. CANFYDDIADAU MONITRO ARFARNIADAU CYNALIADWYEDD .......... 14**

4.1 Bioamrywiaeth .......... 14
4.2 Poblogaeth ac Iechyd Dynol .......... 14
4.3 Pridd .......... 14
4.4 Adnoddau ac Asedau Strategol .......... 15
4.5 Treftadaeth Ddiwylliannol .......... 15
4.6 Geoamrywiaeth .......... 15

**5. NEWIDIADAU CYD-DESTUNOL .......... 16**

5.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol .......... 16
5.2 Y cyd-destun rhanbarthol .......... 24
5.3 Y cyd-destun lleol .......... 25

**6. NEWIDIADAU I'R SYLFAEN DYSTIOLAETH .......... 27**

6.1 Gofynion Sylfaen Dystiolaeth y CDLl .......... 27
6.2 Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd .......... 29

**7. MATERION, GWELEDIGAETH, AMCANION A STRATEGAETH Y CDLL .......... 34**

7.1 Materion ac Ystyriaethau Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion. .......... 34
7.2 Strategaeth y CDLl .......... 36

**8. ADOLYGIAD MAES PWNC Y CDLL .......... 42**

8.1 Tai .......... 42
8.2 Datblygu Economaidd .......... 44
8.3 Cludiant .......... 46
8.4 Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi .......... 48
8.5 Cynllunio ar gyfer Twristiaeth .......... 48
8.6 Gwastraff .......... 49
8.7 Ynni Cynaliadwy .......... 50
8.8 Mwynau .......... 51

8.9 CYFLEUSTERAU HAMDDEN CYMUNEDOL A DAN DO ....52
8.10 GWEITHREDIADAU MILWROL ....53
8.11 DIOGELU'R AMGYLCHEDD ....53
8.12 RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO ....55
8.13 Y GYMRAEG ....56
8.14 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL ....56
8.15 MAP CYNIGION A MAP CYFYNGIADAU ....57

**9. AIL-YSTYRIED YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD, YR ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL A'R ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD .... 58**

9.1 ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD, GAN GYNNWYS ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL ....58
9.2 ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD ....58

**10. CYFLEOEDD I WEITHIO YN GYDWEITHREDOL .... 60**

10.1 CDLLAU AR Y CYD....60
10.2 GWEITHIO YN GYDWEITHREDOL ....61
10.3 CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL ....62

**11. CASGLIADAU .... 67**

**ATODIAD A TABL CRYNO O GANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD .... 69**

**ATODIAD B TABLAU CRYNO O ADOLYGIAD POLISI Y CDLL.... 80**

**ATODIAD C TABLAU CRYNO AR STATWS CYNIGION CDLL.... 85**

**ATODIAD D CRYNODEB O'R SYLWADAU AC YMATEB Y CYNGOR.... 93**

**TALFYRIADAU.... 108**

## TABLAU

TABL 1. CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R 62 O DDANGOSYDDION MONITRO A GYNHWYSWYD YN YR AMB YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO....10

TABL 2. GOFYNION SYLFAEN DYSTIOLAETH NEWYDD....27

TABL 3. GOFYNION SYLFAEN DYSTIOLAETH WEDI'I DIWEDDARU ....28

TABL 4. CRYNODEB O'R NEWIDIADAU I AMCANESTYNIADAU AELWYDYDD POWYS* ....31

TABL 5. AMCANESTYNIADAU AELWYDYDD AWDURDODAU LLEOL FEL Y'U CYHOEDDWYD 2020/2021 (YN SEILIEDIG AR 2018) - Y CHWE DEWIS AMGEN*....32

TABL 6. DOSBARTHIAD GOFODOL Y TWF TAI A GANIATEIR AC A GYFLAWNIR ....40

TABL 7. DOSBARTHIAD GOFODOL Y TWF CYFLOGAETH A GANIATAWYD ....41

TABL 8. SEFYLLFA CDLL YR AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL CYFAGOS....65

TABL 9. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – BIOAMRYWIAETH....69

TABL 10. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – POBLOGAETH AC IECHYD DYNOL ..... 70

TABL 11. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – PRIDD ..... 72

TABL 12. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – DŴR ..... 72

TABL 13. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – AER ..... 73

TABL 14. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – FFACTORAU HINSODDOL ..... 74

TABL 15. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – ADNODDAU AC ASEDAU STRATEGOL ..... 75

TABL 16. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL ..... 76

TABL 17. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – TIRWEDD ..... 77

TABL 18. CANFYDDIADAU MONITRO YR ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD – GEOAMRYWIAETH ..... 78

TABL 19. POLISÏAU STRATEGOL ..... 80

TABL 20. POLISÏAU RHEOLI DATBLYGU ..... 80

TABL 21. POLISÏAU SY’N SEILIEDIG AR BWNC ..... 81

TABL 22. POLISI H2 A) STATWS DYRANIADAU TAI A DYRANIADAU DEFNYDD CYMYSG AR 1 EBRILL 2021 ..... 85

TABL 23. POLISI H2 B) STATWS YR YMRWYMIADAU TAI AR 1 EBRILL 2021 ..... 88

TABL 24. STATWS POLISI H11 AR 1 EBRILL 2021, DYRANIADAU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR 90

TABL 25. STATWS POLISÏAU E1 AC E3 YM MIS TACHWEDD 2021, DYRANIADAU CYFLOGAETH AC YMRWYMIADAU A DYRANIADAU DEFNYDD CYMYSG ..... 90

TABL 26. STATWS POLISI R2 AR 1 EBRILL 2021, DYRANIAD MANWERTHU ..... 92

## FFIGURAU

FFIGUR 1. CYMHARU AMCANESTYNIADAU POBLOGAETH LLYWODRAETH CYMRU YN 2011, 2014 A 2018 AG AMCANGYFRIFON CANOL-BLWYDDYN SIR POWYS ..... 31

FFIGUR 2. CYMHARU AMCANESTYNIADAU AELWYDYDD LLYWODRAETH CYMRU YN 2011, 2014 A 2018 (PRIF AMCANESTYNIADAU) AG AMCANGYFRIFON CANOL-BLWYDDYN SIR POWYS ..... 32

FFIGUR 3. NIFER Y CARTREFI YCHWANEGOL GWIRIONEDDOL A GWBLHAWYD O’I GYMHARU Â’R GOFYNIAD CYFARTALOG BLYNYDDOL ..... 37

FFIGUR 4. NIFER YR ANHEDDAU YCHWANEGOL CRONNOL A GWBLHAWYD O’I GYMHARU Â’R GOFYNIAD CYFARTALOG BLYNYDDOL CRONNOL ..... 38

FFIGUR 5. NIFER Y CARTREFI FFORDDIADWY YCHWANEGOL CRONNOL A GWBLHAWYD O’I GYMHARU Â’R TARGED ANHEDDAU YCHWANEGOL FFORDDIADWY CRONNOL ..... 39

FFIGUR 6. DIAGRAM STRATEGOL AR GYFER RHANBARTH CANOLBARTH CYMRU (CYMRU’R DYFODOL) ..... 64

## Crynodeb Gweithredol

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) (2011-2026).

Sbardunwyd yr adolygiad o'r CDLl oherwydd rhesymau statudol a rhesymau eraill, fel y nodir yng nghasgliad ac argymhellion Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl 2021. Ar y sail hon, penderfynodd Cabinet y Cyngor ddechrau adolygu'r CDLl ym mis Medi 2021.

Diben y broses adolygu yw sicrhau bod y CDLl a'i sylfaen dystiolaeth ategol yn cael eu cadw'n gyfredol er mwyn darparu sail gadarn ac effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio. Mae adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei lywio gan ganfyddiadau'r gwaith monitro a wnaed ers mabwysiadu'r CDLl a newidiadau i'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Fe'i llywiwyd hefyd drwy ymgysylltu â Swyddogion mewnol a chan drafodaethau rhwng Swyddogion ac Aelodau yn rhan o Weithgor CDLl mewnol y Cyngor.

Mae'r adolygiad hefyd wedi cael ei lywio gan ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei gynnal rhwng 6 Ionawr 2022 a 1 Chwefror 2022, ar Ymgynghoriad Drafft o'r Adroddiad Adolygu pan gofynnodd y Cyngor am safbwyntiau ar ganfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad ac ar faterion eraill y dylid eu hystyried yn yr adolygiad.

Mae'r Adroddiad Adolygu hwn yn cyflwyno canfyddiadau a chasgliadau adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'n nodi lle mae'r CDLl yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, yn ogystal â nodi meysydd nad ydynt yn cael eu gweithredu neu eu cyflawni yn ôl y bwriad. Mae hefyd yn nodi meysydd o'r CDLl y mae angen eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau i bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, ynghyd â thystiolaeth a strategaethau perthnasol eraill.

Crynhoir canfyddiadau allweddol adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel a ganlyn:

- bydd angen ailystyried Prif Faterion ac Ystyriaethau, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl er mwyn cynnwys amcanion llesiant, creu lleoedd a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol
- bydd angen ailystyried Strategaeth Twf y CDLl er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â darparu tai ac adlewyrchu tystiolaeth ynghylch anghenion ardal y cynllun yn y dyfodol. Felly, bydd angen ailystyried dosbarthiad y twf hwnnw ar draws ardal y CDLl, drwy'r Strategaeth Ofodol.
- bydd angen newidiadau i bolisïau a chynigion manwl y CDLl er mwyn adlewyrchu'r strategaeth a ailystyrir ac adlewyrchu tystiolaeth berthnasol a pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol wedi'u diweddaru.
- bydd angen diweddaru sylfaen dystiolaeth y CDLl yn unol â gofynion diweddaraf polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.
- bydd angen adolygu Arfarniad Cynaliadwyedd y CDLl, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ynghyd ag asesiadau effaith eraill, gan ystyried Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig.
- bydd angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gydweithio ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn rhanbarth Canolbarth Cymru ac i gefnogi proses y Cynllun Datblygu Strategol.

Daw'r Adroddiad Adolygu hwn i'r casgliad y bydd angen diwygio'r CDLl drwy Ddiwygiad Llawn, yn hytrach na Diwygiad Ffurf Fer. Mae angen Diwygiad Llawn fel y gellir mynd i'r

afael â'r materion strategol y nodir eu bod angen sylw ac er mwyn ymateb i newidiadau sylweddol yng nghyd-destun polisïau cynllunio, gan gynnwys cyhoeddiad Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) a phandemig COVID-19. Mae hyn yn golygu y bydd angen paratoi CDLl Newydd ar gyfer y cyfnod 2022-2037.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) presennol Powys (2011-2026) gan y Cyngor ar 17 Ebrill 2018. Mae CDLl mabwysiedig Powys yn nodi polisïau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mhowys hyd at 2026 ac mae'n berthnasol i Bowys gyfan ac eithrio'r ardal ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y mae ganddi Awdurdod Cynllunio ei hun.

1.2 Mae deddfwriaeth genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlau gael eu hadolygu o leiaf bob pedair blynedd o'r dyddiad mabwysiadu er mwyn sicrhau bod CDLlau a'u sylfaen dystiolaeth ategol yn cael eu cadw'n gyfredol i ddarparu sail gadarn ac effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio. Mae'r gofyniad statudol hwn yn golygu bod yn rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol Powys ddechrau adolygu CDLl Powys, a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2018, erbyn mis Ebrill 2022.

1.3 Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried a ddylid cynnal adolygiad o CDLl mabwysiedig Powys yn dilyn cyhoeddiad Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040, ym mis Chwefror 2021. Hon yw'r haen cynllun datblygu uchaf yng Nghymru. Mae'n ofynnol bod unrhyw Gynlluniau Datblygu Strategol haen is a Chynlluniau Datblygu Lleol sy'n cael eu paratoi yn sgil hynny yn cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol ac mae'n rhaid eu cadw'n gyfredol er mwyn sicrhau eu bod nhw a Cymru'r Dyfodol yn cydweithio'n effeithiol.

1.4 Mae'r penderfyniad i adolygu'r CDLl hefyd wedi ei ddylanwadu gan y ffaith y bydd CDLl presennol Powys yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026 (y "dyddiad gorffen"), ac ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn rhoi'r gorau i fod yn gynllun datblygu ar gyfer yr ardal. Bydd angen i'r gwaith ar y CDLl Newydd ddechrau ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn caniatáu amser i baratoi a mabwysiadu CDLl Newydd erbyn dyddiad gorffen y CDLl presennol.

1.5 Nododd tystiolaeth a ddarparwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2021 y CDLl fod nifer y tai a gwblhawyd yn is na'r disgwyl, a olygai nad oedd strategaeth y CDLl a arweinid gan dai yn cael ei chyflawni yn ôl y bwriad. Roedd rhai polisïau a chynigion CDLl nad oedd yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac roedd angen eu hadolygu.

1.6 Arweiniodd y gofynion a'r ffactorau uchod at yr angen i sbarduno adolygiad o CDLl mabwysiedig Powys. Ar y sail hon, ac fel yr argymhellwyd gan AMB 2021, penderfynodd Cabinet y Cyngor ddechrau adolygu'r CDLl ym mis Medi 2021.

1.7 Mae'r Adroddiad Adolygu hwn yn nodi canfyddiadau a chasgliadau adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o CDLl mabwysiedig Powys. Mae'n nodi lle mae'r CDLl yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, yn ogystal â nodi meysydd nad ydynt yn cael eu gweithredu neu eu cyflawni yn ôl y bwriad. Mae hefyd yn nodi meysydd y mae angen eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau i bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, ynghyd â thystiolaeth a strategaethau perthnasol eraill.

1.8 Mae adran ganlynol (**Adran 2**) yr adroddiad hwn yn esbonio'r broses o adolygu'r CDLl a strwythur a chynnwys yr adroddiad hwn.

# 2. Adroddiad yr Adolygiad

## 2.1 Y Broses o Adolygu'r CDLl

2.1.1 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2021 y CDLl a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, ynghyd â phapurau cefndir a'r canlyniadau monitro blaenorol, yn rhan allweddol o'r dystiolaeth sy'n llywio'r adolygiad o CDLl mabwysiedig Powys. Mae adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd wedi ei lywio gan ymgysylltu â Swyddogion mewnol sy'n ymwneud â gwahanol feysydd pwnc y CDLl a chan drafodaethau rhwng Swyddogion ac Aelodau yn rhan o Weithgor CDLl mewnol y Cyngor.

2.1.2 Mae adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cael ei lywio ymhellach gan ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddrafft Ymgynghori'r Adroddiad Adolygu a gynhaliwyd rhwng 6 Ionawr 2022 a 1 Chwefror 2022, pan gofynnodd y Cyngor am safbwyntiau ar ganfyddiadau a chasgliadau ar yr adolygiad ac ar faterion eraill y dylid eu hystyried yn yr adolygiad.

2.1.3 Mae'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'u crynhoi yn Atodiad D, ynghyd ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Adroddiad Adolygu. Derbyniodd yr Adran Gynllunio Lleol sylwadau manwl ar wahanol rannau o'r Adrodiad Adolygu. Lle mae'n briodol gwnaed diwygiadau gan yr Adran Gynllunio Lleol i'r Adroddiad Adolygu i alewyrchu ystyriaethau ychwanegol a godwyd drwy ymgynghoriad cyhoeddus ac er dibenion eglurdeb.

2.1.4 Mae'n ofynnol i adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddod i'r casgliad ynghylch pa weithdrefn adolygu y dylid ei dilyn ar gyfer y CDLl, sef Diwygiad Llawn (CDLl Newydd) neu Ddiwygiad Ffurf Fer.

2.1.5 Mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi canfyddiadau a chasgliadau adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o CDLl mabwysiedig Powys (2011-2026) a chafwyd ei ystyried gan Weithgor Gwaith CDLl y Cyngor. Cymerwywyd yr Adroddiad Adolygu gan Gabinet y Cyngor ar 22 Chwefror cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi. Bydd yr Adroddiad Adolygu yn llunio rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLl Newydd.

## 2.2 Strwythur a Chynnwys yr Adroddiad Adolygu

2.2.1 Mae'r Adroddiad Adolygu wedi ei strwythuro mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â gofynion canllawiau cenedlaethol Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3). Mae'r adroddiad yn nodi:

- yr wybodaeth sydd wedi llywio'r adolygiad (**adrannau 3 i 6**)
- ystyriaeth fanwl o effaith y canfyddiadau hyn ar y CDLl (**adrannau 7 ac 8**).
- y dull i'w gymryd tuag at ddiwygio'r CDLl (**adrannau 9 i 11**)

Mae **adran 3** yn crynhoi canfyddiadau allweddol Adroddiad Monitro Blynyddol 2021 y CDLl.

Mae **adran 4** yn crynhoi canlyniadau monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLl, a gynhaliwyd yn rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol (2021) (gweler **Atodiad A** hefyd).

Mae **adran 5** yn crynhoi'r prif newidiadau cyd-destunol ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu.

Mae **adran 6** yn crynhoi'r newidiadau a nodwyd i ofynion sylfaen dystiolaeth y CDLl, gan nodi'r angen am dystiolaeth newydd ac wedi'i diweddaru, gan nodi newidiadau i'r dystiolaeth ynghylch amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd.

Mae **adran 7** yn nodi sut mae'r canfyddiadau hyn yn effeithio ar weledigaeth, nodau ac amcanion presennol y CDLl, gan gynnwys gweithredu strategaeth y CDLl.

Mae **adran 8** yn darparu adolygiad manwl o bob un o feysydd pwnc y CDLl, gan nodi'r hyn y mae angen ei newid a pha rannau o'r sylfaen dystiolaeth y mae angen eu diweddaru i gefnogi'r newidiadau. Mae hefyd yn ystyried y goblygiadau i'r rhannau hynny o'r CDLl na chynigir eu diwygio o ran cydlyniad ac effeithiolrwydd y cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae crynodeb o'r adolygiad ar gyfer pob un o bolisïau'r CDLl yn **Atodiad B** a chrynodeb o statws holl gynigion y CDLl (dyraniadau ac ymrwymiadau) yn **Atodiad C** sy'n cyd-fynd â'r adran hon.

Mae **adran 9** yn nodi'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd arfaethedig a ailystyrir er mwyn asesu effeithiau'r CDLl Newydd, gan ystyried cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig.

Mae **adran 10** yn archwilio ac yn esbonio'r cyfleoedd i baratoi CDLlau ar y Cyd gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos, ac i gydweithio ar ddulliau a thystiolaeth, gan gynnwys paratoi ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol rhanbarthol.

Mae **adran 11** yn nodi casgliadau sy'n seiliedig ar y broses adolygu ac mae'n esbonio esbonio a ragwelir Diwygiad Llawn (CDLl Newydd) neu Ddiwygiad Ffurf Fer o'r CDLl a'r rhesymau dros hyn.

Darperir rhestr o **Dalfyriadau** a ddefnyddir yn y ddogfen ar ddiwedd yr adroddiad er mwyn cyfeirio atynt.

# 3. Canfyddiadau Allweddol Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl

## 3.1 Trosolwg

3.1.1 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth 2020) yn nodi ei bod yn hanfodol rhoi cyfiawnhad cryf dros y casgliadau yn yr Adroddiad Adolygu, gan eu dangos yn unol â chanfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) a thystiolaeth ategol arall. Cyhoeddwyd yr AMB diweddaraf (AMB 2021) ar gyfer CDLl Powys ym mis Hydref 2021 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Cyhoeddwyd dau bapur cefndir ochr yn ochr ag AMB 2021, sef AMB 2020 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac Adolygiad Monitro sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mabwysiad y CDLl (17 Ebrill 2018) ac 31 Mawrth 2019.

3.1.2 Mae AMBau yn darparu asesiad o ba un a yw'r strategaeth CDLl sylfaenol yn parhau i fod yn gadarn, effaith polisïau ar lefel leol ac ehangach, ac a yw polisïau a thargedau cysylltiedig wedi eu cyflawni neu pa gynnydd a wneir tuag at eu cyflawni nhw. Mae'r AMB hefyd yn rhoi cyfle i gasglu'r newidiadau cyd-destunol a'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol sy'n bodoli ers mabwysiadu'r Cynllun a allai effeithio ar gyflawni amcanion y polisïau ac felly'n mae'n datblygu sylfaen dystiolaeth dros amser.

3.1.3 Mae fframwaith monitro'r CDLl y mae'r AMBau wedi eu seilio arno yn cynnwys cyfanswm o 62 o ddangosyddion monitro, a nodir ym Mhennod 5 o'r CDLl neu maent yn un o ofynion Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, 2020). Defnyddir y dangosyddion monitro i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae gan bob dangosydd darged penodol ynghyd â 'sbardun' sy'n nodi'r pwynt neu'r lefel pan fo unrhyw wyriad yn sbarduno'r angen i ystyried a/neu gymryd camau ychwanegol.

3.1.4 Ceir crynodeb o ganlyniadau'r dangosyddion monitro a nodir yn AMB 2021 yn **Nhabl 1**.

**Tabl 1. Crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r 62 o Ddangosyddion Monitro a Gynhwyswyd yn yr AMB yn ystod y Cyfnod Monitro**

| | |
|---|---|
| **Parhau i Fonitro** | 28 - Parhau i Fonitro<br>7 - Mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn y dyddiad Targed<br>2 – Mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ychydig ar ôl diwedd y cyfnod monitro. |
| **Mae Angen Hyfforddiant** | 3 |
| **Mae Angen Canllawiau Cynllunio Atodol** | 0 |
| **Mae Angen Ymchwil Ychwanegol** | 8 |
| **Mae Angen Adolygu Polisi** | 3 |
| **Adolygu Cynllun** | 4 |
| **Nid yw'n Berthnasol i'r cyfnod AMB hwn neu mae wedi ei ddisodli** | 7 – Gan gynnwys dangosyddion y mae angen data am ddwy flynedd olynol ar eu cyfer cyn ymgymryd â'r camau gofynnol. Dangosyddion na ellir eu monitro a dangosyddion sydd wedi eu disodli. |

3.1.5 Yn AMB 2021, dengys fwyafrif (35) y dangosyddion weithrediad polisi cadarnhaol. Fodd bynnag, bu rhai targedau dangosyddion nas cyflawnwyd (18) ac felly roedd sbardunau wedi eu cyrraedd. Mae hyn yn dangos bod polisïau CDLl nad ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd; yn yr achosion hyn mae'r monitro wedi argymell camau gweithredu, gan gynnwys adolygu polisïau mewn rhai achosion. Mae **Atodiad A** yn cynnwys tabl sy'n amlinellu'r rhesymau dros ystyried cynnig newidiadau i bolisïau lleol unigol ar sail perfformiad polisi.

## 3.2 Materion Strategaeth / Polisi

3.2.1 Roedd saith dangosydd monitro a oedd yn ei gwneud yn ofynnol mynd i'r afael â materion strategaeth / polisi yn rhan o broses adolygu'r CDLl, gellir eu grwpio yn y categorïau canlynol:

### Strategaeth Twf / Tai a Gwblheir

3.2.2 Canfu AMB 2021 (dangosydd monitro AMR2b) fod nifer cronnol yr anheddau ychwanegol net a gyflawnwyd (2,101 o anheddau), rhwng 31 Mawrth 2021 a dechrau cyfnod y Cynllun (1 Ebrill 2011), yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y targed monitro (2,659 o anheddau), a roes ddiffyg o 558 o anheddau ar ddiwedd mis Mawrth 2021.

3.2.3 Mae'r diffyg mewn anheddau ychwanegol a gyflawnwyd yn golygu bod angen cwblhau 2,399 o anheddau eraill yn ystod y pum mlynedd sy'n weddill o gyfnod y cynllun (1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2026) i fodloni ffigur y gofyniad anheddau. Byddai hyn yn gofyn am gyfradd cwblhau cyfartalog o 480 o gartrefi ychwanegol y flwyddyn, yr ystyrir yn afrealistig yn seiliedig ar gyfraddau cwblhau'r gorffennol (dangosydd monitro AMR2) ac mae hynny'n golygu nad yw'r targed o 4,500 o gartrefi newydd yn debygol o gael ei gyflawni.

3.2.4 Gan gynnydd mewn tai yr arweinir strategaeth twf y CDLl yn bennaf, felly mae'r perfformiad gwael mewn dangosyddion monitro (AMR2a, AMR2b) sy'n ymwneud â chwblhau tai yn dangos nad yw strategaeth y Cynllun yn cael ei chyflawni.

### Safleoedd Tai a Ddyrannwyd

3.2.5 Roedd 80 o safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai yn y CDLl, ac nid oedd gan 53 (66%) o'r rhain unrhyw fath o ganiatâd cynllunio (dangosydd monitro AMR4) ar ddiwedd mis Mawrth 2021.

3.2.6 Roedd cyfanswm cronnol y targed ar gyfer nifer yr anheddau ychwanegol a gwblheir fesul blwyddyn i'w cyflawni ar safleoedd a ddyrannwyd, rhwng dyddiad mabwysiadu'r CDLl (17 Ebrill 2018) a diwedd y cyfnod monitro ar gyfer AMB 2021 (31 Mawrth 2021) yn cyfateb ag 845 o anheddau. Dim ond 88 o anheddau oedd nifer gwirioneddol yr anheddau a ddarparwyd ar safleoedd tai a ddyrannwyd yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn, gan gyflawni dim ond 10% o'r targed (dangosydd monitro AMR5).

3.2.7 Cydnabyddir bod angen amser ar ddyraniadau CDLl i gronni llwybr gan mai dim ond ar ôl cael sicrwydd y caiff y Cynllun ei fabwysiadu. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod ei bod yn cymryd amser i gael datblygwr a chanddo ddiddordeb, i negodi neu i gwblhau gwerthiant safle, ac yna i gael caniatâd cynllunio yn sgil hynny. Fodd bynnag, mae'r llwybr a gynhwysir yn AMB 2021 dangosydd monitro AMR2a, yn dangos bod safleoedd a

ddyrennir yn hanfodol o ran darparu anheddau ychwanegol i fodloni'r gofyniad anheddau a gweithredu Strategaeth Twf y CDLl.

3.2.8 Mae'n werth nodi bod nifer yr unedau tai a gyflawnwyd ar safleoedd ar hap yn ystod y cyfnod tair blynedd wedi bod yn uwch na'r targed ar hap, sy'n dangos bod cynigion tai yn gyflawnadwy ac yn ymarferol.

### Manwerthu – Datblygu mewn Ardaloedd Canol Trefi

3.2.9 Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys dangosydd monitro AMR36 i brofi Polisi R3 y CDLl sy'n nodi y caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau newydd pan na fyddent yn arwain at lai na: 75% o unedau mewn Prif Ffryntiad Siopa a 66% o unedau mewn Ffryntiad Siopa Eilaidd a ddefnyddir ar gyfer gorchmynion dosbarth defnydd A1 ac A3, oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf a restrir yn y polisi.

3.2.10 Canfu'r canfyddiadau yn AMB 2021 fod Prif Ffryntiadau Siopa sydd â llai na'r ganran darged sy'n benodol i'r polisi, sef cael o leiaf 75% o'r unedau yng ngorchmynion dosbarth defnydd A1 ac A3. Mae'r canfyddiadau'n golygu y gallai rhan o Bolisi R3 y CDLl fod yn aneffeithiol ac felly dylid ei diwygio yn rhan o adolygiad y CDLl.

### Mannau Agored Cyhoeddus

3.2.11 Mae dangosyddion monitro AMR55 ac AMR56 yn profi gweithrediad Polisi DM3 y CDLl sy'n diogelu ardaloedd a nodir fel mannau agored yn yr Asesiad o Fannau Agored neu drwy deipolegau a restrir yn yr Asesiad o Fannau Agored a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 ac sy'n sicrhau bod mannau agored newydd yn cael eu darparu ar ddatblygiadau preswyl sy'n cynnwys deg annedd neu fwy.

3.2.12 O ran darparu mannau agored cyhoeddus newydd, canfu canfyddiadau AMB 2021 (dangosydd monitro AMR55) na cheisir y ddarpariaeth fel sy'n ofynnol drwy Bolisi DM3 y CDLl a Chanllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio. Roedd y ddau gyfnod monitro blaenorol yn argymell gweithredu i barhau i fonitro, fodd bynnag, bu achosion o beidio â cheisio mannau agored cyhoeddus bob amser, ac maent wedi eu chwyddo yn y canfyddiadau sydd yn AMB 2021. Mae hyn wedi codi cwestiynau am effeithiolrwydd a phriodoldeb Polisi DM3 y CDLl y bydd angen mynd i'r afael ag ef yn fanwl yn rhan o'r adolygiad.

3.2.13 Mae dangosydd monitro (AMR 56) yn edrych ar faint (hectarau) o fannau agored a gollwyd ac a enillwyd o ganlyniad i geisiadau cynllunio a ganiatawyd. Yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer AMB 2021, caniatawyd dau gais cynllunio heb ystyried Polisi DM3 y CDLl, a arweiniodd at y posibilrwydd o golli mannau agored. Parhaodd y canfyddiadau hyn â'r duedd a welir yn yr Adolygiad Monitro, gan gofnodi cyfanswm colled o 4.04 hectar o fannau agored cyhoeddus. Mae AMB 2021 yn argymell adolygu Polisi DM3 y CDLl, i achub y cyfle drwy adolygu'r CDLl i wneud y polisi'n gliriach ac i'w gwneud yn haws nodi mannau agored cyhoeddus.

## 3.3 Rhagor o waith ymchwil

### Pynciau a Nodwyd y mae angen Rhagor o Waith Ymchwil arnynt

3.3.1 Noda AMB 2021 wyth pwnc y mae angen rhagor o waith ymchwil arnynt. Bydd canlyniadau hyn yn llywio'r CDLl Newydd a gallai arwain at ailystyried polisïau CDLl eraill. Mae hyn yn cynnwys y meysydd pwnc canlynol:

- Tai Fforddiadwy
- Hyfywedd
- Dwysedd Tai
- Datblygiadau Twristiaeth
- Diogelu Mwynau
- Ardaloedd Chwilio Lleol
- Rhwydweithiau Gwresogi Cymunedol a Dosbarth

## 3.4 Dangosyddion cyd-destunol

3.4.1 Gan ddeillio o gyhoeddiad Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), dechreuodd AMB 2021 fonitro dangosyddion economaidd a chymdeithasol cyd-destunol hefyd a allai ddylanwadu ar berfformiad y CDLl neu adlewyrchu gweithrediad strategaeth y CDLl. Dylid nodi bod dangosyddion amgylcheddol cyd-destunol yn cael eu monitro ar wahân yn rhan o'r broses o fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

3.4.2 Nododd canlyniadau cychwynnol y broses o fonitro dangosyddion cyd-destunol:

- fod lefelau diweithdra ym Mhowys wedi dechrau codi yn 2019-2020.
- bod nifer yr achosion o ddigartrefedd ym Mhowys wedi cynyddu o 527 yn 2019-2020 i 621 yn 2020-2021.
- bod prisiau tai ym Mhowys wedi cynyddu 12.3% rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021, ond nad oedd cyflogau cyfartalog wedi cynyddu i'r un graddau.

3.4.3 Mae'r canlyniadau hyn yn debygol o adlewyrchu ffactorau ehangach, gan gynnwys effaith pandemig COVID-19, fodd bynnag, maent yn tynnu sylw at yr angen i'r CDLl gefnogi adferiad economaidd, gan fynd i'r afael ag anghenion tai. Bydd y dangosyddion cyd-destunol hyn yn parhau i gael eu monitro mewn AMBau yn y dyfodol, a fydd yn helpu i nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg y bydd angen eu hystyried yn y CDLl Newydd.

# 4. Canfyddiadau Monitro Arfarniadau Cynaliadwyedd

4.0.1 Mae Fframwaith Monitro'r CDLl yn cynnwys monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r CDLl, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r fframwaith monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y CDLl yn cynnwys 34 o ddangosyddion a ddefnyddir i brofi perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun. Manylir ar ganlyniadau'r gwaith monitro hwn yn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2021 a phapurau cefndir, ac fe'u crynhoir yn **Atodiad A** yr Adroddiad Adolygu hwn.

4.0.2 Cynhwysir y prif effeithiau a thueddiadau a nodwyd mewn cysylltiad â monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol isod.

## 4.1 Bioamrywiaeth

4.1.1 Nododd canlyniadau'r gwaith monitro ar gyfer maes pwnc bioamrywiaeth yr Asesiad Amgylcheddol Strategol effaith negyddol bosibl ar safleoedd dynodedig oherwydd y dirywiad yng nghyflwr un o nodweddion cadwraeth Ardal Cadwraeth Arbennig Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd. Nodwyd hyn yn gynnar, yn ystod misoedd cyntaf CDLl mabwysiedig Powys, ac felly mae'n annhebygol y bydd hyn wedi effeithio ar y CDLl. Yn ddiweddar, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canlyniadau asesiad sylfaenol safleoedd gwarchodedig 2020, a fydd yn galluogi newidiadau mewn cyflwr i gael eu nodi a'u dadansoddi yn ystod y cyfnod monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol nesaf.

## 4.2 Poblogaeth ac Iechyd Dynol

4.2.1 Mae canlyniadau'r gwaith monitro mewn cysylltiad â maes is-bwnc proffil demograffig a phoblogaeth yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn dangos parhad yn y duedd tuag at boblogaeth sy'n heneiddio ym Mhowys. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hefyd yn dangos arwyddion bod y duedd yn cael ei gwrthdroi i ryw raddau o ran allfudo oedolion iau (20 i 34 oed), ac mae mewnlif net o oedolion yn y categori oedran hwn. Mae hyn yn awgrymu y gallai Powys fod yn dechrau cadw neu ddenu mwy o bobl ifanc o oedran gweithio. Gallai'r ddarpariaeth tai a chyflogaeth a wneir gan y CDLl fod yn cael rhywfaint o ddylanwad dros benderfyniadau lleoliadol. Bydd angen i'r CDLl Newydd ymateb i anghenion tai, cyflogaeth a chymunedol newidiol y boblogaeth ifanc a'r boblogaeth sy'n heneiddio.

## 4.3 Pridd

4.3.1 Mae canlyniadau'r gwaith monitro hwn yn dangos nad yw'r angen i ddiogelu priddoedd a ddosberthir fel rhai pwysig ar gyfer storio carbon yn cael eu hystyried bob amser, fel y nodir gan achos pan ganiatawyd datblygiad ar ardal o fawn trwchus a oedd wedi ei mapio. Ymdriniwyd â hyn drwy adolygu'r gallu i gael gafael ar fapiau a hyfforddiant. Mae'r canlyniadau mewn cysylltiad â thir halogedig ac adroddiadau dilysu yn awgrymu bod gwaith adfer yn cael ei gefnogi yn rhan o ddatblygiad newydd, yn unol ag amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

## 4.4 Adnoddau ac Asedau Strategol

4.4.1 Mae canlyniadau'r gwaith monitro mewn cysylltiad â safleoedd adnoddau mwynau a ddiogelir yn dangos anghysondebau yn y ffordd y mae Polisi DM8 y CDLl yn cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae hyn yn awgrymu nad yw amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o ddiogelu adnoddau mwynau rhag datblygiadau a fyddai'n atal gwaith cloddio yn y dyfodol yn cael ei gyflawni o ganlyniad i faterion sy'n ymwneud â gweithredu polisi. Cynigir ymchwiliad neu hyfforddiant ychwanegol, a chaiff y polisi ei ailystyried yn rhan o broses y CDLl Newydd.

## 4.5 Treftadaeth Ddiwylliannol

4.5.1 Mae canlyniadau'r gwaith monitro mewn cysylltiad â'r Gymraeg yn dangos bod canran poblogaeth Powys sy'n gallu siarad Cymraeg wedi parhau i gynyddu i ddechrau ar ôl mabwysiadu'r CDLl, fodd bynnag, gostyngodd y ganran yn 2020 a pharhaodd i ostwng yn 2021. Er y gallai hyn ddangos tuedd negyddol, ar amcangyfrifon Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Llywodraeth Cymru y mae'r ffigurau hyn yn seiliedig a dim ond at ddefnydd interim y bwriedir eu defnyddio nes y bydd data o Gyfrifiad Cenedlaethol y DU 2021 ar gael. Bydd data'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer llywio'r CDLl Newydd a phroses gysylltiedig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 4.6 Geoamrywiaeth

4.6.1 Mae canlyniadau'r gwaith monitro'n dangos nad yw Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol na Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol wedi eu nodi na'u hystyried yn gyson wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae hyn wedi arwain at achlysuron pan nad aseswyd effaith datblygiad ar y dynodiadau hyn, sy'n awgrymu nad yw'r amcan Asesiad Amgylcheddol Strategol o ddiogelu Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol rhag datblygiadau anghydnaws wedi ei fodloni. Ymdriniwyd â hyn drwy adolygu hygyrchedd y data mapiedig a hyfforddiant swyddogion.

# 5. Newidiadau Cyd-destunol

5.0.1 Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2018, mae'r cyd-destun polisi cynllunio wedi newid ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae strategaethau, canllawiau, polisïau a deddfwriaeth cynllunio newydd neu wedi'i diweddaru wedi eu rhyddhau, gan gynnwys mewn meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i gynllunio. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nodi'r newidiadau cyd-destunol mwyaf arwyddocaol y bydd angen eu hystyried wrth adolygu'r CDLl. Mae manylion y newidiadau hyn a newidiadau cyd-destunol perthnasol eraill i'w gweld yn AMB 2021 sydd wedi ei gyhoeddi ac AMB 2020 (papur cefndir).

## 5.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

5.1.1 Mae'r Ddeddf yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn galluogi datblygiad. Un o amcanion allweddol y Ddeddf yw cryfhau'r dull a arweinir gan gynllun drwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer y broses o baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a gyhoeddwyd ar ffurf Cymru'r Dyfodol ym mis Chwefror 2021) a Chynlluniau Datblygu Strategol rhanbarthol. Cadarnhaodd hefyd ddiben statudol y system gynllunio yng Nghymru wrth ddatgan bod yn rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio ymarfer y swyddogaethau hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid oedd yn ofynnol i CDLl mabwysiedig Powys ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon oherwydd ei fod wedi ei gyflwyno i'w archwilio cyn 1 Ebrill 2016, fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r CDLl Newydd ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Ionawr 2021)

5.1.2 Mae'r Ddeddf hon yn disodli Paneli Cynllunio Strategol y corff llywodraethu a nodir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 er mwyn paratoi Cynllun Datblygu Strategol gyda phedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol gorfodol sy'n cwmpasu pob rhanbarth - De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru. Mae gan bob Cyd-bwyllgor Corfforaethol ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Cynhwysir Awdurdod Cynllunio Lleol Powys yn Rhanbarth Canolbarth Cymru, sy'n golygu y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol dilynol yn cwmpasu Powys, Ceredigion a'r darn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd yn Awdurdod Unedol Powys. Hefyd, mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol swyddogaethau sy'n ymwneud â llesiant economaidd a'r broses o ddatblygu polisïau cludiant.

### Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

5.1.3 Gwnaed Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) (OS 2021/360) ar 18 Mawrth 2021 a byddant yn dod i rym ar 28 Chwefror 2022. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Ionawr 2021).

### Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Mawrth 2021)

5.1.4 Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 a'i nod yw annog gwell penderfyniadau a lleihau anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol pan maent yn gwneud penderfyniadau strategol, er enghraifft penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu polisïau strategol a datblygu, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn integreiddio'r ddyletswydd i'r broses Asesu Effaith sy'n gysylltiedig â'r CDLl, yn ei ddull o ymgysylltu a chynnwys ac yn ei ddefnydd o dystiolaeth a data lleol.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (2017)

5.1.5 Mae'r Ddeddf hon yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru, er mwyn gwella iechyd ac atal niwed i iechyd y gellir ei osgoi. Mae'n pennu darpariaethau ar gyfer gwneud gwelliannau i iechyd gan gynnwys i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar fynd i'r afael â gordewdra a gwneud rheoliadau ynghylch cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gan gyrff cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn diffinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn yr hirdymor, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu rai o bobl Cymru. Mae rheoliadau i fod i gael eu cyhoeddi i bennu pryd y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a sut y dylid ei wneud. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi sylw i unrhyw reoliadau a chanllawiau mewn cysylltiad ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn rhan o'r broses Asesu Effaith sy'n gysylltiedig â'r CDLl Newydd.

### Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)

5.1.6 Y fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040 yw Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae'n disodli hen Gynllun Gofodol Cymru (2004, 2008). Haen uchaf cynllun datblygu ac iddo strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a chadernid yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant cymunedau Cymru ydyw. Adeiledir ar y fframwaith hwn gan Gynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol a CDLlau ar lefel awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol bod Cynlluniau Datblygu Strategol a CDLlau yn cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol ac mae'n rhaid eu cadw'n gyfredol er mwyn sicrhau eu bod nhw a Cymru'r Dyfodol yn cydweithio'n effeithiol.

### Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (Rhagfyr 2018) a Rhifyn 11 (Chwefror 2021)

5.1.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi ei ddiweddaru ddwywaith ers mabwysiadu CDLl Powys. Mae Rhifyn 10 yn ail-wneud polisi cynllunio cenedlaethol yn llwyr er mwyn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio. Roedd yn hyrwyddo'r cysyniad o greu lleoedd yn y system gynllunio ac yn nodi'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol. Roedd rhifyn diweddaraf Polisi Cynllunio Cymru, sef Rhifyn 11, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol, yn cynnwys diwygiadau i'w gysoni â Cymru'r Dyfodol ac i ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac effeithiau pandemig COVID-19. Mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau polisi

i'r cyflenwad tir ar gyfer tai (a ddisodlwyd gan lwybr tai y CDLl, fel y'i cyflwynir yn AMB 2021), safleoedd fforddiadwy a arweinir gan dai a safonau ansawdd datblygu, cynllunio ynni lleol, cludiant a theithio llesol.

### Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (Mawrth 2020)

5.1.8 Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ym mis Mawrth 2020, a ddiweddarwyd i ystyried newidiadau sylweddol i ddeddfwriaethau cynllunio a pholisïau cenedlaethol. Nid yw'r Llawlyfr yn bolisi cenedlaethol; fodd bynnag, mae'n darparu canllawiau i ymarferwyr sy'n ymwneud â'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu. Y bwriad yw ei ddarllen ochr yn ochr â Polisi Cynllunio Cymru a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, ac mae'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi, monitro a diwygio cynllun datblygu, ac mae wedi ei danategu gan dystiolaeth gadarn i sicrhau bod cynlluniau'n effeithiol ac yn gyflawnadwy a'u bod yn cyfrannu at greu lleoedd. Mae'r Llawlyfr yn egluro disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran y broses o wneud cynlluniau ac fe'i defnyddir i lywio'r gwaith o baratoi'r CDLl yn y dyfodol.

### Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair – Creu Lleoedd ac Adferiad COVID-19 (Gorffennaf 2020)

5.1.9 Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau ar gyfer polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnodau adfer yn sgil COVID-19. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r angen am ddatblygiadau da, o ansawdd uchel, a arweinir gan egwyddorion creu lleoedd. Mae'n nodi'r wyth mater allweddol canlynol sy'n dod â meysydd polisi unigol at ei gilydd er mwyn sicrhau mai gweithredu yw'r mwyaf effeithiol ohonynt:

- Aros yn lleol: creu cymdogaethau
- Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau trafnidiaeth sydd wedi eu hailddarganfod
- Adfywio canol ein trefi
- Lleoedd digidol - achubiaeth y cyfyngiadau symud
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
- Ailddihuno sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a llesiant a chadernid ecolegol
- Gwella ansawdd yr aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a llesiant

5.1.10 Mae pob mater yn tynnu sylw at bwyntiau pwysig yn Polisi Cynllunio Cymru ac yn cynnwys sylwebaeth ar agweddau penodol ar sefyllfa posibl yn sgil pandemig COVID-19. Bydd y broses CDLl Newydd yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ymateb i'r blaenoriaethau a'r materion a nodwyd yn genedlaethol ac i helpu'r broses adfer ar lefel leol.

### Cynllunio a'r Adferiad wedi COVID-19: Llythyr at Awdurdodau Lleol (Gorffennaf 2020)

5.1.11 Mae'r llythyr hwn gan Un o Weinidogion Cymru yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac ystyried y canlyniadau i CDLlau sy'n cael eu hadolygu neu eu gweithredu. Roedd yn rhaid i CDLlau a oedd yn cael eu hadolygu nad oeddent wedi eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio eto (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru bellach) gynnal asesiad o'r sylfaen dystiolaeth, y strategaeth a'r polisïau o ran sensitifrwydd i ganlyniadau'r pandemig. Byddai angen dod i gasgliadau cadarn ynghylch yr angen am dystiolaeth newydd ac unrhyw newidiadau

canlyniadol i'r strategaeth a'r polisi cyn i'r gwaith o baratoi'r cynllun fynd rhagddo. Bydd y broses CDLl Newydd yn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ymateb i effaith y pandemig ar bob elfen o'r CDLl, ac yn rhan o'r dystiolaeth ategol a'r asesiadau.

### Dyddiadau gorffen y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl): Llythyr i Awdurdodau Lleol (Medi 2020)

5.1.12 Mae'r llythyr hwn gan Un o Weinidogion Cymru yn esbonio'r sefyllfa o ran dyddiad gorffen CDLlau mewn ymateb i bryderon gan nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghylch dyddiadau gorffen eu CDLl gyda'r pryder bod goblygiadau i wneud penderfyniadau lleol. Mae'r llythyr yn egluro na ddechreuodd y darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 bennu'r cyfnod pan fo'r cynllun yn weithredol tan 4 Ionawr 2016, ac felly nid ydynt yn gymwys i CDLlau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn. Bydd CDLlau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn yn parhau i fod y CDLl ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio hyd nes y bydd CDLl arall yn eu disodli. A bydd y CDLl, ar gyfer CDLlau a fabwysiadwyd ar ôl y dyddiad hwn, yn peidio â bod yn CDLl ar y cyfnod terfynu a bennir yn y cynllun. Felly, bydd CDLl Powys yn peidio â bod yn CDLl mabwysiedig Powys ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn y cynllun, sef 31 Mawrth 2026.

### Dirymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Mawrth 2020) a Monitro'r Tai a Gyflenwir drwy Lwybr Tai

5.1.13 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y dylid monitro'r ddarpariaeth tai. Mae'r newidiadau i Polisi Cynllunio Cymru wedi dileu'r polisi pum mlynedd o ran cyflenwi tir ar gyfer tai a'i ddisodli gan ddatganiad polisi sy'n ei gwneud yn glir mai'r llwybr tai, fel y'i nodir yn CDLl mabwysiedig Powys, fydd y sail ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni gofynion tai'r cynllun datblygu yn rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol ( AMB) y CDLl. Roedd hefyd yn cynnwys dirymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) yn ei gyfanrwydd, o ganlyniad i'r newid polisi i Polisi Cynllunio Cymru. Bydd y dull diwygiedig, sy'n seiliedig ar lwybr y CDLl, yn sicrhau bod monitro'r ddarpariaeth dai, gan gynnwys yr ymateb i dangyflawni, yn rhan annatod o'r broses o baratoi, monitro ac adolygu'r CDLl.

### Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018: Cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a siewmyn (Mehefin 2018)

5.1.14 Mae'r Cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar yr agweddau cynllunio ar nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n amlinellu sut y gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn. Mae'r Cylchlythyr yn amlinellu'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd, yr angen i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn rhagweithiol yn y broses a'r camau sydd eu hangen i asesu'r angen am safleoedd, i nodi safleoedd addas, ac i gynnwys polisïau mewn cynlluniau datblygu.

### Dirymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Chwefror 2021)

5.1.15 O ganlyniad i gyhoeddiad Cymru'r Dyfodol, mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 wedi ei ddirymu, ac felly nid yw Ardaloedd Chwilio Strategol ar gyfer cynigion datblygu ynni gwynt ar y tir yn bodoli mwyach. Yn lle hynny, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi ardaloedd a

aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi canfod eu bod yn gallu darparu ar gyfer datblygiad mewn ffordd dderbyniol. Mae Polisi 17 Cymru'r Dyfodol yn gosod rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr (gan gynnwys ailbweru) yn y meysydd hyn, yn amodol ar feini prawf manwl a geir ym Mholisi 18 Cymru'r Dyfodol.

### Cymru Sero Net a Cynllun Cymru Gyfan 2021-2025 (Hydref 2021)

5.1.16 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hail gynllun lleihau allyriadau ar gyfer Cyllideb Garbon (2021-2025) sy'n gosod y sylfeini i wneud Cymru'n sero net erbyn 2050. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cynllun Cymru Gyfan cyntaf wedi ei gyhoeddi, sy'n dangos ymrwymiad partneriaid i gydweithio i gyflawni Sero Net. Yn rhan o'r Ymgyrch Addewid a lansiwyd yn 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 118 o addewidion gweithredu oddi wrth fusnesau, y sector cyhoeddus, cymunedau, ysgolion a grwpiau a sefydliadau eraill, sy'n cael eu harddangos gan Gynllun Cymru Gyfan. Mae Cynllun Cymru Gyfan hefyd yn cynnwys astudiaethau achos o'r camau a gymerwyd eisoes, gan gynnwys enghreifftiau lleol ym Mhowys, ac mae'n cydnabod swyddogaeth hanfodol plant a phobl ifanc o ran codi ymwybyddiaeth a phryderon am newid yn yr hinsawdd.

### Mwy nag ailgylchu (Mawrth 2021)

5.1.17 Mae Strategaeth Mwy nag ailgylchu yn nodi'r camau i'w cymryd dros y deng mlynedd nesaf ar lwybr Llywodraeth Cymru tuag at gyflawni economi gylchol. Mae'r Strategaeth wedi ei strwythuro o amgylch chwe thema graidd:

1. Sbarduno arloesedd wrth ddefnyddio deunyddiau
2. Cynyddu'r hyn a atelir ac a ailddefnyddir
3. Rhagori ar ein record ailgylchu
4. Buddsoddi mewn seilwaith
5. Galluogi gweithredu cymunedol a busnes
6. Cysoni sbardunau'r Llywodraeth

5.1.18 Y nod yw cadw adnoddau sydd ar waith cyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff. Mae'r nodau'n cynnwys: defnyddio adnoddau un blaned, cyflawni dim gwastraff erbyn 2050, cyflawni allyriadau sero net o wastraff, manteisio i'r eithaf ar botensial economaidd a gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru.

### Asesiad strategol ar gyfer yr angen am ynni o gapasiti gwastraff yng Nghymru yn y dyfodol (Mawrth 2021)

5.1.19 Mae'r Asesiad Strategol hwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau cyhoeddiad moratoriwm ar unrhyw ynni ar raddfa fawr (capasiti o 10MW neu fwy wedi ei osod) yn y dyfodol o ddatblygiadau gwastraff. Mae hefyd yn diweddaru ac yn disodli'r amcangyfrifon o'r gwastraff gweddilliol sy'n codi a'r senarios a ragwelir yn Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd 2012, y mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn awgrymu y dylid ei ddefnyddio wrth asesu lefel yr angen am ynni o gyfleusterau gwastraff a graddau unrhyw fwlch capasiti. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at yr egwyddorion gwneud penderfyniadau allweddol a gymhwysir gan Polisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â'r hierarchaeth wastraff, agosrwydd (y gosodiad priodol agosaf) a hunangynhaliaeth o ran

datblygu cyfleusterau rhwydwaith integredig a digonol ar gyfer rheoli gwastraff trefol gweddilliol cymysg.

### Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2019)

5.1.20 Bwriad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw cefnogi datblygiad cynaliadwy y moroedd o amgylch Cymru, gan gwmpasu ardaloedd wrth y lan ac ar y môr am yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol morol yn y dyfodol a sut y dylai gwahanol ddefnyddwyr y moroedd ryngweithio ac ystyried gweithgareddau a chynlluniau ei gilydd ar gyfer y dyfodol. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi perthnasol yn unol â Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r dogfennau polisi morol priodol wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag arfer unrhyw swyddogaeth a all effeithio ar unrhyw ran o ardal forol y DU, neu ardal forol gyfan y DU.

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: datblygu llifogydd ac erydu arfordirol (gwnaed ar gael ym mis Medi 2021)

5.1.21 Ym mis Medi 2021, gwnaed fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 ar gael gan Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad yr oedd i fod i ddod i rym, sef 1 Rhagfyr 2021. Bydd y Nodyn Cyngor Technegol newydd, a fydd hefyd yn disodli Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 14: cynllunio'r arfordir, yn cyd-fynd â Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, a fydd yn disodli'r map cyngor datblygu. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol newydd yn cyflwyno newidiadau pwysig i'r ffordd y caiff peryglon llifogydd ac erydu arfordirol eu hystyried yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yn adnabod bygythiad effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar berygl o lifogydd ac erydu arfordirol, ac yn cymryd camau i addasu iddynt. Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu cynnwys mewn polisïau a phenderfyniadau cynllunio drwy ddefnyddio'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, sy'n cynnwys parthau perygl llifogydd sy'n dangos risg yn y dyfodol o dan senario newid yn yr hinsawdd.

5.1.22 Ym mis Tachwedd 2021, cadarnhaodd Un o Weinidogion Cymru y byddai'r broses o ddod â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio i rym yn cael ei gohirio tan 1 Mehefin 2023 er mwyn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried yn llawn effaith yr amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd ar eu priod ardaloedd. Mae'r Gweinidog hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol gwblhau gwaith i adolygu, o fewn y 12 mis nesaf, yr Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer eu hardal, naill ai'n unigol neu'n rhanbarthol. Mae'r Gweinidog hefyd wedi gosod gofynion eraill ar awdurdodau lleol, mewn partneriaeth ag awdurdodau rheoli perygl llifogydd eraill, mewn cysylltiad â chynlluniau rheoli perygl llifogydd a chyflawni swyddogaethau Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. Bydd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn berthnasol i broses CDLl Newydd Powys. Bydd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a adolygwyd yn llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl.

5.1.23 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau lythyr pellach ym mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022 er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a rhagor o wybodaeth ac eglurhad ar y sefyllfa. Roedd y llythyr ym mis Rhagfyr yn nodi'r pecyn gwaith i'w gwblhau gan

awdurdodau lleol cyn mis Mehefin 2023 ac yn nodi'r goblygiadau allweddol ar gyfer cynllunio gwasanaethau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol, cynlluniau datblygu a rheoli datblygu. Mae'r llythyr o Ionawr yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i ymgynghoriadau rheoli datblygu lle mae llifogydd yn ystyriaeth berthnasol, gan gadarnhau y bydd y Map Cyngor Datblygu a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cael eu hystyried yn y broses ymgynghori.

### Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) – Gwaredu Dŵr Wyneb drwy Systemau Draenio Cynaliadwy (Ionawr 2019)

5.1.24 Mae Atodiad 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) yn darparu fframwaith ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu systemau dŵr wyneb sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru bum offeryn statudol i weithredu'r gofyniad hwn. Gwnaeth yr offerynnau statudol ofyniad o 7 Ionawr 2019 ymlaen fod pob datblygiad newydd sydd â mwy nag un annedd, neu sydd ag arwynebedd adeiladu o 100 metr sgwâr neu fwy, yn cael gwared â dŵr wyneb drwy Systemau Draenio Cynaliadwy.

### Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 008/2018: Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carthion a gweithfeydd bach trin carthion (Gorffennaf 2018)

5.1.25 Diweddarodd y Cylchlythyr hwn yr wybodaeth a'r canllawiau i'w defnyddio gan awdurdodau cynllunio pan fônt yn ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau newydd mewn ardaloedd nad oes ganddynt system garthffosiaeth gyhoeddus, gan ddisodli Cylchlythyr 10/99 y Swyddfa Gymreig. Mae'n darparu canllawiau ar gyfer polisïau cynllunio a rheoli datblygiad. O ran CDLlau, mae'r Cylchlythyr yn nodi y gallai awdurdodau cynllunio ddymuno cynnwys polisïau priodol yn eu cynlluniau datblygu i adlewyrchu a) cynnwys y Cylchlythyr, b) eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain o'r amgylchiadau a'r cyflyrau mewn gwahanol leoliadau yn eu hardal; ac c) safbwyntiau cyrff priodol ar y mater carthffosiaeth breifat a'i effaith debygol ar iechyd y cyhoedd, amwynder a'r amgylchedd.

### Canllaw i'r Hanfodion: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Mehefin 2019)

5.1.26 Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy fabwysiadu dull ecosystem o reoli adnoddau naturiol. Mae'r Canllaw hwn, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar rôl darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cynllunwyr, ac mae'n rhoi cyflwyniad a chrynodeb i integreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n esbonio sut mae adnoddau naturiol ac ecosystemau gwydn yn sail i'n llesiant. Mae'r Canllaw yn cyfeirio at y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy - darparu atebion sy'n seiliedig ar natur; cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy; a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le.

### Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Rhagfyr 2020)

5.1.27 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan

Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n darparu sylfaen dystiolaeth i Awdurdodau Cynllunio Lleol pan maent yn adnewyddu CDLlau. Mae'r ail adroddiad hwn yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf yn 2016 ac mae'n dangos rhai o'r cyfleoedd, y blaenoriaethau a'r heriau allweddol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae wedi ei fframio o amgylch dwy her, sef argyfyngau natur a'r newid yn yr hinsawdd, y mae Cymru yn eu hwynebu. Mae hefyd yn nodi tri maes ar gyfer newid trawsnewidiol – y systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth, ac mae'n nodi amrywiaeth o gyfleoedd i weithredu i symud tuag at ddyfodol cynaliadwy.

### Sicrhau Gwelliannau i Fioamrywiaeth (Hydref 2019)

5.1.28 Tynna'r llythyr hwn gan y Prif Swyddog Cynllunio hwn sylw Awdurdodau Cynllunio Lleol at Ddyletswydd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r angen i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer [eu] swyddogaethau. Aiff ymlaen i ddweud y dylai awdurdodau cynllunio fod yn rhagweithiol a sefydlu polisïau priodol mewn cynlluniau datblygu lleol i ddiogelu rhag colli bioamrywiaeth a sicrhau gwelliant.

### Unedau Dofednod Dwys (Mehefin 2019)

5.1.29 Mae'r llythyr hwn gan y Prif Swyddog Cynllunio yn atgoffa Awdurdodau Cynllunio Lleol o'r angen i ystyried yn llawn effeithiau datblygiadau amaethyddol dwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac mae'n gwahodd Awdurdodau Cynllunio Lleol i gymryd rhan mewn gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae'n cynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol, pan fo hynny'n briodol, i sefydlu polisïau priodol mewn CDLlau er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu'r math hwn o ddatblygiad yn gynaliadwy. Mae hefyd yn cyfeirio at y canllawiau diweddaredig ar gyfer asesu allyriadau a allai lygru o unedau dofednod dwys a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'w defnyddio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a'u Hadrannau Iechyd yr Amgylchedd priodol gydag unrhyw geisiadau perthnasol.

### Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)

5.1.30 Mae'r strategaeth drafnidiaeth newydd i Gymru yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran sut y gall y system drafnidiaeth helpu i gyflawni blaenoriaethau i Gymru. Mae'n nodi'r blaenoriaethau tymor byr ar gyfer y pum mlynedd nesaf a'r uchelgeisiau hirdymor ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf, ynghyd â naw cynllun bach sy'n esbonio sut y byddant yn cael eu cyflawni ar gyfer gwahanol sectorau a dulliau cludiant. Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau, awdurdodau lleol, darparwyr cludiant (yn y sector masnachol a'r trydydd sector) a chydweithwyr mewn meysydd polisi eraill gydweithio i sicrhau bod cludiant yn cyfrannu at lesiant Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r strategaeth genedlaethol hon yn gosod y fframwaith ar gyfer dwy haen y cynlluniau cludiant yng Nghymru – y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Cydgynlluniau Cludiant Lleol. Bydd angen i strategaeth a pholisïau'r CDLl Newydd fod yn gyson â'r cynlluniau a'r strategaethau hyn.

### Canllawiau Deddf Teithio Llesol (2021)

5.1.31 Rhennir y canllawiau hyn, sy'n disodli canllawiau blaenorol ar Deithio Llesol, yn ddwy ran. Mae Rhan 1 yn rhoi crynodeb amlinellol o'r nodau, y prosesau a'r ystyriaethau allweddol

sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013). Mae Rhan 2, yn rhoi cyngor technegol manwl ar sut y dylid cynllunio a dylunio seilwaith. Y weledigaeth yw gwneud cerdded a beicio y dull naturiol delfrydol ar gyfer teithiau byr bob dydd, neu'n rhan o daith hirach ar y cyd â dulliau teithio cynaliadwy eraill. Gyda'r uchelgais 15 mlynedd ar gyfer rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau cerdded a beicio diogel, uniongyrchol, cydlynol, cyfforddus a deniadol sydd mewn aneddiadau allweddol ledled Cymru ac sy'n eu cysylltu nhw.  Mae'r canllawiau hyn yn esbonio y dylid defnyddio Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol i lywio'r gwaith o baratoi ac adolygu CDLlau a Chynlluniau Datblygu Strategol, gan gyfeirio at y gofyniad yn Polisi Cynllunio Cymru i ddefnyddio'r mapiau hyn i lywio'r broses o ddyrannu safleoedd.

## 5.2 Y cyd-destun rhanbarthol

### Bargen Twf Canolbarth Cymru

5.2.1 Mae gwaith yn parhau i gyflawni Bargen Twf ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru a nodir y cynnydd ar y fargen yn AMB 2020 ac AMB 2021.  Ym mis Hydref 2021, cyflwynwyd yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru yr Achos Busnes Portffolio (a'r dogfennau ategol), a gymeradwywyd gan Fwrdd Twf Canolbarth Cymru, i'w hystyried a'u hadolygu.  Mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer y Fargen Dwf ac mae wedi ei chwmpasu o'r wyth maes blaenoriaeth twf strategol eang a nodir gan 'Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru' a gyhoeddwyd gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ym mis Mai 2020.  Mae'n nodi tri phrosiect ym Mhowys – eco-hyfforddiant yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, prosiect Llynnoedd Cwm Elan ac adfer Camlas Trefaldwyn.  Mae prosiectau rhanbarthol eraill yn cynnwys gwella cysylltedd digidol a nodi meysydd i ddarparu unedau busnes/diwydiannol mewn lleoliadau strategol sy'n bwysig yn rhanbarthol.  Ym mis Ionawr 2022 llofnodwyd Cytundeb y Fargen Derfynol, Bargen Twf Canolbarth Cymru gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DG, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.  Mae cynnydd Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r gwaith cysylltiedig yn cael ei ystyried wrth baratoi'r CDLl Newydd.

### Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (Mawrth 2020)

5.2.3 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i ddatganiadau ardaloedd wrth ddatblygu CDLlau.  Mae ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys yn y rhanbarth a gwmpesir gan Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, sydd hefyd yn cynnwys ardaloedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.  Mae'n nodi'r pum thema ganlynol ar gyfer ardal Canolbarth Cymru:

- Gwella bioamrywiaeth – ymateb i'r argyfwng natur.
- Tir, dŵr ac aer cynaliadwy.
- Ailgysylltu pobl a lleoedd – gwella iechyd, llesiant a'r economi.
- Adnoddau coedwigoedd – rheoli adnoddau pren yn effeithiol.
- Argyfwng hinsawdd – addasu a lliniaru.

5.2.4 Mae datganiadau ardal yn ddarn allweddol o dystiolaeth i Awdurdodau Cynllunio Lleol ei ystyried wrth baratoi eu CDLlau.  Maent yn darparu tystiolaeth o faterion amgylcheddol ac adnoddau naturiol a dylid eu defnyddio yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar

gyfer y CDLl ac wrth gyflawni dyletswydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau cynllunio.

### Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru – Datganiad Technegol Rhanbarthol Ail Adolygiad (Rhagfyr 2020)

5.2.6 Cymeradwyodd Cyngor Sir Powys, sef yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ar gyfer Sir Powys, ac eithrio'r ardal honno ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Agregau) 2020. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Mwynau baratoi i ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a'r DU o ran cyflenwi mwynau. At ddibenion sefydlogrwydd masnachol, mae'r diwydiant agregau yn gofyn am fanc tir dichonol sydd wedi hen ennill ei blwyf.

5.2.7 Mae Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cyfrifo bod gan Bowys 139.24 miliwn tunnell o warchodfeydd craig mathredig sy'n cyfateb â banc tir o 39.6 mlynedd, sy'n bodloni ac yn rhagori ar yr angen a nodwyd ar gyfer banc tir 25 mlynedd fel y nodir gan Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1. Dangosodd y data warged o gyflenwad craig mathredig, felly nid oes gofyniad am ddyraniadau newydd yn y dyfodol. Nodwyd bod dosraniad Powys ar gyfer tywod a graean a enillwyd o'r tir yn Ddim yn Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol, felly unwaith eto, nid oes gofyniad cyfredol am ddyraniadau agregau tywod a graean yn y dyfodol.

## 5.3 Y cyd-destun lleol

### Tuag at 2040, Cynllun Lles Powys (Mai 2018)

5.3.1 Cyhoeddwyd y Cynllun Lles cyntaf ar gyfer Powys ym mis Mai 2018 gan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer Ardal Awdurdod Lleol Powys, sy'n gyfrifol am ddatblygu Asesiad Llesiant a Chynllun Lles lleol ar gyfer yr ardal. Mae'r Cynllun Lles yn darparu gweledigaeth hirdymor o lesiant ym Mhowys ac yn manylu ar y camau a gymerir i fynd i'r afael â materion lleol ac i gyfrannu at y nodau Llesiant cenedlaethol. Mae'n nodi pedwar amcan llesiant lleol:

- Bydd pobl ym Mhowys yn profi economi sefydlog a ffyniannus.
- Bydd pobl ym Mhowys yn mwynhau amgylchedd cynaliadwy a chynhyrchiol.
- Bydd pobl ym Mhowys yn iach, yn llawn cymhelliant cymdeithasol ac yn gyfrifol.
- Bydd pobl ym Mhowys yn cael eu cysylltu gan gymunedau cryf a diwylliant bywiog.

Mae hefyd yn nodi 12 cam llesiant cychwynnol i gyflawni'r amcanion lleol hyn.

5.3.2 Mae Adroddiadau Blynyddol Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Powys yn tynnu sylw at y gwaith y mae'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ei wneud i gyflawni'r amcanion yn Tuag at 2040. Ym mis Mehefin 2021, lansiwyd ymarfer ymgysylltu 'Byw ym Mhowys' i lywio'r Cynllun Lles nesaf ar gyfer Powys. Mae'r data a gasglwyd o'r arolwg hwn a ffynonellau data ac ymgysylltu eraill wedi helpu i ddeall anghenion llesiant pobl ledled y sir. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd Asesiad drafft ar gyfer ymgynghori, sy'n nodi 18 maes pwyslais sy'n rhan annatod o lesiant. Defnyddir yr Asesiad i bennu'r amcanion llesiant lleol, a byddant yn darparu fframwaith ar gyfer y Cynllun Lles nesaf.

5.3.3 Mae dyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i roi sylw i'r Cynllun Lles lleol wrth baratoi ac adolygu'r cynllun datblygu, a bydd yn rhan allweddol o sylfaen dystiolaeth y CDLl ar gyfer y CDLl Newydd.

### Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol (Ebrill 2018, diweddarwyd Ebrill 2021)

5.3.4 Ym mis Ebrill 2018, lansiwyd Gweledigaeth 2025 gan Gyngor Sir Powys i weithredu fel ei Gynllun Gwella Corfforaethol, sy'n nodi gweledigaeth saith mlynedd ar gyfer y Sir a chynlluniau ar gyfer sut y byddai'r Cyngor yn ei chyflawni. Mae Gweledigaeth 2025 yn nodi pedwar amcan llesiant:

- Amcan Llesiant 1: Byddwn yn datblygu economi fywiog.
- Amcan Llesiant 2: Byddwn yn arwain y ffordd o ran darparu iechyd a gofal effeithiol integredig mewn amgylchedd gwledig.
- Amcan Llesiant 3: Byddwn yn cryfhau dysgu a sgiliau.
- Amcan Llesiant 4: Byddwn yn cefnogi ein dinasyddion a'n cymunedau.

5.3.5 Adroddir yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion llesiant. Cafodd Gweledigaeth 2025 ei hadnewyddu ym mis Ebrill 2021 fel Cynllun Gwella Corfforaethol 2021-2025. Bydd dyheadau ac amcanion y Cyngor, fel y'u nodir yn y ddogfen hon, yn cael eu hystyried wrth baratoi'r CDLl Newydd.

### Yr Argyfwng Newid Hinsawdd

5.3.6 Ym mis Medi 2020, datganodd Cyngor Sir Powys argyfwng hinsawdd. Roedd hyn yn cynnwys uchelgais i leihau ei allyriadau carbon i sero net, yn unol â tharged 2030 sector cyhoeddus Cymru. Dyma sut mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i leihau allyriadau carbon:

- Gan ei fod yn bartner ar Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Powys, mae'r Cyngor yn cyfrannu at baratoi Strategaeth Carbon Bositif ledled y sir.
- Cyllido gwaith yn y gymuned sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r economi leol trwy Raglen LEADER Arwain.
- Cydgysylltu'r gwaith o baratoi Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.
- Gwella gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.
- Gosod pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn cymunedau.
- Gosod paneli solar ar ysgolion ac adeiladau.
- Adeiladu cartrefi ac ysgolion sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.
- Darparu seilwaith newydd i annog beicio a cherdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

### Ansawdd Dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (Rhagfyr 2020, Ionawr 2021)

5.3.7 Ym mis Rhagfyr 2020, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru lythyr i Cyngor Powys, yn tynnu sylw at y ffaith bod cyrff dŵr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol dynodedig yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy yn methu â chyflawni terfynau ffosfforws a dynhawyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn 2016. Dilynwyd hwn gan lythyr arall ar 20 Ionawr 2021, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad statws cyflwr ar yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol

eraill yng Nghymru, gan gynnwys Afon Wysg, Afon Dyfrdwy ac Afon Tywi y mae eu holl grynoadau yn effeithio ar ardal CDLl Powys. O ganlyniad i hynny, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru Cyngor Cynllunio Interim ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn gwneud datblygiadau newydd mewn crynoadau Ardal Cadwraeth Arbennig yn ofynnol er mwyn sicrhau niwtraliaeth neu welliant o ran ffosffad.

5.3.8 Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor wedi'i ddiweddaru i awdurdodau cynllunio (nid yw'n gyngor dros dro mwyach) ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol sy'n sensitif i ffosfforws, sy'n cynnwys cyngor ar adolygu CDLlau. Mae'n rhoi cyngor ar sgrinio polisïau arfaethedig y CDLl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â systemau trin carthion preifat, ac asesu'r dyraniadau y bwriedir eu cysylltu â gwaith trin gwastraff y prif gyflenwad. Bydd y mater hwn yn ystyriaeth sylweddol wrth baratoi'r CDLl Newydd a'r prosesau asesu cysylltiedig.

# 6. Newidiadau i'r Sylfaen Dystiolaeth

## 6.1 Gofynion Sylfaen Dystiolaeth y CDLl

6.1.1 Er mwyn llywio'r CDLl Newydd, bydd angen diweddaru gwahanol elfennau o'r sylfaen dystiolaeth a lywiodd y CDLl presennol. Bydd hyn yn golygu diweddaru asesiadau presennol a chynnal asesiadau newydd yn unol â gofynion diweddaraf polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Bydd angen ystyried y dystiolaeth hon ochr yn ochr â thystiolaeth a gasglwyd drwy broses fonitro flynyddol y CDLl a thystiolaeth ehangach, cynlluniau, strategaethau, ac amgylchiadau cyd-destunol, gan gynnwys y rhai a nodir yn **Adran 5**.

6.1.2 Mae **Tabl 2** a **Thabl 3** isod yn darparu rhestr o dystiolaeth newydd wedi'i diweddaru y bydd ei hangen, ynghyd â rheswm sy'n esbonio pam mae angen y dystiolaeth hon i gefnogi'r gwaith o baratoi'r CDLl Newydd. Mae'r rhestr hon yn canolbwyntio ar dystiolaeth y mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei chynnal neu mewn partneriaeth ag eraill, er enghraifft yr Awdurdod Tai Lleol. Nid yw'n rhestr derfynol, a gallai gofynion tystiolaeth ychwanegol neu wedi'i diweddaru ddod i'r amlwg wrth i'r CDLl Newydd fynd rhagddo.

**Tabl 2. Gofynion Sylfaen Dystiolaeth Newydd**

| Mae Angen Tystiolaeth Newydd | Rheswm |
|---|---|
| Asesiad o Aneddiadau | Darparu asesiad o rôl, swyddogaeth, gwasanaethau, cyfleoedd, cyfyngiadau, capasiti, dyheadau a chymeriad aneddiadau, er mwyn llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl. |
| Adolygiad o Dir Cyflogaeth* | Asesu'r newid cyflogaeth a'r defnydd tir a ragwelir ynghyd ag amcangyfrifon o'r ddarpariaeth tir ar gyfer cyflogaeth, er mwyn llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl. |
| Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol | Darparu asesiad o gymeriad, priodoleddau, nodweddion a sensitifrwydd tirweddau lleol yn ardal y CDLl, er mwyn llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl. |
| Asesiad Seilwaith Gwyrdd | Darparu rhestr a map o'r seilwaith gwyrdd presennol, a rhwydweithiau ac asedau |

| | |
|---|---|
| | ecolegol, er mwyn llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl. |
| Cynllun Seilwaith | Darparu tystiolaeth o sut y bydd seilwaith y capasiti, y lleoliad, y cyllid a'r amseriad priodol ar waith i gefnogi'r broses o weithredu a chyflawni'r CDLl. |

* Darperir tystiolaeth sy'n ymwneud â thir cyflogaeth ar lefel strategol yn rhan o Astudiaeth Cyflogaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru y cyfeirir ati yn **Adran 10**.

### Tabl 3. Gofynion Sylfaen Dystiolaeth Wedi'i Diweddaru

| Mae Angen Tystiolaeth Wedi'i Diweddaru | Rheswm |
|---|---|
| Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol* | Darparu tystiolaeth wedi'i diweddaru o'r angen a'r galw am dai lleol i lywio strategaeth a gofynion tai y CDLl, a pholisïau tai fforddiadwy. |
| Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr* | Darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr fel y gall y CDLl wneud darpariaeth i ddiwallu'r angen nas diwallwyd. |
| Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel | Darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o hyfywedd datblygu tai i gefnogi strategaeth y CDLl ac i lywio polisïau a chynigion y CDLl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thai fforddiadwy a seilwaith. |
| Astudiaeth Fanwerthu | Darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o'r angen manwerthu er mwyn nodi unrhyw ofyniad am arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol. Hefyd, adolygu'r dulliau Prif Ffryntiad Siopa/Ffryntiad Siopa Eilaidd ac Ardaloedd Canol Trefi a hierarchaeth fanwerthu, er mwyn llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl. |
| Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | Darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o effeithiau tebygol y CDLl ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y cynllun, yn rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLl, a llywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl. |
| Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (Cam 1 a Cham 2) | Darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o'r perygl o lifogydd drwy nodi ardaloedd sydd â pherygl o lifogydd cyfredol ac yn y dyfodol, er mwyn llywio polisïau'r CDLl a'r broses o ddewis safleoedd. |
| Asesiad Man Agored | Darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o'r ddarpariaeth mannau agored presennol, nodi ardaloedd mannau agored i'w diogelu a darparu fframwaith ar gyfer darparu mannau agored newydd, er mwyn llywio polisïau a chynigion y CDLl. |
| Asesiad Ynni Adnewyddadwy | Asesu'r potensial ar gyfer ystod o dechnolegau ynni adnewyddadwy y mae ganddynt gynhwysedd gosodedig sy'n is na |

| | |
|---|---|
| | throthwy o 10MW, er mwyn llywio polisïau a chynigion y CDLl. |

*Yr Awdurdod Tai Lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiadau hyn; fodd bynnag, maent yn rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer CDLlau.

6.1.3 Mae gweddill yr adran hon yn canolbwyntio ar amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru, a ryddhawyd ar ôl mabwysiadu'r CDLl presennol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn esbonio bod yr amcanestyniadau hyn, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol diweddaraf, yn rhan hanfodol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynlluniau datblygu.

## 6.2 Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd

### Y cefndir

6.2.1 Roedd gofyniad tai y CDLl presennol yn seiliedig ar y prif amcanestyniad o amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru yn 2011, sef yr amcanestyniad diweddaraf a gyhoeddwyd ar y pryd. Gwnaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol addasiad â chynnydd o 10% i'r gofyniad i ystyried ffactorau perthnasol eraill, megis amcanion corfforaethol, strategaeth economaidd a'r angen am dai fforddiadwy, fel y rhestrir yn Adran 3.3 o CDLl mabwysiedig Powys (2011-2016). Y cyngor cenedlaethol ar y pryd oedd ymdrin ag amcanestyniadau aelwydydd 2011 yn ofalus oherwydd cyfnod y dirwasgiad economaidd yr oeddent wedi eu seilio arno.

6.2.2 Yn ddiweddarach, ystyriodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol y gofynion is fel y'u cyhoeddwyd yn yr amcanestyniadau newydd o aelwydydd yn seiliedig ar 2014 (a gyhoeddwyd ychydig cyn Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun yn 2017), fodd bynnag, ni chafodd gofyniad tai y CDLl ei ddiwygio am y rhesymau a esbonnir yn Adran 3.3 o CDLl mabwysiedig Powys (2011-2026).

6.2.3 Dros amser, bu ychydig o newid pwyslais ar sut y dylid defnyddio'r amcanestyniadau aelwydydd. Pan oedd y CDLl yn cael ei baratoi i ddechrau, nododd Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 7 (2014) y dylai amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru fod yn fan cychwyn ar gyfer asesu gofynion tai mewn CDLlau, er bod rhifynnau diweddarach wedi cynghori y dylid eu trin fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth. Mae'r rhifyn diweddaraf o Polisi Cynllunio Cymru, sef Rhifyn 11 (Chwefror 2021), yn cadarnhau bod yn rhaid eu trin fel rhan sylfaenol o'r sylfaen dystiolaeth, ac felly maent yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y CDLl Newydd.

### Yr Amcanestyniadau Poblogaeth Diweddaraf

6.2.4 Cyhoeddwyd amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol 2018 ym mis Mehefin 2020 (a disgwylir y cyhoeddiad nesaf ym mis Medi 2022); dadansoddwyd y rhain ar lefel yr Awdurdod Lleol ac fe'u cyhoeddwyd ym mis Awst 2020. **132,447** oedd poblogaeth Sir Powys yn 2018. Yn ôl y prif amcanestyniad, disgwylid i Bowys brofi gostyngiad bach yn y boblogaeth rhwng 2018 a 2020, ond ar ôl hynny disgwylid i'r boblogaeth gynyddu'n raddol o'r naill flwyddyn i'r llall (hyd at flwyddyn 2043). Erbyn dyddiad gorffen y CDLl yn 2026, rhagwelir y bydd poblogaeth Powys yn **132,765**.

6.2.5 Mae'r ffigurau diweddaraf hyn yn cymharu â thystiolaeth amcanestyniadau 2011 a nododd fod poblogaeth Sir Powys yn **133,071** yn 2011 (dyddiad dechrau'r CDLl), ac yn

**136,489** erbyn 2026 (fel y nodir yn yr amcanestyniadau, lleolir 18% o'r boblogaeth yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, felly bydd angen yr addasiad priodol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys).

6.2.6 Dangosir y gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau 2011, 2014 a 2018 yn **Ffigur 1**. Mae'r llinell ddu ar y graff yn dangos yr Amcangyfrif Canol-blwyddyn blynyddol o'r boblogaeth.

### Yr Amcangyfrif Canol-blwyddyn o'r Boblogaeth

6.2.7 Cyhoeddir Amcangyfrifon Canol-blwyddyn o'r boblogaeth yn flynyddol. Nododd yr Amcangyfrifon Canol-blwyddyn diweddaraf ar gyfer Mis Mehefin 2020 (fel y'u cyhoeddwyd ym mis Medi 2021) mai **133,030** yw poblogaeth Sir Powys, sy'n gynnydd o 595 ym maint y boblogaeth (y mae 425 ohonynt dros 65 oed) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

6.2.8 Mae hwn yn gynnydd diweddar oherwydd, yn flaenorol, mae'r Amcangyfrifon Canol-blwyddyn wedi dangos gostyngiad parhaus blynyddol ym mhoblogaeth Sir Powys ers dyddiad dechrau'r CDLl yn 2011 (133,071) hyd at ei lefel isaf yn 2016 (sef 132,337), gan gynyddu eto yn 2017 (132,515), ac yna bu gostyngiadau eto yn 2018 a 2019 (i lawr at 132,435) cyn yr adferiad diweddar hyd at **133,030** yn 2020. Mae'r ffigurau a gyflwynir yma, a'r graff a gyflwynir yn Ffigur 1, yn ymwneud â Sir Powys gyfan felly, o ran cynllunio defnydd tir, byddai angen eu gwahanu rhwng y ddau Awdurdod Cynllunio cyfansoddol (Awdurdod Cynllunio Lleol Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

6.2.9 Mae Amcangyfrifon Canol-blwyddyn yn ddefnyddiol wrth fesur cywirdeb yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf nas cyhoeddir yn rheolaidd. Mae'n amlwg bod yr Amcangyfrif Canol-blwyddyn 2020, sef **133,030,** yn uwch na'r ffigur a ragwelwyd yn amcanestyniadau poblogaeth 2018. Mae ffigur yr Amcangyfrif Canol-blwyddyn 609 yn uwch na'r amcanestyniad (**132,421**). Byddai'r Amcangyfrif Canol-blwyddyn presennol yn awgrymu y gallai'r amcanestyniadau diweddaraf (sy'n seiliedig ar 2018) fod yn tanamcangyfrif poblogaeth y dyfodol ym Mhowys (sy'n cael effaith gysylltiedig ar y broses o ffurfio aelwydydd newydd). Fodd bynnag, ar gyfer y CDLl Newydd, bydd canlyniadau Cyfrifiad Cenedlaethol 2021 y DU yn sefydlu ffigurau sylfaenol newydd wrth symud ymlaen a byddant yn llywio'r Amcangyfrif Canol-blwyddyn 2021 (y disgwylir eu cyhoeddi yn 2022) a fydd yn fan cychwyn cadarn ac amserol.

### Yr Amcanestyniadau Aelwydydd Diweddaraf

6.2.10 Wrth gynllunio ar gyfer cartrefi newydd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi sylw i'r amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf a gaiff eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru yn gyffredinol (a ddadansoddir fesul Awdurdod Lleol) bob tair blynedd ar y cyd ag amcanestyniadau poblogaeth. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn sail ar gyfer cynhyrchu'r amcanestyniadau aelwydydd.

6.2.11 O edrych ar gyfnod y Cynllun presennol (2011-2026) ym Mhowys, o dan y prif amcanestyniad aelwydydd (neu'r amcanestyniad canolog), bydd cyfanswm yr aelwydydd ym Mhowys yn cynyddu o 59,700 yn 2018 i 60,900 yn 2026. Ar gyfer Powys gyfan y mae'r rhagolwg hwn, felly bydd yn cynnwys rhai aelwydydd yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o'r sir. Mae **Tabl 4** isod yn crynhoi sut mae'r amcanestyniadau aelwydydd wedi newid yn ystod cyfnod cynllun y CDLl.

**Tabl 4. Crynodeb o'r Newidiadau i Amcanestyniadau Aelwydydd Powys***


| Dyddiad yr Amcanestyniadau | Nifer yr Aelwydydd ar ddyddiad sylfaen yr Amcanestyniadau | Nifer yr Aelwydydd a Ragwelir yn 2026 – Dyddiad Gorffen y CDLl | Aelwydydd Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| **2011** | 58,400 | 63,000 | 4,600 |
| **2014** | 59,000 | 60,000 | 1,000 |
| **2018** | 59,700 | 60,900 | 1,200 |

**Addasiadau ychwanegol sy'n angenrheidiol i rannu cartrefi rhwng CDLl Powys a CDLl Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.*


6.2.12 Gellir gweld bod amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd llawer is yn nifer yr aelwydydd o'u cymharu ag amcanestyniadau 2011 a lywiodd CDLl mabwysiedig Powys. Mae hyn yn dangos angen sylfaenol i ailystyried y gofyniad tai yn rhan o'r gwaith o baratoi CDLl Newydd.

6.2.13 Dangosir y gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau aelwydydd 2011, 2014 a 2018 yn seiliedig ar y prif amcanestyniadau yn **Ffigur 2**.

**Ffigur 1. Cymharu Amcanestyniadau Poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2011, 2014 a 2018 ag Amcangyfrifon Canol-blwyddyn Sir Powys**



**Ffigur 2. Cymharu Amcanestyniadau Aelwydydd Llywodraeth Cymru yn 2011, 2014 a 2018 (Prif Amcanestyniadau) ag Amcangyfrifon Canol-blwyddyn Sir Powys**




## Amrywiad ar yr Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd

6.2.14 Mae pum amrywiolyn cyhoeddedig sy'n cyd-fynd â'r prif amcanestyniad neu'r amcanestyniad canolog yn 2018. Ceir amrywiolion poblogaeth uchel ac isel a thri arall sy'n seiliedig ar dybiaethau mudo eraill. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiolyn dim mudo, amrywiolyn mudo cyfartalog dros 10 mlynedd ac amrywiolyn mudo cyfartalog dros 15 mlynedd. Mae'r amrywiolion yn helpu i gasglu effaith mudo a sut y gall ystyried tueddiadau byrrach o'u cymharu â thueddiadau tymor hwy arwain at wahanol senarios mewn twf poblogaeth (a chan hynny, aelwydydd).

6.2.15 Mae bod â'r set ddata hon ar gael yn golygu y gellir ystyried twf aelwydydd o dan y prif amcanestyniad aelwydydd o'i gymharu â senarios eraill; bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch pa amrywiolyn/amrywiolion allai fod yn briodol i'w defnyddio wrth ddiwygio'r Strategaeth Twf ar gyfer y CDLl Newydd. Crynhoir y gwahaniaethau yn **Nhabl 5** isod i ddangos sut mae defnyddio gwahanol amrywiolion yn effeithio ar nifer yr aelwydydd a ragwelir ar ddiwedd cyfnod CDLl mabwysiedig Powys (2026).

**Tabl 5. Amcanestyniadau Aelwydydd Awdurdodau Lleol fel y'u Cyhoeddwyd 2020/2021 (yn seiliedig ar 2018) - Y Chwe Dewis Amgen***

| Blwyddyn | Prif | Amrywiol yn isaf | Amrywiol yn uchaf | Amrywiol yn mudo cyfartalog dros ddeng mlynedd | Amrywiol yn mudo cyfartalog dros bymtheng mlynedd | Amrywiol yn dim mudo |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2018** | 59,664 | 59,664 | 59,664 | 59,664 | 59,664 | 59,664 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad Sylfaen yr Amcanestyniadau Diweddaraf** | | | | | | |
| **2026 Dyddiad gorffen y CDLl presennol** | 60,906 | 60,516 | 61,224 | 60,872 | 61,988 | 58,584 |

* *Addasiadau ychwanegol sy'n angenrheidiol i rannu cartrefi rhwng CDLl Powys a CDLl Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.*

### Cyfrifiad 2021

6.2.16 Bydd canlyniadau Cyfrifiad Cenedlaethol 2021 y DU yn cael eu defnyddio i ailbennu llinell sylfaen newydd ar gyfer yr Amcangyfrifon Poblogaeth ac Aelwydydd Canol-blwyddyn, gan gywiro gwallau sydd wedi codi dros y 10 mlynedd flaenorol. Bydd poblogaeth sylfaenol newydd 2021 yn cael ei defnyddio mewn amcanestyniadau yn y dyfodol, gan ddarparu man cychwyn mwy cywir.

### Crynodeb o'r Sefyllfa Bresennol

6.2.17 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2018 yw'r dystiolaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd a byddant yn llywio gwaith cynnar ar y CDLl Newydd. Fodd bynnag, bydd canlyniadau Cyfrifiad Cenedlaethol 2021 y DU (a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021) yn darparu tystiolaeth sylfaenol hanfodol wrth symud ymlaen a disgwylir datganiadau ystadegol yn 2022 a 2023. Wrth baratoi'r CDLl Newydd, bydd y Cyngor yn ymwybodol o'r angen i fod yn hyblyg i ystyried ac, os bydd angen, addasu i'r canlyniadau hyn wrth iddynt ddod ar gael. Wrth ailystyried y Strategaeth Twf a'r gofyniad tai yn y CDLl Newydd, bydd amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn ystyriaeth bwysig, ynghyd â nifer o ffactorau eraill megis tystiolaeth wedi'i diweddaru yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, cyfraddau adeiladu yn y gorffennol a chynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (trafodir hyn ymhellach yn adran 7.2).

# 7. Materion, Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth y CDLl

## 7.1 Materion ac Ystyriaethau Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion.

### Materion ac Ystyriaethau Allweddol

7.1.1 Nododd y CDLl 48 o Faterion ac Ystyriaethau Allweddol sy'n wynebu ardal y Cynllun yn ystod Cyfnod y Cynllun, 2011-2026. Mae pob mater wedi ei restru yn y Cynllun ac wedi ei grwpio o dan y penawdau canlynol: Ystyriaethau Economaidd, Amgylcheddol, Poblogaeth a Thai, Seilwaith ac Adnoddau. Cododd y Materion a'r Ystyriaethau Allweddol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, casglu tystiolaeth a chysoni'r CDLl â chynlluniau a strategaethau eraill.

7.1.2 Defnyddid y Materion a'r Ystyriaethau Allweddol i ddatblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion, a oedd yn nodi dibenion cyffredinol yr hyn y mae'r CDLl yn ceisio ei gyflawni ac ar gyfer datblygu hyd at 2026.

### Gweledigaeth

7.1.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion a'r Ystyriaethau Allweddol a nodwyd, paratowyd Gweledigaeth ganlynol y CDLl â chyfranogiad rhanddeiliaid ac yn unol â chynlluniau a strategaethau eraill ar gyfer yr ardal:

> Ein Gweledigaeth o Bowys 2026
>
> Mae Powys yn sir o amrywiaeth sylweddol sy'n ymestyn o gymoedd de Cymru hyd at Fynyddoedd y Berwyn yn y gogledd, ac o Fynyddoedd Cambria yn y gorllewin hyd at ffin Lloegr yn y dwyrain.
>
> Fel 'calon werdd Cymru', bydd Powys yn lle o gymunedau bywiog a chadarn sy'n darparu datblygiadau cynaliadwy a chyfleoedd economaidd a leolir mewn amgylchedd iach a diogel, gan ddathlu, diogelu, gwella a rheoli yn gynaliadwy ei hadnoddau naturiol, ei bywyd gwyllt a'i chynefinoedd brodorol, ei threftadaeth, ei thirweddau arbennig a'i nodweddion nodedig.
>
> Bydd trefi a phentrefi mwyaf Powys yn ganolfannau gwasanaeth bywiog a hygyrch. Byddant yn ganolbwynt ar gyfer integreiddio tai, datblygu economaidd a gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion eu hunain ac anghenion eu cymunedau cyfagos.
>
> Bydd ardaloedd gwledig Powys yn gefn gwlad o gymunedau cynaliadwy sy'n llawn gwaith, a gefnogir gan economi wledig ffyniannus ac amrywiol o fusnesau bach.

### Amcanion

7.1.4 Mae'r CDLl yn cynnwys 16 o amcanion sydd wedi eu croesgyfeirio at y Materion a'r Ystyriaethau Allweddol perthnasol a'u rhannu'n Themâu, fel a ganlyn:

- Thema 1 – Cynllunio ar gyfer Twf mewn Mannau Cynaliadwy,
- Thema 2 – Cefnogi Economi Powys,
- Thema 3 – Cefnogi Seilwaith a Gwasanaethau,
- Thema 4 – Gwarchod Asedau Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol,
- Thema 5 – Cefnogi Cymunedau Iach.

### Ailystyried Materion ac Ystyriaethau Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion

7.1.5 Ers paratoi'r CDLl, bu rhai newidiadau sylfaenol i ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n nodi'r fframwaith i Lywodraeth Cymru lunio amcanion llesiant sy'n dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol yn ogystal ag awdurdodau lleol uniongyrchol. Mae angen ailystyried Materion ac Ystyriaethau Allweddol y CDLl, y Weledigaeth a'r Amcanion gyda phwyslais ar ddarpariaethau'r Ddeddf a'r amcanion llesiant, gan gynnwys ystyried Cynllun Lles Lleol y Cyngor.

7.1.6 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (Mawrth 2020) yn cynghori bod yn rhaid i'r amcanion yn y CDLl fod yn gysylltiedig â'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol. Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021) yn nodi hefyd fod yn "[r]haid i bob cynllun datblygu fynd â'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy yn eu blaen a'u defnyddio i ddatblygu set gyffredinol o ganlyniadau". Nod creu lleoedd yw darparu "[f]fordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd [...], sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf". Mae'n rhaid ymwreiddio creu lleoedd a'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol wrth ddiwygio Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl.

7.1.7 Mabwysiadodd Cyngor Sir Powys Gynllun Corfforaethol newydd - Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol 2021-2025 ym mis Ebrill 2018 (diweddarwyd yn 2021) Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol newydd a adolygir yn flynyddol yn nodi gweledigaeth saith mlynedd ar gyfer y sir a'i chynlluniau o ran sut i'w chyflawni. Dylid ailystyried Materion ac Ystyriaethau Allweddol y CDLl, a Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl, er mwyn sicrhau cynghrair â blaenoriaethau corfforaethol cyfredol.

7.1.8 Bydd cynnwys rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth yn mesur perthnasedd y Materion Allweddol neu a oes angen newidiadau neu ychwanegiadau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y Materion Allweddol yr ymdriniwyd â nhw yn ogystal â'r rhai lle mae materion yn parhau i fod yn bryder parhaus, ynghyd â materion sydd newydd eu nodi megis y rhai sy'n deillio o Bandemig COVID-19.

## 7.2 Strategaeth y CDLl

### Strategaeth y CDLl

7.2.1 Nod y Strategaeth drosfwaol yw cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun a ddisgrifir yn y CDLl fel a ganlyn:

> "Mae Strategaeth y CDLl yn dosbarthu twf newydd yn gyfartal o amgylch ardal y Cynllun i ddiwallu anghenion tai, adwerthu a chyflogaeth, gan ganolbwyntio datblygiadau mewn trefi a phentrefi mawr gan sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau mewn ardaloedd llai cynaliadwy yn cael eu rheoli'n ofalus. Mae'r Strategaeth yn cefnogi cymunedau cryf a chefn gwlad amrywiol a gweithgar ac mae'n ymateb i anghenion yr ardal leol yn nhermau darparu tai fforddiadwy a diwallu anghenion arbenigol. Mae datblygiadau'n cael eu cyfeirio i leoliadau o fewn hierarchaeth anheddu arbenigol a gwneir yr holl benderfyniadau rheoli datblygu yn erbyn fframwaith lle mae egwyddorion datblygu cynaliadwy a gwarchodaeth o'r amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol wedi'u sefydlu'n gadarn."

7.2.2 Dwy brif elfen Strategaeth y CDLl yw'r 'Strategaeth Twf' a'r 'Strategaeth Ofodol'.

### Y Strategaeth Twf


7.2.3 Arweiniodd y dystiolaeth yn ymwneud ag anghenion yn ardal y Cynllun at Strategaeth y CDLl yn cael ei harwain yn bennaf gan dwf tai. Y Ffigur a nodwyd ar gyfer y Gofyniad Anheddau oedd cwblhau 4,500 o gartrefi newydd ychwanegol rhwng 2011 a 2026. Roedd hyn yn cynnwys Targed Tai Fforddiadwy o 952 o dai fforddiadwy newydd i'w cyflawni yn ystod y cyfnod. Mae polisïau Strategol SP1 – Twf Tai ac SP3 – Targed Tai Fforddiadwy yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer cyflawni'r 'Strategaeth Twf'.

7.2.4 Er mwyn bodloni Ffigur y Gofyniad Anheddau, byddai'n ofynnol cwblhau 300 o gartrefi ychwanegol bob blwyddyn ar gyfartaledd dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd. Dengys **Ffigur 3**, yn ystod deng mlynedd cyfnod y cynllun sydd wedi mynd heibio, mai dim ond ddwywaith y cyflawnwyd y gyfradd gwblhau o 300 o gartrefi ychwanegol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn AMB 2021. Mae'r gyfradd gwblhau gymharol isel wedi arwain at ehangu'r bwlch rhwng y nifer a gwblheir fesul blwyddyn a'r gofyniad tai cyfartalog blynyddol, a gymerir yn gronnol, fel y dangosir yn **Ffigur 4**. Roedd nifer blynyddol cyfartalog cronnol yr anheddau a gwblhawyd erbyn diwedd mis Mawrth 2021 yn cyfateb i 2,101 o gartrefi newydd; mae hyn yn golygu bod angen cwblhau 2,399 o anheddau eraill yn ystod y pum mlynedd o gyfnod y cynllun sy'n weddill (Ebrill 2021 - Mawrth 2026) i gyflawni ffigur y gofyniad annedd. Byddai hyn yn gofyn am gyfradd cwblhau cyfartalog o 480 o gartrefi ychwanegol y flwyddyn, yr ystyrir, yn seiliedig ar gyfraddau cwblhau'r gorffennol a nifer y safleoedd datblygu sy'n mynd rhagddynt drwy'r system gynllunio, yn afrealistig ac mae'n golygu nad yw'n debygol y cyflawnir y targed o 4,500 o gartrefi newydd.


7.2.5 Mae'r methiant i gyflawni'r lefelau twf tai a nodir yn y cynllun yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, ac un ohonynt yw pa mor gyflym y mae safleoedd a ddyrennir yn dod rhagddynt. Ar 31 Mawrth 2021, nid oedd gan 53 (66%) o'r 80 o safleoedd tai a ddyrannwyd yn y CDLl unrhyw fath o ganiatâd cynllunio. Rhagwelwyd y byddai 845 o anheddau wedi eu cwblhau ar safleoedd a ddyrannwyd erbyn 31 Mawrth 2021, ond dim ond 88 o anheddau sydd wedi eu cyflawni.

7.2.6 Oherwydd y gwahaniaeth rhwng nifer yr anheddau a gwblheir o'i gymharu â'r gofyniad anheddau, ni ellir bwrw ymlaen â'r Strategaeth Twf bresennol a'r dyraniadau tai a geir yn CDLl mabwysiedig Powys a bydd angen eu hailystyried yn ystod yr adolygiad. Bydd angen i'r Strategaeth Twf adlewyrchu angen ardal y Cynllun yn y dyfodol, gan ystyried yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf, ynghyd â thystiolaeth o angen o ffynonellau megis yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, cyfraddau adeiladu yn y gorffennol a chynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

**Ffigur 3. Nifer y Cartrefi Ychwanegol Gwirioneddol a Gwblhawyd o'i Gymharu â'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol**




**Ffigur 4. Nifer yr Anheddau Ychwanegol Cronnol a Gwblhawyd o'i Gymharu â'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol Cronnol**




7.2.7 O ran y Targed Tai Fforddiadwy o gyflawni 952 o dai fforddiadwy newydd yn ystod cyfnod y Cynllun, cwblhawyd 603 o anheddau fforddiadwy rhwng 2011 a 2021. Mae hyn yn golygu bod angen cyflawni 349 o dai fforddiadwy newydd eraill, sy'n cyfateb i gyfartaledd o 70 o anheddau y flwyddyn, yn ystod y pum mlynedd o'r CDLl sy'n weddill. Yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu yn y gorffennol a nifer y cynlluniau a gyflwynir, ystyrir bod hyn yn gyflawnadwy. Mae **Ffigur 5** yn dangos sut mae'r gwahaniaeth rhwng y targed anheddau ychwanegol fforddiadwy cronnol a nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol cronnol sy'n cael eu cwblhau yn lleihau.

7.2.8 Er y rhagwelir y bydd Targed Tai Fforddiadwy y CDLl yn cael ei gyflawni, bydd yr elfen hon o'r Strategaeth Twf yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â Ffigur y Gofyniad Anheddau. Bydd hyn yn cynnwys asesu lefelau'r angen a'r dulliau ar gyfer cyflawni tai fforddiadwy, er mwyn pennu Targed Tai Fforddiadwy diwygiedig ar gyfer y CDLl Newydd.

### Ffigur 5. Nifer y Cartrefi Fforddiadwy Ychwanegol Cronnol a Gwblhawyd o'i Gymharu â'r Targed Anheddau Ychwanegol Fforddiadwy Cronnol



### Y Strategaeth Ofodol

7.2.9 Nod y Strategaeth Ofodol yw arwain a dosbarthu datblygiadau i leoliadau cynaliadwy, gan ddiogelu adnoddau ac asedau strategol pwysig. Un o elfennau allweddol Strategaeth Ofodol y CDLl yw'r diffiniad o hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n cynnwys:

- Trefi
- Pentrefi Mawr
- Pentrefi Bach
- Aneddiadau Gwledig
- Cefn Gwlad Agored, gan gynnwys yr arfordir nas datblygwyd.

7.2.10 Polisïau Strategol SP5 – Hierarchaeth Aneddiadau ac SP6 – Dosbarthu Twf ar draws yr Hierarchaeth Aneddiadau a nodir yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy a lefel a dosbarthiad y twf ar gyfer y gwahanol haenau. Mae'r Strategaeth Ofodol yn cyfeirio twf at y Trefi a'r Pentrefi Mawr, ac mae datblygiadau yn yr haenau is yn cael eu rheoli'n ofalus gan sicrhau bod cydbwysedd rhwng cynnal cymunedau gwledig, diwallu anghenion yn lleol a diogelu asedau naturiol ardal y Cynllun.

7.2.11 Mae **Tabl 6** yn dangos canran y twf mewn tai a gynlluniwyd ar gyfer pob un o'r haenau yn yr hierarchaeth aneddiadau, o'i gymharu â chanran yr anheddau a ganiatawyd ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Ebrill 2018 ac a gyflawnwyd ers dyddiad sylfaen y ddarpariaeth dai, sef mis Ebrill 2015 (y dyddiad pryd y cyfrifwyd cydrannau tai y CDLl).

7.2.12 Mae'r canlyniadau'n dangos bod dosbarthiad yr anheddau a ganiatawyd ar draws yr hierarchaeth aneddiadau ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ofodol. Nid yw dosbarthiad yr anheddau a gwblhawyd ers 2015 yn cyd-fynd yn union â'r Strategaeth; mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd bod llawer o'r cynigion wedi cael caniatâd cynllunio o dan yr hen Gynllun Datblygu Unedol yr oedd ganddo strategaeth ofodol wahanol. Dros y blynyddoedd nesaf, disgwylir y bydd canran gronnol yr anheddau ychwanegol a gwblhawyd ers 1 Ebrill 2015 yn dechrau cyfochri'n agosach â chanrannau'r twf arfaethedig a nodir ym Mholisi Gofodol SP6.

**Tabl 6. Dosbarthiad Gofodol y Twf Tai a Ganiateir ac a Gyflawnir**

| Yr Hierarchaeth Aneddiadau | Canran Gronnol yr Anheddau a Ganiatawyd ers i'r CDLl gael ei Fabwysiadu | Canran Gronnol yr Anheddau Ychwanegol a Gwblhawyd ers 1 Ebrill 2015 | Canran y Twf a nodir ym Mholisi Gofodol SP6 y CDLl |
|---|---|---|---|
| **Tref** | 59% | 45% | >50% |
| **Pentref Mawr** | 28% | 23% | >25% |
| **Pentref Bach** | 4% | 9% | <10% |
| **Cefn Gwlad Agored / Anheddiad Gwledig** | 10% | 23% | <15% |

7.2.13 Dengys **Tabl 7** ganran y twf mewn tir cyflogaeth a gynlluniwyd ar gyfer pob un o'r haenau yn yr hierarchaeth aneddiadau, o'i gymharu â chanran y tir cyflogaeth a ganiatawyd ers mabwysiadu'r CDLl. Nid yw'r dosbarthiad cynlluniau ar gyfer defnydd cyflogaeth yn union fel y'i cynlluniwyd, ond mae'n cyd-fynd yn fras â'r Strategaeth Ofodol, gyda 69% o'r tir cyflogaeth yn nwy haen uchaf yr hierarchaeth o'i gymharu â'r twf a gynlluniwyd, sef 70%.

7.2.14 Mae nifer y cynlluniau a ganiateir ar gyfer defnydd cyflogaeth yn gymharol isel o'i gymharu â'r hyn ar gyfer tai. Mae hyn yn golygu y gall un cais ystumio'r data, ac mae hynny wedi digwydd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cais mawr ar safle cyflogaeth a ddyrannwyd mewn Pentref Mawr. Arweiniodd hyn at ganran y tir cyflogaeth a ganiateid yn yr haen Pentref Mawr a oedd yn fwy na'r twf arfaethedig o 20%. Wrth i fwy o'r dyraniadau cyflogaeth mewn Trefi ddod rhagddynt, disgwylir y bydd canran yr hyn a ganiateir yn cyfochri'n agosach â chanrannau'r twf arfaethedig a nodir ym Mholisi Gofodol SP6.

**Tabl 7. Dosbarthiad Gofodol y Twf Cyflogaeth a Ganiatawyd**

| Yr Hierarchaeth Aneddiadau | Canran Gronnol y Tir Cyflogaeth a Ganiatawyd ers i'r CDLl gael ei Fabwysiadu | Canran y Twf a nodir ym Mholisi Gofodol SP6 y CDLl |
|---|---|---|
| **Tref** | 41% | >50% |
| **Pentref Mawr** | 28% | <20% |
| **Pentref Bach / Anheddiad Gwledig / Cefn Gwlad Agored** | 31% | <30% |

7.2.15 Bellach, mae'r CDLl bron i ddwy ran o dair o'r ffordd drwy gyfnod y Cynllun. Mae **Tabl 6** a **Thabl 7** uchod yn dangos bod y tai a'r gyflogaeth a gyflawnir yn ofodol yn cyd-fynd yn gyffredinol â dosbarthiad gofodol y twf a nodir yn CDLl mabwysiedig Powys. Felly, o ran y Strategaeth Ofodol, mae'n ymddangos bod polisïau Strategol SP5 ac SP6 y CDLl yn gweithio'n effeithiol.

7.2.16 Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd ailystyried y Strategaeth Twf yn golygu y bydd angen ailystyried hefyd sut y caiff twf ei ddosbarthu. Er enghraifft, gallai ffigur is ar gyfer y gofyniad anheddau olygu nad yw'n ymarferol dosrannu safleoedd a ddyrennir i'r holl aneddiadau yn nwy haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau fel sy'n digwydd yn awr.

7.2.17 Mae angen adolygu'r Strategaeth Ofodol yng ngoleuni cyhoeddiad Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021) hefyd. Mae gan Cymru'r Dyfodol ei Strategaeth Ofodol ei hun y bydd angen i Strategaeth Ofodol y CDLl Newydd sicrhau ei bod yn gyson â hi. Hefyd, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlau gynnwys strategaeth cynllunio a chludiant integredig a fydd yn gorfod llywio strategaeth ofodol a strategaeth drosfwaol y CDLl Newydd. Bydd yr adolygiad o'r Strategaeth Ofodol yn cynnwys ymwneud â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth (gan gynnwys asesiad diwygiedig o aneddiadau ac adolygiad o'r safleoedd a ddyrannwyd). Bydd yn ystyried y strategaeth ofodol yn Cymru'r Dyfodol, Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol a blaenoriaethau corfforaethol, ynghyd â materion megis adferiad yn sgil pandemig COVID-19 a chyfyngiadau megis lefelau ffosffad mewn crynoadau afonol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

# 8. Adolygiad Maes Pwnc y CDLl

8.0.1 Mae'r polisïau yn CDLl mabwysiedig Powys wedi eu hadolygu gan roi sylw i'r canlynol:

- Canfyddiadau AMB 2021, AMB 2020 a'r Adolygiad Monitro.
- Newidiadau cyd-destunol sylweddol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLl; mae hyn yn cynnwys newidiadau i bolisi a deddfwriaeth genedlaethol.
- Ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol perthnasol a Swyddogion Rheoli Datblygu.

8.0.2 Mae **Atodiad B** yn rhoi crynodeb byr o'r adolygiad ar gyfer pob un o'r polisïau a restrir yn y CDLl. Mae pob crynodeb yn rhoi trosolwg ynghylch a yw'r polisi'n gweithio'n effeithiol, a oes angen ei ailystyried oherwydd newidiadau cyd-destunol neu a oes angen ei ddiwygio neu ei newid mewn rhai achosion, er mwyn gwella eglurder. Nid ystyrir bod yr asesiad polisi a gynhaliwyd hyd yma yn derfynol, a rhoddir ystyriaeth bellach i'r angen i ddiwygio polisïau'r Cynllun wrth baratoi'r CDLl Newydd.

8.0.3 Trafodir yn fanylach isod y meysydd pwnc yr ystyrir eu bod yn debygol o fod angen diwygiadau i Bolisi'r CDLl yn seiliedig ar yr asesiad adolygu polisïau.

## 8.1 Tai

### Twf Tai a Dyraniadau Preswyl

(Polisïau SP1, H1, H2)

8.1.1 Fel y nodir yn Adran 7.2 uchod, roedd y Strategaeth Twf, sy'n sail i Bolisi Strategol SP1, yn seiliedig ar y Gofyniad Anheddau, a nodwyd Ffigur o 4,500 o gartrefi newydd ychwanegol i'w cwblhau rhwng 2011 a 2026. Mae nifer y cartrefi newydd ychwanegol a gwblhawyd erbyn diwedd mis Mawrth 2021, fel y'u cipiwyd trwy fonitro, wedi arwain at ddiffyg na ellir mynd i'r afael ag ef yn realistig cyn diwedd cyfnod y Cynllun (2026).

8.1.2 Oherwydd y gwahaniaeth rhwng nifer yr anheddau sy'n cael eu cwblhau o'u cymharu â Ffigur y Gofyniad Anheddau, ni ellir dwyn y Strategaeth Twf bresennol na Pholisi Strategol SP1 ymlaen i'r CDLl Newydd a bydd angen eu hailystyried. Bydd angen i Ffigur y Gofyniad Anheddau diwygiedig adlewyrchu angen ardal y Cynllun yn y dyfodol, gan ystyried yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf, ynghyd â thystiolaeth o angen o ffynonellau megis yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, yn ogystal â chyfraddau adeiladu yn y gorffennol. Bydd ailystyried y Strategaeth Twf yn golygu yr ailystyrir hefyd sut y bydd y twf yn cael ei ddosbarthu (y Strategaeth Ofodol – Polisïau strategol SP5 ac SP6 a Pholisi H1). Bydd angen i Strategaeth Ofodol ddiwygiedig yn y CDLl Newydd gyd-fynd â'r Strategaeth Ofodol a nodir yn Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021) a'r egwyddorion creu lleoedd a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11).

8.1.3 Bydd angen diwygio dyraniadau preswyl y CDLl, a nodir ym Mholisi H2 y CDLl, yn rhan o'r broses adolygu. Bydd angen ailystyried Dyraniadau Tai nas cyflawnwyd, sy'n debygol o arwain at lawer o ddyraniadau presennol na fyddant yn cael eu dwyn ymlaen i'r CDLl Newydd. Hefyd, bydd angen dyrannu safleoedd newydd sy'n gyflawnadwy ac yn ymarferol, er mwyn bodloni Ffigur y Gofyniad Anheddau diwygiedig yn ystod cyfnod y Cynllun newydd (2022-2037). Ceir crynodeb o statws pob Dyraniad Tai ac Ymrwymiad Tai a nodir gan y CDLl presennol yn **Atodiad C**.

### Tai Fforddiadwy

(Polisïau SP3, H5, H6)

8.1.4 Mae'r CDLl yn nodi fframwaith Polisi ar gyfer cyflawni Tai Fforddiadwy drwy Bolisi Strategol SP3, a Pholisïau H5 ac H6 sy'n Seiliedig ar Bwnc. Mae'r fframwaith polisi yn nodi targedau a throthwyon ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau preswyl preifat gyfrannu at dai fforddiadwy ac mae'n caniatáu datblygiadau tai fforddiadwy ar raddfa fach ar safleoedd eithriedig, y tu allan i ffiniau datblygu Trefi a Phentrefi Mawr ac mewn Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig.

8.1.5 Mae'r CDLl yn pennu Targed Tai Fforddiadwy o 952 o dai fforddiadwy newydd i'w cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun (2011-2026). Cwblhawyd cyfanswm o 603 o anheddau fforddiadwy rhwng 2011 a 2021, sy'n golygu bod angen cyflawni 349 o dai fforddiadwy newydd eraill yn ystod pum mlynedd y CDLl sy'n weddill. Yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu yn y gorffennol a nifer y cynlluniau a gyflwynir, ystyrir bod hyn yn gyflawnadwy.

8.1.6 Dylanwadwyd yn drwm ar nifer yr anheddau fforddiadwy a gyflawnwyd gan nifer yr anheddau fforddiadwy a gyflawnid trwy raglenni'r Gymdeithas Tai Lleol (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) a rhaglenni adeiladu tai y Cyngor. O ran tai fforddiadwy a gyflawnir ar ddatblygiadau marchnad, canfu canlyniadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol fod y targed polisi ar gyfer cyfraniadau tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi H5 y CDLl yn cael ei gyflawni, ar gyfartaledd, neu y rhagorir arno yn ardaloedd isfarchnad Dyffryn Hafren a Gogledd Powys. Roedd y cyfraniad cyfartalog a sicrhawyd yn ardal yr isfarchnad Ganolog yn is na'r targed polisi, oherwydd bod safleoedd wedi sicrhau caniatâd cynllunio cychwynnol o dan y Cynllun Datblygu Unedol blaenorol.

8.1.7 Yn rhan o'r adolygiad, bydd angen ailystyried y targed Tai Fforddiadwy a'r fframwaith polisi, er mwyn adlewyrchu Strategaeth Twf ddiwygiedig a Ffigur y Gofyniad Anheddau sy'n cwmpasu cyfnod y Cynllun Newydd (2022 – 2037). Bydd hyn yn arwain at ddiwygio'r Targed Tai Fforddiadwy – Polisi Strategol SP3. Hefyd, bydd angen i'r fframwaith polisi tai fforddiadwy yn y CDLl Newydd ystyried tystiolaeth ddiweddaredig, gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, tystiolaeth o hyfywedd, tystiolaeth o fforddiadwyedd y stoc dai a'r angen lleol, ynghyd ag ymgysylltiad â rhanddeiliaid (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Awdurdod Tai Strategol) gall hyn arwain at newidiadau i bolisïau H5 ac H6 y CDLl.

8.1.8 Bydd angen ystyried newidiadau i bolisïau / canllawiau cynllunio cenedlaethol hefyd. Mae Polisi 7 yn Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy, yn arbennig o bwysig. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn rhoi amcangyfrif o'r cartrefi ychwanegol sydd eu hangen yn Rhanbarth Canolbarth Cymru, y dylai 61% ohonynt fod yn dai fforddiadwy.

### Polisïau Tai Penodol

(Polisïau H3, H4, H7, H8, H9)

8.1.9 Mae'r fframwaith polisi tai yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â dwysedd tai (H4), datblygiadau gan ddeiliaid tai (H7), adnewyddu anheddau gwag (H8) ac anheddau newydd (H9). Bydd yr holl bolisïau hyn yn cael eu hailystyried o'u cymharu â'r egwyddorion creu lleoedd ac unrhyw newidiadau cyd-destunol eraill sydd wedi digwydd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2018.

8.1.10 Polisi H4 y CDLl - bydd Dwysedd Tai hefyd yn rhoi sylw i'r dwyseddau a argymhellir a nodir mewn polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol, yn enwedig ar gyfer datblygu tai yn

yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol y bydd Polisi 2 Cymru'r Dyfodol yn gymwys ynddynt. Gwneir rhagor o waith ymchwil i lywio'r dull o ymdrin â dwysedd tai ar draws haenau aneddiadau a mathau o ddatblygiadau.

8.1.11 Polisi H9 y CDLl – Anheddau Newydd, yn rhan o'r adolygiad hwn, nodwyd materion wrth ddehongli'r polisi hwn, yn enwedig o ran nodi ac asesu adeiladau o gymeriad cynhenid lleol. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o eglurhad ynghylch polisïau i adlewyrchu gofynion asesu archeolegol.

### Safleoedd a Charafanau Sipsiwn a Theithwyr

(Polisïau H10, H11)

8.1.12 Mae'r fframwaith polisi a ddarperir trwy Bolisi H10 y CDLl – Safleoedd a Charafanau Sipsiwn a Theithwyr a Pholisi H11 y CDLl – Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, yn sicrhau y darperir lleiniau digonol ar gyfer y gymuned yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r fframwaith polisi'n cynnwys dyrannu dau safle a pholisi meini prawf i asesu ceisiadau am safleoedd newydd.

8.1.13 Gwnaeth Polisi H11 y CDLl - Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ddarpariaeth ar gyfer saith llain i Sipsiwn a Theithwyr yn ystod cyfnod y Cynllun (2011-2026). Nodwyd y saith llain yn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2008 (diweddarwyd yn 2014 a 2016), gan rannu'r angen ar draws dau safle, un ym Machynlleth ac un yn y Trallwng. Roedd safle'r Trallwng yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dau lain, ac fe'u cwblhawyd erbyn 31 Mawrth 2019. Roedd safle Machynlleth yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pum llain, a chwblhawyd y rhain ar 5 Mawrth 2021. Ceir crynodeb o statws y ddau safle yn **Atodiad C**.

8.1.14 Disgwylir i Bolisi H10 y CDLl barhau i fod yn gefnogol ac yn hyblyg o ran darparu safleoedd pan fo hynny'n angenrheidiol. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol i'r gofynion polisïau cyfredol a'r anghenion sy'n codi.

8.1.15 Bydd Polisi H11 y CDLl yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd sydd i'w gyhoeddi yn unol â chyfnodau adolygu Llywodraeth Cymru. Bydd yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig yn nodi'r angen hyd at 2037, yn ôl yr angen am ddarpariaeth, a bydd yn arwain at gynnwys safleoedd newydd yn y CDLl Newydd.

## 8.2 Datblygu Economaidd

8.2.1 Mae'r CDLl yn nodi fframwaith Polisi ar gyfer Datblygu Economaidd yn ardal y Cynllun, sy'n canolbwyntio ar ddosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8 traddodiadol. Mae'r fframwaith polisi'n cynnwys safleoedd a ddyrennir a safleoedd a ddiogelir, ynghyd â chyfres o bolisïau strategol, rheoli datblygiadau a pholisïau sy'n seiliedig ar bwnc.

### Dyraniadau Cyflogaeth

(Polisïau SP2, E1, E3)

8.2.2 Cafodd y CDLl ei lywio gan Astudiaeth Asesu Anghenion Economaidd Powys (2011) (diweddarwyd 2015) sy'n amcangyfrif bod angen i 30-42 hectar o dir fod ar gael ar gyfer twf economaidd yn ystod cyfnod y Cynllun (2011 - 2026). Argymhella Astudiaeth Asesu Anghenion Economaidd Powys hefyd y dylid ystyried lwfans hyblygrwydd sy'n cyfateb i bum mlynedd o gyflenwad. Felly, argymhella'r Astudiaeth ei bod yn ofynnol i 40-56 hectar o dir cyflogaeth fod ar gael yn y CDLl. Arweiniodd hyn at gynnwys 45 hectar o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn CDLl mabwysiedig Powys, Polisi Strategol SP2, Polisïau Pwnc E1 ac E3.

8.2.3 I fodloni isafswm y gofyniad cyflogaeth, sef 30 hectar, disgwylid cyfradd cyflawni cyfartalog o ddau hectar y flwyddyn. Mae canlyniadau AMB 2021 yn dangos, ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu (17 Ebrill 2018) hyd at 31 Mawrth 2021, y caniatawyd cyfanswm o 6.11 hectar o dir cyflogaeth ar y safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd. Er ei bod yn ymddangos bod y 6.11 hectar yn dangos bod y CDLl yn cyflawni, dengys dadansoddiad manwl mai nifer gymharol fach (chwech) o geisiadau cynllunio mawr y mae'r 6.11 hectar yn eu cynnwys.

8.2.4 Yn rhan o'r broses adolygu, bydd y dystiolaeth sy'n ymwneud â datblygu economaidd yn cael ei diweddaru; bydd hyn yn cynnwys cynnal Adolygiad o Dir Cyflogaeth, ac mae astudiaeth o safleoedd cyflogaeth strategol rhanbarthol Canolbarth Cymru eisoes ar y gweill. Bydd y dystiolaeth hon ynghyd â chysoni'r CDLl Newydd â Chynlluniau a Strategaethau eraill a'r Strategaethau Twf a Gofodol diwygiedig yn pennu'r gofyniad cyflogaeth ar gyfer Cyfnod y Cynllun newydd.

8.2.5 Yn rhan o'r broses adolygu, bydd angen ystyried unrhyw ddyraniadau cyflogaeth nas cyflawnwyd; gallai hyn arwain at beidio â dwyn dyraniadau presennol ymlaen i'r CDLl Newydd. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen dyrannu safleoedd newydd sy'n gyflawnadwy ac yn ymarferol i fodloni'r Gofyniad Cyflogaeth diwygiedig yn ystod cyfnod Cynllun y CDLl Newydd (2022-2037). Ceir crynodeb o statws pob Dyraniad Safleoedd Cyflogaeth, Ymrwymiad Cyflogaeth a Dyraniad Defnydd Cymysg a nodir gan y CDLl presennol yn **Atodiad C**.

### Safleoedd Cyflogaeth a Ddiogelir

(Polisïau DM16, E4)

8.2.6 Mae'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu economaidd yn cynnwys diogelu safleoedd cyflogaeth presennol. Nodir y safleoedd hyn yn ofodol ar y map cynigion ac maent yn diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol, gan gyfyngu ar ddatblygiadau newydd ar gyfer defnydd cyflogaeth.

8.2.7 Canfu AMB 2021, AMB 2020 a'r Adolygiad Monitro fod y polisïau sy'n ymwneud â diogelu cyflogaeth yn cael eu defnyddio'n briodol. Bydd yr Adolygiad yn ystyried a yw'r rhestr o safleoedd a ddiogelir yn y CDLl yn gyfredol ac yn berthnasol ac a yw'r polisïau'n cydymffurfio â pholisïau cenedlaethol a thystiolaeth wedi'i diweddaru. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r berthynas rhwng polisïau DM16 ac E4 y CDLl a sut mae'r polisïau hyn yn ymwneud â gweddill y fframwaith polisi datblygu economaidd (e.e. o ran defnyddiau atodol).

### Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Cyflogaeth nas Dyrannwyd

(Polisi E2)

8.2.8 Mae AMB 2021 yn dangos bod mwyafrif y ceisiadau cynllunio (14 allan o 18 yn 2020-2021) a ganiateir ar gyfer defnydd cyflogaeth ar safleoedd nas dyrannwyd. Mae hyn yn cynnwys gweddnewid / newid defnydd adeiladau, estyniadau, ailddatblygiadau ac adeiladau newydd.

8.2.9 Canfu'r AMBau a'r Adolygiad Monitro nad oedd pob cais a ganiatawyd yn cydymffurfio â Pholisi E2 y CDLl, ac mewn rhai achosion, eu bod yn cydymffurfio â Pholisi E7 y CDLl neu bolisïau Cynllunio Cenedlaethol Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 neu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 yn hytrach na hynny. Yn ystod yr adolygiad, mae angen ystyried sut mae Polisi E2 y CDLl yn ymwneud â gweddill y fframwaith polisi datblygu economaidd, gan gynnwys polisi cenedlaethol ar gyfer sicrhau cysondeb ac eglurder.

### Polisïau Datblygu Economaidd Penodol

(Polisïau E5, E6, ac E7)

8.2.10 Mae'r fframwaith polisi datblygu economaidd yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud ag Arallgyfeirio ar Ffermydd (E6) a Gweithio Gartref (E7). Bydd yr holl bolisïau hyn yn cael eu hailystyried o'u cymharu â Cymru'r Dyfodol, egwyddorion creu lleoedd ac unrhyw newidiadau cyd-destunol eraill sydd wedi digwydd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2018. Rhoddir ystyriaeth hefyd i wella eglurder geiriad y polisïau hyn, yn enwedig o ran arallgyfeirio ym maes amaethyddiaeth ochr yn ochr ag arallgyfeirio oddi wrth amaethyddiaeth ym Mholisi E6 y CDLl. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried, lle y bo'n briodol, sefydlu polisi priodol yn y CDLl Newydd sy'n ymwneud â datblygiadau amaethyddol dwys, fel y nodwyd yn llythyr Llywodraeth Cymru i Brif Swyddogion Cynllunio ym mis Mehefin 2019. Bydd yr angen i atal diraddio pridd o fentrau ffermio newydd sydd angen caniatâd cynllunio yn cael ei ystyried fel rhan o broses y CDLl Newydd.

8.2.11 Polisi E5 y CDLl – Bydd Parc Iechyd Bronllys yn cael ei ailystyried hefyd i benderfynu a yw polisi o'r fath yn dal yn briodol ar gyfer y CDLl Newydd neu a oes angen dull amgen.

8.2.13 Dywed Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021): "Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol nodi rôl yr economi sylfaenol, ystyried sut y gall y system cynllunio defnydd tir ei chefnogi a datblygu polisïau priodol. Ymhlith y rhannau o'r economi sylfaenol y gall y system gynllunio eu cefnogi mae mentrau adfywio, iechyd a gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, twristiaeth a chamau i annog mwy o fanteision cymunedol yn sgil datblygiadau newydd." Rhagwelir felly y bydd y CDLl Newydd yn cynnwys polisïau datblygu economaidd sy'n ymwneud â'r economi sylfaenol.

8.2.14 Yn enwedig ar gyfer y prosiectau hynny sydd â goblygiadau o ran defnydd tir, mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn newid cyd-destunol arall y bydd angen ei ystyried wrth adolygu'r polisïau datblygu economaidd.

## 8.3 Cludiant

(Polisïau T1, T2, T3, DM13 maen prawf 10)

8.3.1 Mae Polisi T1 y CDLl – Seilwaith Teithio, Traffig a Chludiant yn ceisio galluogi gwelliannau i'r seilwaith cludiant a thraffig, er mwyn sicrhau system effeithlon, effeithiol ac integredig sy'n ystyried diogelwch pob defnyddiwr. Cefnogir y polisi hwn gan Bolisi DM13 y CDLl, maen prawf 10, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynllunio a lleoli datblygiad â'r nod o leihau'r effeithiau ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Mae'r ddau bolisi wedi bod yn effeithiol, fodd bynnag, rhagwelir y bydd y polisïau'n cael eu hailystyried i adlewyrchu'r pwyslais yn Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021) ynghylch teithio cynaliadwy a'r hierarchaeth drafnidiaeth. Dywed Polisi Cynllunio Cymru mai "ystyriaeth bwysig fydd cadw'r angen i deithio mor fach â phosib, lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a chael pobl i gerdded a beicio mwy a defnyddio mwy ar gludiant cyhoeddus", mae angen adlewyrchu hyn yn y CDLl Newydd.

8.3.2 Polisi T2 y CDLl – Diogelu Seilwaith Trafnidiaeth Segur, ni ddefnyddiwyd y polisi CDLl hwn yn ystod y cyfnodau monitro (17Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2021). Dywed Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 5.3.8: "Ar y cyd â Trafnidiaeth Cymru a Network Rail, dylid diogelu rheilffyrdd segur neu seidins segur rhag datblygiad allai gael effaith andwyol ar eu defnyddio fel rheilffyrdd yn y dyfodol. Dylai unrhyw gais cynllunio neu bolisi cynllun datblygu arfaethedig yn y cyffiniau neu sy'n cael effaith uniongyrchol ar hen reilffordd ystyried yr effaith ar y potensial i'w defnyddio fel rheilffyrdd yn y dyfodol. Fel mesur dros dro, gallai fod yn briodol defnyddio rheilffyrdd segur fel coridorau gofod agored, er enghraifft ar gyfer cerdded a beicio".

8.3.3 Bydd gwaith ymchwil yn cael ei wneud i nodi'r rheilffyrdd segur a'r seidins segur neu nas defnyddir a seilwaith trafnidiaeth arall, yn ardal y Cynllun, fel rhan o'r broses adolygu. Bydd yr ymchwil hon yn galluogi dealltwriaeth o'r dull polisi i'w ddatblygu a gallai arwain at nodi cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd.

8.3.4 Polisi T3 y CDLl – Ffordd Osgoi'r Drenewydd, cafodd y polisi hwn ei gynnwys yn y CDLl i sicrhau bod llwybr arfaethedig Ffordd Osgoi'r Drenewydd yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn. Gan fod Ffordd Osgoi'r Drenewydd bellach yn gwbl weithredol, nid oes angen y polisi mwyach ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn y CDLl Newydd.

8.3.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlau gynnwys strategaeth gynllunio a chludiant integredig. Bydd angen iddo nodi sut y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud y canlynol:

- integreiddio a chydgysylltu trafnidiaeth gynaliadwy a chynllunio defnydd tir;
- hwyluso a hybu hygyrchedd i bawb;
- lleihau'r angen i deithio;
- lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat;
- blaenoriaethu a chefnogi cerdded, beicio, a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus;
- annog mwy o ddefnydd ar Gerbydau Allyriadau Isel Iawn;
- lleihau llygredd aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth; a
- helpu i ddarparu seilwaith trafnidiaeth a'r gwelliannau a'r datblygiadau angenrheidiol i drafnidiaeth gynaliadwy.

8.3.6 Rhagwelir felly y bydd y CDLl Newydd yn cynnwys polisi strategol sy'n ymwneud â chynllunio a chludiant integredig ac y bydd y fframwaith polisi'n cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar deithio cynaliadwy.

## 8.4 Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi

(Polisïau R1, R2, R3, R4)

8.4.1 Mae'r fframwaith polisi manwerthu a chanol trefi yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â datblygiadau manwerthu newydd, datblygiadau mewn canol trefi, a siopau a gwasanaethau cymdogaeth a phentref, ynghyd â dyrannu safle manwerthu.

8.4.2 Yn rhan o'r broses o adolygu'r CDLl, bydd y sylfaen dystiolaeth o ran manwerthu yn cael ei diweddaru, a bydd hyn yn cynnwys diweddaru'r Astudiaeth Fanwerthu. Rhagwelir y bydd Polisi R1 y CDLl, sy'n diffinio hierarchaeth fanwerthu ardal y Cynllun, yn cael ei ddiwygio yn y CDLl diwygiedig er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r Astudiaeth Fanwerthu wedi'i diweddaru a'r Strategaeth Ofodol ddiwygiedig.

8.4.3 Mae Polisi R2 y CDLl yn nodi hen safle Ffowndri Kaye yn Llanandras fel yr unig ddyraniad manwerthu ar gyfer y CDLl. Nid yw'r safle wedi symud ymlaen yn ôl y bwriad, fel y nodir yn AMB 2021. Ceir crynodeb o statws CDLl y Dyraniad Manwerthu hwn yn **Atodiad C**. Bydd y lleoliad a'r angen am unrhyw ddyraniadau manwerthu yn cael eu hadolygu drwy'r Astudiaeth Fanwerthu ddiweddaredig a fydd yn llywio'r CDLl Newydd.

8.4.4 Mae Polisi R3 y CDLl yn ymwneud â datblygu mewn ardaloedd canol trefi. Noda AMB 2021 faterion â'r Polisi hwn o ran rhai o'r Prif Ffryntiadau Siopa sydd â llai na'r ganran darged sy'n benodol i'r polisi, sef cael o leiaf 75% o'r unedau yng ngorchmynion dosbarth defnydd A1 ac A3. Roedd hyn yn berthnasol i bedair o'r deg tref sydd â Phrif Ffryntiadau Siopa, ac mae dwy dref arall sydd â chymysgedd cyfredol o ddefnyddiau sy'n agos iawn at y trothwy sylfaenol. Bydd y broses adolygu yn manteisio ar y cyfle i adolygu'r polisi hwn a'r Prif Ffryntiadau Siopa a'r Ffryntiadau Siopa Eilaidd.

8.4.5 Rhoddir ystyriaeth i'r modd y mae Polisi R3 y CDLl yn ymwneud â'r Strategaeth Ofodol, gweddill y fframwaith polisi manwerthu a chanol trefi, a chanllawiau cenedlaethol. Rhoddir sylw arbennig hefyd i raglenni adfer canol trefi yn sgil COVID-19 ac effaith siopa ar-lein a pharciau manwerthu y tu allan i'r dref ar y stryd fawr.

8.4.6 Mae Polisi R4 y CDLl yn ymwneud â darparu siopau a gwasanaethau newydd mewn cymdogaethau a phentrefi. Bydd y polisi hwn yn cael ei ailystyried er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwasanaethau newydd, a'i fod yn gyfredol ac yn berthnasol i greu lleoedd cynaliadwy yn unol â'r strategaethau Twf a Gofodol diwygiedig. Bydd cysylltiadau â pholisïau C1 (Cyfleusterau Cymunedol a Chyfleusterau Hamdden Dan Do) a DM11 (Diogelu Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol) y CDLl yn cael eu hailystyried hefyd er mwyn sicrhau dull cydlynol o gefnogi cymunedau cynaliadwy.

## 8.5 Cynllunio ar gyfer Twristiaeth

(Polisïau TD1, TD2, TD3)

8.5.1 Mae'r fframwaith polisi cynllunio ar gyfer twristiaeth yn cynnwys polisïau ar gyfer datblygiadau twristiaeth newydd, defnyddiau eraill ar gyfer datblygiadau twristiaeth presennol a pholisi sy'n benodol i'r safle ar gyfer Camlas Trefaldwyn.

8.5.2 Polisi TD1 y CDLl - Mae Datblygu Twristiaeth yn bolisi galluogi. Rhwng adroddiadau monitro: AMB 2021, AMB 2020 a'r Adolygiad Monitro, canfuwyd bod 205 o geisiadau cynllunio wedi eu cymeradwyo a arweiniodd at unedau llety twristiaeth newydd, ers

mabwysiadu'r CDLl. Roedd hyn yn cyfateb i 798 o unedau ar wahân, a oedd yn cynnwys gosodiadau gwyliau, carafanau statig, podiau glampio, cytiau bugeiliaid, tai coed a mathau tebyg eraill o lety gwyliau.

8.5.3 Cydnabyddir y bydd y twf yn y sector twristiaeth wedi dod â manteision economaidd i ardal y Cynllun. Fodd bynnag, ailystyrir geiriad y Polisi hwn (TD1) a'r Polisi Tirwedd (DM4) er mwyn sicrhau nad yw'r twf yn y sector twristiaeth yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol cronnol andwyol.

8.5.4 Polisi TD2 y CDLl - Defnyddiau Eraill ar gyfer Datblygiadau Twristiaeth Presennol. Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol; fodd bynnag, byddai'n elwa o egluro'r diffiniad o ardal wledig yn unol â'r Strategaeth Ofodol ddiwygiedig.

8.5.6 Polisi TD3 y CDLl – Mae'r polisi hwn yn ymwneud â Chamlas Trefaldwyn, gyda phwyslais penodol ar ei hadfer a'i dynodiad yn Ardal Cadwraeth Arbennig, yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu i ystyried y cyllid a sicrheir trwy Fargen Twf Canolbarth Cymru a Cronfa Codi'r Gwastad y DU. Rhoddir ystyriaeth ychwanegol yn y CDLl Newydd hefyd ynghylch a ddylai polisi sy'n ymwneud â Chamlas Trefaldwyn fod yn rhan o'r fframwaith polisi twristiaeth neu a fyddai polisi ardal yn gweithio'n well. Byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Camlas Trefaldwyn yn cwmpasu sawl maes pwnc, gan gynnwys twristiaeth, bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd, Teithio Llesol a datblygu economaidd a byddai'n cysoni'r polisi ag egwyddorion creu lleoedd yng nghyd-destun y dynodiad Ardal Cadwraeth Arbennig.

8.5.7 Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi am sut i fynd i'r afael â nodweddion twristiaeth a threftadaeth pwysig eraill fel rhan o'r broses CDLl Newydd, megis y dreftadaeth ddiwydiannol sy'n gysylltiedig â Chamlas Abertawe yn ardaloedd Ystradgynlais ac Abercraf a amlygwyd gan Gymdeithas Camlas Abertawe.

## 8.6 Gwastraff

(Polisïau DM15, W1, W2)

8.6.1 Mae'r fframwaith polisi gwastraff yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud ag ymdrin â gwastraff mewn datblygiadau newydd (DM15), lleoliad datblygiadau gwastraff (W1) a chynigion rheoli gwastraff (W2).

8.6.2 Mae'r fframwaith polisi yn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol oherwydd y polisïau a ddrafftiwyd ar ôl cyhoeddiad Strategaeth Llywodraeth Cymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff - strategaeth wastraff Cymru" (2010) ac mae'n ystyried yr 'hierarchaeth wastraff'. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Mwy Nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti" a ddilynwyd gan "Asesiad strategol ar gyfer yr angen am ynni o gapasiti gwastraff yng Nghymru yn y dyfodol". Caiff y polisïau gwastraff eu hailystyried i adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar leihau gwastraff a'r economi gylchol, Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11), blaenoriaethau a strategaethau lleol a rhanbarthol ac unrhyw dystiolaeth wedi'i diweddaru.

8.6.3 Nodwyd nad yw Polisi DM15 y CDLl, sy'n ymwneud â rheoli gwastraff mewn datblygiadau, wedi ei weithredu mor eang ag y bwriadwyd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Rheoli Datblygu yn yr adolygiad o'r polisi hwn i fynd i'r afael â'r mater.

## 8.7 Ynni Cynaliadwy

(Polisïau RE1, DM13 meini prawf 13 a 14)

8.7.1 Mae Polisi RE1 y CDLl – Ynni Adnewyddadwy, yn darparu'r sail ar gyfer elfen ynni adnewyddadwy y fframwaith polisi Ynni Cynaliadwy, ochr yn ochr â pholisi DM13 y CDLl, maen prawf 13, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos defnydd cynaliadwy ac effeithlon o adnoddau yn eu dyluniad. Mae Polisi DM13 y CDLl, maen prawf 14, yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymchwiliadau i ddichonoldeb rhwydweithiau gwresogi ardal pan fo dwysedd y galw am wres ar gyfer cynigion datblygu yn fwy na 3MW/km$^2$.

8.7.2 Mae Polisi RE1 y CDLl yn cynnwys y meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer cynigion ynni adnewyddadwy ac mae'n nodi ugain Ardal Chwilio Lleol ar gyfer cynigion ffotofoltäig solar sydd rhwng canolig a mwy o ran maint. Canfu'r AMBau a'r Adolygiad Monitro, ar gyfer y cyfnod o Fabwysiad y CDLl hyd at 31 Mawrth 2021, na chaniatawyd unrhyw geisiadau am gynigion ffotofoltäig solar yn unrhyw un o'r Ardaloedd Chwilio Lleol yn ystod y cyfnod.

8.7.3 Mae Polisi RE1 y CDLl hefyd yn cynnwys y cyfraniadau trydan a thermol ynni adnewyddadwy y gallai ardal y Cynllun eu cyflawni, tuag at gyflawni targedau ynni cenedlaethol o amrywiaeth o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Canfu'r AMBau a'r Adolygiad Monitro, ar gyfer y cyfnod o Fabwysiad y CDLl hyd at 31 Mawrth 2021, fod y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy yn cyfateb i:

- Trydan: 36.7311MW
- Thermol: 20.069MW

8.7.4 Roedd hyn yn golygu bod y cyfraniad yn y CDLl o ran y capasiti thermol ychwanegol a osodwyd wedi ei gyflawni a bod y CDLl ar y trywydd iawn o ran cyflawni'r cyfraniad capasiti ychwanegol a osodwyd mewn cysylltiad â chynhyrchu trydan.

8.7.5 Roedd y sylfaen dystiolaeth a oedd yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau'r CDLl yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy (diweddarwyd yn 2017) a darparu Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd. Bydd angen edrych eto ar y fframwaith polisi, y sylfaen dystiolaeth a'r dogfennau ar gyfer y pwnc hwn a'u hailystyried yng ngoleuni newidiadau i bolisïau cenedlaethol a threfnau cydsynio a newidiadau mewn technolegau ynni adnewyddadwy.

8.7.6 Mae Gweinidogion Cymru bellach yn ymdrin â phob cynnig ar gyfer prosiectau cynhyrchu ar y tir ac iddynt gapasiti rhwng 10MW a 350MW, a dim ar y cynigion sydd â chapasiti gosodedig o dan 10MW y mae Awdurdodau Lleol yn penderfynu.

8.7.7 Mae Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021) yn nodi fframwaith polisi ar gyfer penderfynu ar gynigion ynni adnewyddadwy; mae hyn yn cynnwys dynodi 'Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt'. Yn yr 'Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt', mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr a'r newid cysylltiedig yn y dirwedd, yn amodol ar y meini prawf ym mholisi 18 Cymru'r Dyfodol. Mae tair (ardaloedd 3, 4 a 5) o'r deg Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw yn rhan o ardal CDLl Powys ac mae Ardal arall a Aseswyd Ymlaen Llaw (ardal 9) yn croestorri'r ffin i'r De-orllewin o ardal y Cynllun.

8.7.8 Polisïau strategol, gofodol a manwl sy'n seiliedig ar feini prawf yw Polisïau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol y mae angen eu hystyried gyda'i gilydd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ynghyd â chyngor manwl ar asesu manteision ac effeithiau yn Polisi Cynllunio Cymru. Y tu allan i'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw, ceir fframwaith polisi cadarnhaol

sy'n ddarostyngedig i Bolisi 18. Dirymwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 a lywiodd CDLl Powys yn sgil cyhoeddiad Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021).

8.7.9 Mae Polisi 16 Cymru'r Dyfodol yn nodi'r Fframwaith Polisi ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal, sy'n cynnwys nodi Meysydd Blaenoriaeth. Mae cynnwys y polisi ar lefel genedlaethol yn golygu nad yw maen prawf 14 Polisi DM13 y CDLl yn debygol o gael ei gynnwys yn y CDLl Newydd.

8.7.10 Bydd angen i'r fframwaith polisi Ynni Cynaliadwy yn y CDLl Newydd adlewyrchu'r newidiadau a nodir uchod. Ystyrir cynnwys polisïau sy'n ymwneud â:

- lleihau'r galw am ynni,
- hybu'r defnydd o effeithlonrwydd ynni,
- darparu meini prawf er mwyn penderfynu ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach (Polisi Cynllunio Cymru 5.9.15),
- polisïau lleoliadol ar gyfer Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o dan 10MW (Polisi Cynllunio Cymru 5.9.14).

8.7.11 Ystyrir hefyd a ddylid cynnwys polisi cynllun datblygu sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am ddatblygiadau mawr gael eu hategu gan Adroddiad Ynni (yn unol â Rhifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 5.8.4).

## 8.8 Mwynau

(Polisïau DM8, DM9, M1, M2, M3, M4, M5)

8.8.1 Mae'r fframwaith polisi ar gyfer mwynau yn ymwneud â diogelu Safleoedd Mwynau Presennol (M1), caniatáu Safleoedd Mwynau Newydd (M2), Pyllau Benthyg (M4), polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer Cynigion Mwynau (M4) a pholisi ar gyfer Adfer ac Ôl-ofal (M5) safleoedd mwynau. Mae'r CDLl hefyd yn cynnwys polisi Rheoli Datblygu ar gyfer Diogelu Mwynau (DM8) sy'n ymwneud ag adnoddau mwynau agreg crai o bwysigrwydd Cenedlaethol a Rhanbarthol a nodir ar Map Diogelu Agregau Cymru (Tachwedd 2012). Mae'r CDLl hefyd yn cynnwys Polisi Rheoli Datblygu DM9 (Gweithfeydd Mwynau Presennol) sy'n ceisio diogelu gweithfeydd sydd eisoes yn bodoli.

8.8.2 Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu'r polisïau hyn yn cynnwys y Papur Pwnc Mwynau. Nodir canllawiau ar gloddio mwynau a datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru yn y Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddaru ac fe'i hategir gan Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN).

8.8.3 O dan ddarpariaethau Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1, rhennir Cymru'n ddwy ardal Gweithgor Agregau Rhanbarthol (gogledd a de). Cynrychiolir Powys ar Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru, sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Technegol Rhanbarthol sy'n nodi sut y bydd y galw am agregau yn cael ei fodloni yn y rhanbarth am gyfnod o 15 mlynedd. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn asesu'r galw a'r cyflenwad o agregau yn y rhanbarth ac yn ystyried gallu amgylcheddol pob Awdurdod Cynllunio Mwynau i wneud cyfraniad tuag at ateb y galw rhanbarthol.

8.8.4 Cyhoeddodd Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru Ddatganiad Technegol Rhanbarthol wedi'i ddiweddaru (2[il] Adolygiad) yn 2020, ac mae'r Cyngor wedi ei gymeradwyo a'i fabwysiadu. Bydd angen ystyried goblygiadau'r datganiad yn llawn yn rhan o'r broses o adolygu'r CDLl. Bydd angen i'r CDLl Newydd barhau i ddangos tystiolaeth bod gan yr Awdurdod y banc tir angenrheidiol o warchodfeydd agregau i ddiwallu'r angen a

nodwyd. Mae'r dystiolaeth a nodir yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adolygiad Monitro ar gyfer y cyfnod o Fabwysiad y CDLl hyd at 31 Mawrth 2021 yn dangos bod gan ardal y Cynllun fanc tir mwy na digonol o agregau creigiau caled i ddiwallu'r angen a nodwyd, ac na fu unrhyw ddosraniad tywod na graean ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Mwynau Powys. Felly, mae'n annhebygol y bydd angen unrhyw ddyraniadau newydd.

8.8.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu asesu, yn unol ag ystyriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, arwyddocâd yr holl fathau o waith mwynau yn eu hardal, gan edrych ar yr angen am fwynau, lle mae'r mwynau hynny, ac ar y broses o gynhyrchu pob math o fwynau ac ar y gwarchodfeydd y mae caniatâd cynllunio wedi ei roi ar eu cyfer. Mae'n hanfodol bod ganddynt gronfa gynhwysfawr a chyfoes o wybodaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o gynllunio'n gynaliadwy ar gyfer cloddio am fwynau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y CDLl Newydd.

8.8.6 Yn dilyn datganiad 'argyfwng hinsawdd' a'r angen i ddatgarboneiddio'r economi, nid yw polisi Llywodraeth Cymru bellach yn cefnogi gwaith glo ar gyfer cynhyrchu ynni. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn nodi "[na] ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau glo brig, pyllau glo dwfn na gwaredu gwastraff pyllau glo" heblaw mewn amgylchiadau cwbl eithriadol. Nid oes gofyniad bellach i bolisïau CDLl ddiogelu adnoddau glo nac i nodi lle na fyddai gweithrediadau glo yn dderbyniol. Felly, bydd Polisi DM8 y CDLl a'r mapiau cynigion yn cael eu diwygio i ddileu'r cyfeiriad at lo brig.

8.8.7 Polisi DM8 y CDLl – Diogelu Mwynau Mae AMB 2021, AMB 2020 a'r Adolygiad Monitro i gyd wedi canfod problemau gyda gweithrediad y polisi hwn. Gallai hyn arwain at ddiwygio'r Polisi er mwyn gwella eglurder yn y CDLl Newydd.

## 8.9 Cyfleusterau Hamdden Cymunedol a Dan Do

(Polisïau DM11, C1)

8.9.1 Mewn cysylltiad â chyfleusterau hamdden cymunedol a dan do, mae'r fframwaith polisi yn cynnwys dau bolisi ar gyfer cyfleusterau newydd: Polisi DM11 y CDLl – Diogelu Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol Presennol a Pholisi C1 y CDLl – Cyfleusterau Cymunedol a Chyfleusterau Hamdden Dan Do.

8.9.2 Mae Polisi DM11 y CDLl yn ceisio diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol oni ellir cyfiawnhau defnydd arall yn unol â'r polisi. Canfu AMB 2021 fod y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 a oedd yn cynnwys colli cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol wedi eu hystyried yn ofalus o'u cymharu â'r meini prawf a nodir ym Mholisi DM11 y CDLl, ochr yn ochr ag unrhyw bolisïau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol eraill. Fodd bynnag, canfu hefyd fod rhywfaint o anghysondeb yn y ffordd y cymhwyswyd y polisi, yn enwedig mewn cysylltiad ag ailddatblygu safleoedd, ac ystyriwyd nad oedd y polisi'n cael ei weithredu'n llwyr yn ôl y bwriadwyd. Argymhella AMB 2021 hyfforddiant i swyddogion er mwyn mynd i'r afael â'r mater, fodd bynnag, ystyrir eglurder geiriad y Polisi hefyd.

8.9.3 Polisi C1 y CDLl - ystyrir ei fod yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, ystyrir ei berthynas â Pholisi DM11.

8.9.4 Ystyrir darparu rhestr gynhwysfawr o wasanaethau cymunedol hefyd yn y CDLl Newydd.

## 8.10 Gweithrediadau Milwrol

(Polisïau MD1, SP7 maen prawf 5)

8.10.1 Mae Ardal Hyfforddi Pontsenni, a leolir gydag ardal CDLl Powys, yn safle o bwysigrwydd milwrol strategol i'r DU. Trwy Bolisi SP7 y CDLl, maen prawf 5, mae'r CDLl yn ymwneud â'i ddiogelu a'i effeithiolrwydd gweithredol. Mae Polisi MD1 y CDLl yn cefnogi cynigion datblygu a gyflwynir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn pan mae'n cynnal defnydd gweithredol o gyfleuster sydd eisoes yn bodoli.

8.10.2 Canfuwyd na ddefnyddiwyd Polisi MD1 y CDLl yn ystod y cyfnod rhwng Mabwysiad y CDLl a 31 Mawrth 2021. Ystyrir a ddylid cynnwys Polisi MD1 yn y CDLl Newydd ar ei ffurf bresennol ac a oes angen unrhyw newidiadau.

## 8.11 Diogelu'r Amgylchedd

### Yr Amgylchedd Naturiol

(Polisïau SP7, DM2)

8.11.1 Mae Polisi SP7 y CDLl yn cynnwys diogelu safleoedd a ddynodir ar lefel rhyngwladol a chenedlaethol, ac mae Polisi DM2 y CDLl yn ymwneud â diogelu, rheoli'n gadarnhaol a gwella bioamrywiaeth a buddiannau geoamrywiaeth.

8.11.2 Bydd angen diweddaru polisïau SP7 a DM2 i adlewyrchu'r newidiadau sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ("Brexit") drwy'r hyn y mae 'Safleoedd Ewropeaidd' bellach yn 'Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol'. Mae polisi Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021) a Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn cynnwys cryfhau rôl a phwysigrwydd ystyriaethau bioamrywiaeth yn y system gynllunio, gan ddilyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a roes well ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau (dyletswydd Adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus gan ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu holl swyddogaethau. Hefyd, mae'r pwyslais ar greu lleoedd yn Polisi Cynllunio Cymru yn debygol o fod yn berthnasol o ran cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

8.11.3 Mae Cymru'r Dyfodol a Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn am gynlluniau datblygu i gynnal Asesiad Seilwaith Gwyrdd ac am gynnwys polisïau i'w ddiogelu ac i nodi cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar seilwaith gwyrdd presennol a seilwaith gwyrdd posibl. Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried sut i ymgorffori polisïau Seilwaith Gwyrdd sy'n ymwneud â meysydd pwnc bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn ogystal â mannau agored, llifogydd, tirwedd a chreu lleoedd.

8.11.4 Cwyd AMB 2021 bryderon nad yw'r polisi mewn cysylltiad â diogelu asedau geoamrywiaeth lleol yn cael ei weithredu yn ôl y bwriad. Yn y lle cyntaf, argymhellwyd hyfforddiant Swyddogion, ond ystyrir a fyddai'r polisi'n elwa o eiriad diwygiedig er mwyn gwella eglurder.

### Yr Amgylchedd Hanesyddol

(Polisïau SP7, DM13 meini prawf 2 a 3)

8.11.5 Cynhwysir diogelu dynodiadau amgylchedd hanesyddol ym mholisi Strategol SP7, ac mae Polisi DM13 – Dylunio ac Adnoddau yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu gyfrannu tuag at gadw natur unigryw ac ymdeimlad lleol o le yn eu dyluniad. Mae Polisi DM13 y CDLl hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnig datblygu ystyried Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliad.

8.11.6 Ni nodir unrhyw faterion yn AMB 2021, AMB 2020 na'r Adolygiad Monitro mewn cysylltiad ag elfennau amgylchedd hanesyddol polisïau SP7 a DM13. Fodd bynnag, caiff y polisïau eu hailystyried i adlewyrchu unrhyw newidiadau i bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, yn enwedig o ran cynaliadwyedd ac egwyddorion creu lleoedd.

8.11.7 Mynegwyd pryderon nad ystyrir yr amgylchedd hanesyddol yn ddigonol wrth weithredu Polisi H9 y CDLl (Anheddau Newydd), ac ystyrir mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn y CDLl Newydd.

### Llygredd a Llifogydd

(Polisïau DM5, DM6, DM7, DM10, DM14)

8.11.8 Mae'r fframwaith polisi sy'n ymwneud â llygredd a llifogydd yn cynnwys polisïau Rheoli Datblygu sy'n ymwneud â Datblygu a Pherygl o Lifogydd (DM5), Mesurau Atal Llifogydd a Draenio Tir DM6), Awyr Dywyll a Goleuadau Allanol (DM7) Tir Halogedig (DM10) ac Ansawdd Aer (DM14).

8.11.9 Bydd y ddau bolisi CDLl sy'n ymwneud â pherygl o lifogydd a draenio tir (DM5 a DM6) yn cael eu hailystyried i adlewyrchu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (a fydd yn dod i rym ym mis Mehefin 2023) a gweithredu Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3), a ddaeth i rym yng Nghymru ar 7 Ionawr 2019. Mae Atodlen 3 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol penodol ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys mwy nag un annedd neu ardal adeiladu y mae ei harwynebedd yn fwy na 100 metr sgwâr.

8.11.10 Mae'r Polisi Awyr Dywyll a Goleuadau Allanol wedi ei ddefnyddio'n eang wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Fodd bynnag, nodwyd ei fod yn cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn cysylltiad â lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth, yn hytrach nag mewn cysylltiad â chwmpas llawn y polisi, sy'n cynnwys meini prawf yn ymwneud â llygredd golau, gwelededd awyr y nos, amwynder trigolion lleol a diogelwch defnyddwyr priffyrdd, gan gynnwys cerddwyr. Ystyrir sut y gellir mynd i'r afael â hyn yn y CDLl Newydd.

8.11.11 Canfu ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewnol a Rheoli Datblygu fod polisïau Rheoli Datblygu Tir Halogedig ac Ansawdd Aer yn ymarferol effeithiol. Fodd bynnag, gofynnwyd am gynnwys paragraff ychwanegol sy'n ymwneud ag iechyd dynol yn y cyfiawnhad rhesymegol dros y polisi Ansawdd Aer. Wrth adolygu a dwyn ymlaen Polisi DM10, mae'r Awdurdod Glo yn gofyn am ystyriaeth o'r risgiau posibl a achosir gan weithgarwch cloddio glo yn y gorffennol.

### Mannau Agored

(Polisi DM3)

8.11.12 Mae'r CDLl yn cynnwys un polisi (DM3) mewn cysylltiad â mannau agored cyhoeddus. Mae'r polisi yn gofyn am ddiogelu mannau agored cyhoeddus presennol, gan gynnwys gofyniad i ddarparu mannau agored newydd ar geisiadau cynllunio ar gyfer cynigion tai newydd ar gyfer deg annedd neu fwy. Nodir mannau agored cyhoeddus yn yr Asesiad Man Agored (diweddarwyd 2018). Mae'r Asesiad yn nodi diffygion hefyd, felly pan fydd angen darparu mannau agored yn rhan o gynnig datblygu, mae'n darparu'r math sy'n dod â'r budd mwyaf i'r gymuned. Bydd yr Asesiad Man Agored yn cael ei ddiweddaru yn rhan o'r broses o adolygu'r CDLl.

8.11.13 Canfu AMB 2021, AMB 2020 a'r Adolygiad Monitro i gyd broblemau â gweithrediad y polisi hwn, wrth sicrhau mannau agored newydd ar safleoedd sy'n cynnwys deg annedd neu fwy ac wrth ddiogelu mannau agored presennol. Er mwyn gwella ei eglurder yn y CDLl Newydd, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu â mewnbwn gan Swyddogion Rheoli Datblygu. Ystyrir hefyd arddangos ar y map cynigion fannau agored cyhoeddus a ddiogelir trwy bolisi'r CDLl.

8.11.14 Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried sut mae polisïau'r CDLl sy'n ymwneud â diogelu a sicrhau mannau agored cyhoeddus newydd yn integreiddio â pholisïau Seilwaith Gwyrdd sy'n ymwneud â maes pwnc mannau agored yn ogystal â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, llifogydd, tirwedd a chreu lleoedd.

### Tirwedd

(Polisïau SP7, DM4)

8.11.15 Mae Polisi SP7 y CDLl yn cynnwys diogelu nodweddion a rhinweddau gwerthfawr y dirwedd ledled Powys, ac mae Polisi DM4 y CDLl yn darparu polisi cynhwysfawr y dylid asesu pob cynnig yn y Cefn Gwlad Agored o'i gymharu ag ef. LANDMAP, adnodd tirwedd i Gymru gyfan, yw'r brif sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi polisïau'r dirwedd.

8.11.16 Cyfyngir y fframwaith monitro blynyddol i edrych ar ble mae datblygiadau mawr yn gofyn am Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol. Yn hyn o beth, ni nododd AMB 2021, AMB 2020 na'r Adolygiad Monitro unrhyw faterion sylfaenol. Fodd bynnag, gwelwyd mai Swyddogion Cynllunio sy'n penderfynu ar geisiadau sy'n tueddu i ymgymryd â'r gwaith o ystyried cynigion datblygu o'u cymharu â LANDMAP yn hytrach nag asiantau/ymgeiswyr sy'n defnyddio LANDMAP i lywio lleoliad a dyluniad eu cynigion.

8.11.7 Er mwyn gwella effeithiolrwydd y polisi a llywio'r CDLl Newydd, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnal Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol. Y bwriad yw y bydd yr Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol yn darparu'r sail ar gyfer diwygio'r fframwaith polisi tirwedd. Rhoddir ystyriaeth bellach hefyd o ran effaith gronnol twf y sector twristiaeth y cyfeirir ati uchod wrth adolygu polisïau'r dirwedd.

## 8.12 Rhwymedigaethau Cynllunio

(Polisi DM1)

8.12.1 Mae Polisi DM1 y CDLl – Rhwymedigaethau Cynllunio, yn ceisio sicrhau bod lefel briodol o seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig yn cyd-fynd â datblygiadau newydd pan mae eu hangen i wneud y datblygiad yn dderbyniol. Sicrheir

cyfraniadau drwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, fel y nodir yn Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu drwy ddefnyddio amodau cynllunio. Mae rhwymedigaethau cynllunio yn gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr er mwyn gwella ansawdd datblygiad, darparu manteision cymunedol a seilwaith, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a allai godi o ganlyniad i'r datblygiad.

8.12.2 Ystyrir bod Polisi DM1 y CDLl yn gweithio'n effeithiol ac mae cyfraniadau'n cael eu derbyn (yn amodol ar ystyriaethau hyfywedd) i liniaru effeithiau datblygiadau newydd ac i helpu i ddarparu seilwaith angenrheidiol megis hamdden a mannau agored, cyfleusterau cymunedol ac addysgol. Bydd angen ystyried y dull mwyaf effeithiol o ddarparu seilwaith er mwyn cefnogi datblygiadau yn y CDLl Newydd, cynnal gwaith cynllunio seilwaith priodol yn unol â hynny ac ystyried y dystiolaeth hyfywedd ddiweddaraf.

## 8.13 Y Gymraeg

(Polisi DM12)

8.13.1 Mae Polisi DM12 y CDLl – Datblygu yng Nghadarnleoedd y Gymraeg yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yng Nghadarnleoedd dynodedig y Gymraeg yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol gan y datblygiad ar y Gymraeg. Mae'n ofynnol i gynigion datblygu ar safleoedd mawr ar hap gymryd camau i ddiogelu, hybu a gwella'r Gymraeg a'r Diwylliant (drwy ddefnyddio Cynlluniau Gweithredu Iaith) pan fo Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi nodi effeithiau andwyol.

8.13.2 Cynhelir diweddariad i Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg y CDLl yn rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLl yn rhan o'r broses o adolygu'r CDLl. Bydd Polisi DM12 y CDLl yn cael ei ailystyried i adlewyrchu canfyddiadau'r dystiolaeth wedi'i diweddaru.

## 8.14 Canllawiau Cynllunio Atodol

8.14.1 Mae nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi meysydd polisi allweddol y CDLl (y cyfeirir atynt uchod) wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ers mabwysiadu'r CDLl. Y rhain yw:

- Tai Fforddiadwy
- Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth
- Ynni Adnewyddadwy
- Tirwedd
- Rhwymedigaethau Cynllunio
- Ardaloedd Cadwraeth
- Dylunio Preswyl
- Archaeoleg
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Cynllun Lleoedd y Drenewydd a Llanllwchaearn

8.14.2 Cynhelir adolygiad o'r Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig yn rhan o'r broses Adolygu'r CDLl. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn nodi'r angen am CCA newydd i gefnogi polisïau'r CDLl Newydd.

## 8.15 Map Cynigion a Map Cyfyngiadau

8.15.1 Er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i’r cynllun, bydd angen newidiadau ar ffurf a chynnwys Map Cynigion y CDLl yn rhan o’r broses o adolygu’r CDLl. Wrth fynd rhagddo, rhagwelir y bydd y CDLl hefyd yn cynnwys Map Cyfyngiadau rhyngweithiol ar y we.

# 9. Ail-ystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

## 9.1 Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol

9.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o lunio a datblygu CDLl gael ei llywio drwyddi gan broses ailadroddol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC. Bwriedir i hyn sicrhau bod yr holl bolisïau yn y CDLl yn hybu 'datblygu cynaliadwy' drwy integreiddio amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i'r broses o ddatblygu pob agwedd ar y CDLl.

9.1.2 Crynhoir canfyddiadau monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn flynyddol yn yr AMB i roi asesiad o effeithiau gweithredu polisïau y CDLl, a nodir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn **Adran 4** uchod.

9.1.3 Bydd proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn cael ei hintegreiddio i'r broses o baratoi CDLl Newydd a bydd yn dilyn y prif gamau fel y'u nodir yn DPM3, gan ddechrau â'r cam cwmpasu, a fydd yn cynhyrchu Adroddiad Cwmpasu a fydd yn ddarostyngedig i ymgynghoriad statudol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu'r fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol presennol, gan gynnwys fframwaith monitro i ystyried yr holl newidiadau cyd-destunol ehangach o ran polisïau a chanllawiau cenedlaethol, newidiadau a diweddariadau i wybodaeth sylfaenol a dulliau a gwybodaeth newydd eraill.

9.1.4 Bydd angen ystyried defnyddio dull asesu integredig hefyd. Byddai hyn yn integreiddio elfennau statudol ac allweddol, megis gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), y Ddeddf Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Deddf yr Amgylchedd (Adran 6) (pan fo hynny'n berthnasol) i un Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig.

## 9.2 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

9.2.1 Roedd CDLl mabwysiedig Powys yn ddarostyngedig i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn asesu a fyddai ei weithredu yn cael unrhyw effeithiau ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig). Roedd hyn yn cynnwys proses sgrinio helaeth yn ymwneud â holl bolisïau a chynigion y CDLl ac asesiad manwl o effeithiau tebygol.

9.2.2 Yn dilyn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, nid yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig nac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y DU bellach yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd. Crëwyd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn y DU, sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Nid yw safleoedd Ramsar (a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol) yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol ac nid ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Cynefinoedd, fodd

bynnag, cânt eu trin yn yr un modd ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y system gynllunio.

9.2.3 Unwaith eto, bydd angen i'r CDLl Newydd fod yn ddarostyngedig i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, a bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i broses sgrinio a methodoleg yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael eu hadolygu a'u hailystyried a'u cymhwyso wrth ddatblygu cynigion CDLl mewn proses ailadroddol, i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol a bod unrhyw faterion yn cael sylw llawn.

# 10. Cyfleoedd i Weithio yn Gydweithredol

10.0.1 Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r pum ffordd o weithio, sy'n cynnwys ystyried cydweithredu. Yn unol â chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried pob cyfle i gydweithio ac i gydweithredu wrth baratoi cynlluniau a'r sylfaen dystiolaeth, neu drwy drefniadau cydweithio. Mae'r canllawiau hyn yn egluro y bydd hyn yn enwedig o berthnasol i CDLlau sydd ar amserlenni paratoi tebyg a'r rhai sydd â chysylltiadau daearyddol/swyddogaethol cryf.

10.0.2 Mae canllawiau cenedlaethol yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol archwilio ac egluro'r cyfleoedd i baratoi CDLlau ar y Cyd/CDLlau Cryno ar y Cyd gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos ac i gynyddu gwaith trawsffiniol. Mae'r adran hon yn edrych ar y cyfleoedd i baratoi'r CDLl Newydd ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill, ffyrdd eraill o weithio yn gydweithredol, a chyfleoedd i weithio yn y dyfodol o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, a ddilynir gan CDLlau Cryno.

## 10.1 CDLlau ar y Cyd

10.1.1 Mae ardal CDLl Powys yn rhannu ei ffin weinyddol ag wyth Awdurdod Cynllunio Lleol arall yng Nghymru. Mae **Tabl 8** yn crynhoi sefyllfa bresennol y CDLl ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos.

10.1.2 Mae'r wybodaeth hon yn dangos bod mwyafrif yr Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos ar wahanol gamau ym mhroses y CDLl. Mae CDLl Awdurdod Cynllunio Lleol Wrecsam bron â chael ei fabwysiadu, a mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei CDLl diwygiedig yn 2019. Ni ddisgwylir i'r naill na'r llall fod ar y cam adolygu am beth amser. Yn achos Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin ac Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Ddinbych, roedd y ddau wedi cyrraedd cam adneuo eu CDLlau Newydd, fodd bynnag, mae cynnydd wedi ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19.

10.1.3 Mae Awdurdod Cynllunio Lleol Castell-nedd Port Talbot eisoes wedi adolygu ei CDLl yn 2020 ac mae bellach yng ngham Cytundeb Cyflawni y CDLl Newydd. Mabwysiadwyd CDLl Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd (a gynhaliwyd ar y cyd ag Ynys Môn) ym mis Gorffennaf 2017 a deellir ei fod yng ngham adolygu'r CDLl. Er y gallai'r cynlluniau hyn fod yn gweithredu ar amserlen debyg i CDLl Powys, mae'r cysylltiadau daearyddol a swyddogaethol â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn wedi eu cyfyngu i ardaloedd lleol yn eithafion de-orllewin (ardal Ystradgynlais) a gogledd-orllewin (i'r gogledd o Fachynlleth) ardal CDLl Powys, ac mae'r rhan fwyaf o ffin ogledd-orllewinol ardal y cynllun yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri. Felly, nid ystyrir ei bod yn briodol gwneud cynnydd â CDLl ar y Cyd ar lefel y cynllun â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried cydweithio â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn ar unrhyw faterion trawsffiniol neu dystiolaeth briodol yn yr ardaloedd hyn.

10.1.4 Yn rhanbarth Canolbarth Cymru, roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Cynllunio Lleol Ceredigion wedi cyrraedd cam strategaeth dewisol eu proses CDLl Newydd. Fodd bynnag, yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid, gan gynnwys pandemig COVID-19 ac effaith ffosffadau mewn crynoadau Ardal Cadwraeth

Arbennig, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi gohirio'r broses CDLl Newydd dros dro ac mae Ceredigion wedi atal yr amserlen ar gyfer ei CDLl Newydd.

10.1.5 Dylid nodi nad yw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â dyddiad gorffen CDLlau yn berthnasol i gynlluniau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog nac Awdurdod Cynllunio Lleol Ceredigion, ond mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i CDLl Powys. Felly, yn ôl y sefyllfa bresennol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd CDLl Powys yn peidio â bod yn gynllun datblygu ar gyfer ardal y cynllun ar 31 Mawrth 2026. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i wneud cynnydd â'r CDLl Newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys, er mwyn sicrhau bod cynllun mabwysiedig ar waith cyn i'r CDLl presennol ddod i ben.

10.1.6 O ystyried yr ansicrwydd ynghylch y CDLlau Newydd ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Cynllunio Lleol Ceredigion, ac o gofio dyddiad gorffen CDLl Powys, nid ystyrir ei bod yn briodol paratoi CDLl ar y cyd â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried ffyrdd eraill o gydweithredu â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn, yn rhan o'r broses CDLl Newydd ac wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, fel yr esbonnir yn adran 2.3 isod.

## 10.2 Gweithio yn gydweithredol

10.2.1 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod manteision cydweithredu a chydweithio er mwyn mynd i'r afael â materion trawsffiniol a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn gyson. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cydweithredu ag awdurdodau eraill yn rhan o Grŵp Cynllunio Strategol Canolbarth a De-orllewin Cymru ar dystiolaeth benodol, gan gynnwys y canlynol:

### Asesiad o'r Farchnad Tai Rhanbarthol

10.2.2 Cydweithredodd Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Awdurdodau Tai Lleol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru ar ddiweddaru eu Hasesiadau o'r Farchnad Dai Lleol gyda'r nod o sicrhau dull methodolegol cyson o asesu anghenion tai ledled y rhanbarth. Comisiynwyd Gwasanaethau Ymchwil Barn i gynnal yr asesiad, a gwblhawyd ym mis Hydref 2020, ac mae wedi llunio adroddiadau ar lefel ranbarthol a lleol. Mae'r canlyniadau ar gyfer Powys yn yr adroddiad yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd 2014. Ers hynny, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u diweddaru (yn seiliedig ar 2018), ac mae hefyd yn datblygu methodoleg, model a chanllawiau newydd ar gyfer Asesiadau o'r Farchnad Dai Lleol, y bydd disgwyl i Awdurdodau Cynllunio Lleol eu defnyddio i lywio eu CDLlau.

### Astudiaeth Hyfywedd Rhanbarthol

10.2.3 Comisiynodd rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin Brosiect Hyfywedd Ariannol ar y cyd a gynhaliwyd gan Andrew Burrows o Burrows Hutchinson Ltd. Mae'r comisiwn hwn wedi cynhyrchu Model Hyfywedd Lefel Uchel fel y gellir profi hyfywedd targedau tai fforddiadwy a pholisïau arfaethedig y CDLl, ac fel tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r CDLl. Fe'i defnyddiwyd hefyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i fonitro newidiadau mewn hyfywedd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, yn rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae

Model Hyfywedd Datblygu wedi ei gynhyrchu hefyd y bwriedir ei ddefnyddio ar gam safleoedd ymgeisiol y CDLl Newydd ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â heriau hyfywedd ar y cam ceisiadau cynllunio.

### Astudiaeth Gyflogaeth Ranbarthol

10.2.4 Yn rhan o Fargen Twf Canolbarth Cymru, comisiynwyd astudiaeth o Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth rhanbarthol gan gonsortiwm o BE Group, Hatch a Per Consulting. Mae'r astudiaeth dair rhan hon yn asesu'r angen a'r cyfleoedd ledled Rhanbarth y Canolbarth (Powys, Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), yn nodi safleoedd strategol ac yn ystyried ymyriadau i gefnogi mewnfuddsoddiad, i dyfu mentrau sydd eisoes yn bodoli a sicrhau bod portffolio priodol o safleoedd masnachol i ddiwallu anghenion cyflogaeth, yn ogystal â nodi ymyriadau strategol i oresgyn materion hyfywedd negyddol.

10.2.5. Bydd yr astudiaeth ar y cyd hon yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr economi ranbarthol, a bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud fel y gellir datblygu tystiolaeth i gefnogi'r economi leol ac anghenion cyflogaeth.

### Gweithio yn y dyfodol

10.2.6 Fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol, mae Awdurdod Cynllunio Lleol Powys yn rhan o ranbarth Canolbarth Cymru, sydd hefyd yn cynnwys Awdurdod Cynllunio Lleol Ceredigion a'r rhan o ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gorwedd yn ardal Awdurdod Unedol Powys. Roedd y ddau awdurdod hyn hefyd yn aelodau o ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn disgwyl i'r awdurdodau cynllunio yn rhanbarth Canolbarth Cymru gydweithio i gynllunio ar gyfer materion rhanbarthol ac wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol eisoes yn cefnogi ac yn cyfrannu at gynllunio rhanbarthol yng Ngrŵp Cynllunio Strategol Canolbarth Cymru. Rhagwelir y bydd cyfleoedd eraill i ymgymryd â thystiolaeth benodol ar y cyd ac i sicrhau dull cyson er mwyn helpu i ddatblygu polisïau yn y dyfodol ar lefel ranbarthol. Gellid gwneud rhagor o waith ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill a/neu'n rhanbarthol ar faterion megis ffosffadau a chamau lliniaru posibl.

## 10.3 Cynllun Datblygu Strategol

10.3.1 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cryfhau'r dull a arweinir gan gynllun yng Nghymru drwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (a elwir bellach yn Cymru'r Dyfodol) a Chynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y rheoliadau Cynllun Datblygu Strategol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn dod i rym ym mis Chwefror 2022 ac yn nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Sefydlodd y rheoliadau Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ar gyfer pob rhanbarth hefyd, a fydd yn gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu, bwriedir i Gynlluniau Datblygu Strategol gael eu dilyn gan CDLl Cryno neu CDLl Cryno ar y Cyd a baratoir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.

10.3.2 Mae Cymru'r Dyfodol yn gofyn am Gynlluniau Datblygu Strategol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth a nodir gan Cymru'r Dyfodol, ac mae hyn yn cynnwys rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn disgwyl i awdurdodau lleol a pharciau

cenedlaethol gydweithio'n ffurfiol gan mai dyma'r ffordd orau i ranbarthau ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd strategol y maent yn eu hwynebu ac o ddarparu fframwaith cryf ar gyfer CDLlau.


10.3.3 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r polisïau penodol canlynol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru, ac mae elfennau gofodol strategol i'w gweld yn **Ffigur 6**:

- Mae **Polisi 25** yn nodi Dyffryn Teifi, Aberhonddu a'r Gororau, Calon Cymru, Bro Hafren ac Aberystwyth fel Ardaloedd Twf Rhanbarthol y cefnogir datblygiad a thwf cynaliadwy ynddynt er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol, cyflogaeth a thai rhanbarthol y Canolbarth.
- Mae **Polisi 26** yn cefnogi twf a datblygiad cyfleoedd economaidd presennol a newydd ledled y rhanbarth yn seiliedig ar fentrau gwledig traddodiadol ac ar dechnolegau a sectorau modern, arloesol yn ogystal â rhai sy'n datblygu.
- Mae **Polisi 27** yn cefnogi gwell cysylltiadau trafnidiaeth yn y rhanbarth ac â rhanbarthau eraill a Lloegr, gan gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o gysylltedd rhanbarthol gwell.

10.3.2 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod pwysigrwydd datblygu Cynllun Datblygu Strategol at ddibenion cynllunio rhanbarthol. Fodd bynnag, nid ystyrir bod y Cynllun Datblygu Strategol yn cynnig dewis amgen realistig i ddisodli'r CDLl presennol oherwydd y posibilrwydd na fydd y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu am beth amser a bydd CDLl presennol Powys yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bwriadu parhau â'r broses o baratoi CDLl Newydd er mwyn osgoi'r risg o fod heb bolisi ar ôl i CDLl mabwysiedig Powys ddod i ben, a fyddai'n tanseilio'r egwyddor o system a arweinir gan gynllun ac o wneud penderfyniadau'n lleol.

10.3.3 Yn ystod y broses o baratoi CDLl Newydd, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried yn fanwl oblygiadau'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y CDLl, gan edrych hefyd ar sut y gellir defnyddio tystiolaeth y CDLl i lywio'r Cynllun Datblygu Strategol. Bydd y cwmpas i baratoi CDLl Cryno ar y cyd yn cael ei bennu mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn rhanbarth Canolbarth Cymru, ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y Canolbarth.

## Ffigur 6. Diagram Strategol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru (Cymru'r Dyfodol)




*Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021) Llywodraeth Cymru*

### Tabl 8. Sefyllfa CDLl yr Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos

| Awdurdod Cynllunio Lleol | Dyddiad mabwysiadu'r CDLl | Cyfnod y cynllun | Dyddiad a chasgliad yr Adroddiad Adolygu | Cyfnod Cynllun CDLl2 | Y cynnydd â CDLl2 |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 2013 | 2007-2022 | 2018 Diwygiad Llawn | 2018-2033 | Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir o fis Gorffennaf hyd at fis Awst 2019. Y bwriad oedd ailedrych ar y Strategaeth a Ffefrir a diwygio'r Cytundeb Cyflawni, fodd bynnag, cafodd y gwaith o baratoi'r CDLl Newydd ei ohirio yn 2021 oherwydd effaith pandemig COVID-19 ac effaith ffosffadau ar grynoadau Ardal Cadwraeth Arbennig. |
| Castell-nedd Port Talbot | 2016 | 2011-2026 | 2020 Diwygiad Llawn | 2020-2035 | Daeth yr ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni Drafft ac Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig Drafft i ben ym mis Medi 2021. |
| Sir Gaerfyrddin | 2014 | 2006-2021 | 2018 Diwygiad Llawn | 2018-2033 | Daeth yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo i ben ym mis Hydref 2020. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar Gytundeb Cyflawni Diwygiedig ym mis Tachwedd 2020. |
| Ceredigion | 2013 | 2007-2022 | 2017 Diwygiad Llawn | 2018-2033 | Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng mis Mehefin a mis Medi 2019. Gohiriwyd y broses CDLl Newydd yn 2021 oherwydd pandemig COVID-19 ac effaith ffosffadau ar grynoadau Ardal Cadwraeth Arbennig fel y gellir casglu tystiolaeth a data hanfodol a dyfeisio dewisiadau lliniaru. |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 2011 | 2007-2022 | 2016 Diwygiad Ffurf Fer | 2016-2031 | Mabwysiadwyd CDLl Newydd ym mis Chwefror 2019. |
| Gwynedd (CDLl ar y cyd ag Ynys Môn) | 2017 | 2011-2025 | Adroddiad Adolygu Drafft ar gyfer Ymgynghori | Amh. | Amh. |
| Sir Ddinbych | 2013 | 2006-2021 | 2017 Diwygiad Llawn | 2018-2033 | Roedd y CDLl Newydd i fod i gyrraedd y cam adneuo, fodd bynnag, cafodd ei ohirio oherwydd argyfyngau COVID-19. Amserlen ddiwygiedig i'w nodi mewn Cytundeb Cyflawni diwygiedig, gan ymgynghori arni. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Wrecsam | Ar y cam Archwilio (heb ei fabwysiadu eto) | 2013-2028 | Amh. | Amh. | Amh. |

# 11. Casgliadau

11.1 Dylai Adroddiad Adolygu yr Awdurdod Cynllunio Lleol gytuno ar y math o weithdrefn i'w dilyn ar gyfer diwygio'r CDLl. Yn seiliedig ar adolygiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r CDLl, daethpwyd i'r casgliad mai'r weithdrefn Ddiwygio Llawn yw'r ffordd fwyaf priodol o ddiwygio ar gyfer CDLl mabwysiedig Powys. Mae hyn yn golygu y bydd angen paratoi CDLl Newyddar gyfer cyfnod 2022-2037. Bydd hyn yn sicrhau y gellir parhau i wneud penderfyniadau lleol yn effeithiol wrth gynllunio ar ôl "dyddiad gorffen" y CDLl mabwysiedig, sef 31 Mawrth 2026.

11.2 Mae'r dystiolaeth yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (2021) wedi nodi materion sylfaenol wrth gyflawni strategaeth y CDLl a arweinir gan dai y byddai angen rhoi sylw iddi yn y CDLl Newydd. Bydd angen ailystyried Strategaeth Twf bresennol CDLl mabwysiedig Powys er mwyn adlewyrchu anghenion ardal y Cynllun yn y dyfodol. Felly, bydd angen ailystyried dosbarthiad y twf hwnnw ar draws ardal y CDLl, drwy'r Strategaeth Ofodol. Bydd angen newidiadau hefyd i bolisïau a chynigion manwl y CDLl er mwyn adlewyrchu'r strategaeth a ailystyrir ac adlewyrchu tystiolaeth berthnasol a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru.

11.3 Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd yng nghyd-destun polisïau cynllunio ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2018, yn enwedig ar lefel genedlaethol, gyda chyhoeddiad Cymru'r Dyfodol a fersiynau wedi'u diweddaru o Bolisi Cynllunio Cymru. Bydd angen diwygio'r CDLl i adlewyrchu'r canlynol:

- y pwyslais yn y dogfennau hyn ar egwyddorion creu lleoedd a datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol.
- y pwyslais yn y dogfennau hyn ar y nodau llesiant a chymhwyso'r pum ffordd o weithio, a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn dangos bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cyflawni ei ddyletswydd datblygu cynaliadwy.

11.4 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fodloni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill hefyd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Mae angen ailystyried y dull polisi ar lefel leol hefyd er mwyn ymateb i'r materion a godwyd gan bandemig COVID-19, effaith ffosffadau ar grynoadau Ardal Cadwraeth Arbennig, a blaenoriaethau a strategaethau cenedlaethol a lleol sy'n newid.

11.5 Trwy ddiweddaru'r dystiolaeth bresennol a chynnal tystiolaeth newydd, yn unol â chanllawiau polisïau cynllunio cenedlaethol, bydd hyn yn sicrhau sylfaen dystiolaeth gyfredol a chadarn i lywio strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl Newydd. Mae tystiolaeth sydd eisoes ar gael ynghylch newidiadau i amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd, ynghyd â ffactorau eraill y manylir arnynt yn yr Adroddiad Adolygu hwn, yn tynnu sylw at angen sylfaenol i ailystyried gofyniad tai a Strategaeth Twf y CDLl, gan ystyried hefyd y data sydd ar ddod a fydd ar gael o Gyfrifiad 2021.

11.6 Mae canfyddiadau a chasgliadau adolygiad y CDLl wedi'u llywio gan ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Atodiad D yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, ynghyd ag ymatebion y Cyngor. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cefnogi'r angen am Adolygiad Llawn o CDLl mabwysiedig Powys yn gyffredinol.

11.7 I gloi, ystyrir bod angen Diwygiad Llawn er mwyn mynd i'r afael â'r materion strategol a nodwyd wrth weithredu CDLl mabwysiedig Powys. Mae arwyddocâd y newidiadau i'r cyd-destun y mae'r CDLl yn gweithredu ynddo hefyd yn cyfiawnhau'r angen i ddiwygio'r Cynllun yn ei gyfanrwydd er mwyn ymateb i'r newidiadau hyn. Ni fyddai defnyddio'r weithdrefn Diwygiad Ffurf Fer yn briodol nac yn gyfiawn o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd Diwygio'r CDLl yn Llawn, drwy baratoi CDLl Newydd, yn sicrhau bod gan ardal CDLl Powys Gynllun cyfredol y tu hwnt i 2026, sy'n adlewyrchu'r dull a arweinir gan gynllun yng Nghymru.

## ATODIAD A Tabl cryno o Ganfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

### Tabl 9. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Bioamrywiaeth

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLI (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **1** | Cynyddu/lleihau nifer y safleoedd dynodedig Ewropeaidd mewn cyflwr ffafriol | Yn 2018, dim ond 11, neu 6%, o'r 180 o nodweddion Cadwraeth a ganfuwyd yn y 47 Safle Ewropeaidd ym Mhowys neu'n agos ati, oedd wedi eu hailasesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda dirywiad net yn eu statws cyffredinol oherwydd un nodwedd yn unig y canfuwyd ei bod wedi dirywio, a hyn yn ystod misoedd cyntaf y CDLI. | Effaith negyddol ar Amcan 1 Asesiad Amgylcheddol Strategol i ddiogelu safleoedd dynodedig ar gamau cychwynnol CDLI mabwysiedig Powys. Nid oedd data wedi'u diweddaru ar gael ar adeg y gwaith monitro blynyddol - cesglir data asesiad sylfaenol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2020 yn yr AMB nesaf. |
| **2** | Newidiadau i statws y cynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol (LBAP) | Mae'r adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol, a fydd yn arwain at Gynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Powys, yn dal i fynd rhagddo felly ni fu'n bosibl penderfynu pa newidiadau sydd wedi digwydd yn eu statws yn ystod tair blynedd gyntaf y CDLI. | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |
| **3** | Nifer y datblygiadau a ganiateir sy'n ymgorffori gwelliannau i safleoedd Ewropeaidd / cenedlaethol dynodedig, a'r rhywogaethau a chynefinoedd a nodir yn | Ym mis Hydref 2019, dosbarthodd Llywodraeth Cymru lythyr i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn esbonio'r sefyllfa o ran sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth yn rhan o geisiadau cynllunio. Disgwylir i welliannau bioamrywiaeth gael eu sicrhau mewn cysylltiad â'r holl ddatblygiadau, gan gynnwys y datblygiadau hynny sy'n effeithio ar Rwydwaith | Nid oes angen monitro mwyach oherwydd newid yn y dull cenedlaethol o wella. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | LBAP Powys neu Restr Adran 42 | Safleoedd Cenedlaethol, rhywogaethau a chynefinoedd. | |

**Tabl 10. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Poblogaeth ac Iechyd Dynol**

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLl (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **4** | Newid mewn disgwyliad oes cyfartalog | Yn 2016 y cyhoeddwyd y data diweddaraf ar gyfer y dangosydd hwn, felly ni fu'n bosibl dangos unrhyw newidiadau mewn disgwyliad oes yn ystod tair blynedd gyntaf y CDLl. | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |
| **5** | Cymhareb y boblogaeth o oed gweithio â phlant a phobl wedi ymddeol | Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn a ryddhawyd bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, ers 2018, mae canran poblogaeth Powys nad yw o oedran gweithio wedi cynyddu 0.5%, a 43.5% oedd hyn yn 2020, gyda 56.5% o'r boblogaeth o oedran gweithio. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl nad ydynt yn gweithio yn y sir nag yn 2018. Ymhlith y boblogaeth nad yw'n gweithio, mae nifer y plant wedi gostwng 129 yn ystod y cyfnod hwn, ond mae nifer y bobl sydd wedi ymddeol wedi codi 1,026. | Parhau â'r duedd sy'n berthnasol i Amcan 3 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn gwella'r ddarpariaeth dai, cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mewn ymateb i newidiadau demograffig, megis y boblogaeth sy'n heneiddio. |
| **6** | Canran y boblogaeth 75 oed a hŷn | Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn a ryddhawyd bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, mae hyn wedi codi 911 i 17,077 ers 2018, sy'n cyfateb i gynnydd o 0.63% o ran canran y boblogaeth. Yn 2020, roedd y grŵp oedran hwn yn 12.83% o boblogaeth gyffredinol Powys, sy'n gynnydd o 0.63% o ran canran, ers 2018. | Parhau â'r duedd sy'n berthnasol i amcan 3 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol fel y nodir uchod. |
| **7** | Tueddiadau mudo oedolion iau (20-34 oed) | Er bod rhai tueddiadau mwy cymhleth yn nata yr amcangyfrifon canol-blwyddyn o ran gwahanol grwpiau oedran a dadansoddiadau rhywedd, yn gyffredinol, bu | Y posibilrwydd o wrthdroi'r duedd sy'n berthnasol i Amcan 3 yr Asesiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewnlif net o 162 o bobl yn y grŵp oedran hwn yn ystod y tair blynedd. | Amgylcheddol Strategol, yn enwedig o ran yr angen i gadw'r boblogaeth oedran gweithio sy'n ifanc. |
| **8** | Nifer y damweiniau ffordd gydag anaf personol a gofnodir gyda'r heddlu | Roedd y ffigurau ar gyfer y rhai a gafodd fân anafiadau, anafiadau difrifol a'r rhai a fu farw wedi aros yn weddol gyson. Roedd nifer y marwolaethau wedi cynyddu o 9 yn 2019 i 14 yn 2020, o'i gymharu â'r cyfartaledd deng mlynedd o 12. Yna, gwelodd y pandemig ostyngiad dramatig yn yr holl ffigurau, oherwydd y gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o'r ffyrdd yn ystod y cyfyngiadau symud yn ôl pob tebyg. | Roedd angen i'r gwaith monitro tymor hwy nodi unrhyw dueddiadau yn sgil COVID-19 ac effeithiau mewn cysylltiad ag amcan 5 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn hybu gwelliant mewn diogelwch cymunedol. |
| **9** | Nifer y troseddau a gofnodir gan yr heddlu | Mae'r ffigurau hyn, a gymerwyd yn ystod y tair blynedd, yn datgelu cynnydd o 846 o droseddau. Yn 2020, bu gostyngiad o 53 o droseddau o'u cymharu â ffigurau blaenorol 2019. Cyn y pandemig, bu cynnydd hirdymor yn nifer y troseddau a gofnodwyd. | Roedd angen i'r gwaith monitro tymor hwy nodi unrhyw dueddiadau yn sgil COVID-19 ac effeithiau mewn cysylltiad ag amcan 5 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn hybu gwelliant mewn diogelwch cymunedol. |
| **10** | Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy'r wythnos. | Ni ddiweddarwyd ffigurau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ystod y gwaith monitro tair blynedd, felly ni ellir nodi unrhyw duedd. | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |
| **11** | Nifer y ceisiadau cynllunio a gyfeirir at Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yn ystod y cyfnod o dair blynedd, ers mabwysiadu, cyfeiriwyd cyfanswm o 7 cais cynllunio at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch na gododd unrhyw bryderon. | Effaith gadarnhaol mewn cysylltiad ag amcan 6 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn atal neu leihau y risg i iechyd dynol. |

**Tabl 11. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Pridd**

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLl (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **12** | Maint y datblygu (ha) a ganiateir ar ardaloedd gyda mawn trwchus (yn ôl mapiau Arolwg Daearyddol Prydain) | Caniatawyd un datblygiad dros ardal o fawn trwchus a fapiwyd (yn cynnwys 0.16 hectar) nad oedd yr effaith ar yr ardal o fawn trwchus wedi ei hystyried. Caniatawyd datblygiadau eraill dros ddyddodion mawn trwchus cyn y CDLl neu ers i unrhyw ddyddodion gael eu symud gan geisiadau hanesyddol. | Effaith negyddol mewn cysylltiad ag amcan 7 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn diogelu priddoedd a ddosberthir fel rhai sy'n bwysig ar gyfer storio carbon. |
| **13** | Maint y datblygu (ha) a ganiateir ar safleoedd tir glas a thu allan i ffiniau datblygu | Roedd canran y tir a oedd yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio, ar dir maes glas a'r tu allan i ffiniau datblygu, yn cyfateb i 70% yn 2019, 67% yn 2020 a 50% yn 2021. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu natur wledig Powys a'r mathau o ddatblygiadau a gynigir yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys twristiaeth. Mae'r datblygiadau a ganiatawyd yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol, a strategaeth a pholisïau y CDLl. | Mae angen monitro tymor hwy i gadarnhau a yw'r duedd tuag at fwy o gydbwysedd rhwng datblygu a defnyddio tir maes glas a thir a ddatblygwyd yn flaenorol yn parhau. |
| **14** | Nifer y datblygiadau lle cymeradwywyd adroddiad dilysu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n dangos i'r tir a halogwyd cael ei adfer | Yn ystod tair blynedd y gwaith monitro hyd yma, mae cyfanswm o 35 o geisiadau wedi eu cyflwyno a'u cymeradwyo yr oedd angen adroddiad dilysu ar eu cyfer yn unol ag amod, sy'n dangos bod gwaith adfer yn cael ei gefnogi yn rhan o ddatblygiad newydd. Nodwyd rhywfaint o anghysondeb mewn cysylltiad â 3 o'r ceisiadau o ran lefel y dystiolaeth neu'r manylion a gyflwynwyd/ystyriwyd. | Effaith gadarnhaol gyffredinol mewn cysylltiad ag amcan 8 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn atal tir rhag halogi a chefnogi gwaith adfer yn rhan o ddatblygiad newydd, fodd bynnag, nodwyd peth anghysondeb. |

**Tabl 12. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Dŵr**

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLl (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Amgylcheddol Strategol** | | |
| **15** | Fesul Ardal Cynllunio Rheoli Basn Afon ar gyfer Cynllun rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren:<br>% y dŵr wyneb sydd o statws da<br>% y dŵr daear sydd o statws da | Dim ond unwaith (yn 2019) yr aseswyd y mathau hyn o ddŵr yn ystod tair blynedd y cyfnod monitro hwn, pan aseswyd bod 45.2% o'r dyfroedd wyneb a 41.17% o'r dyfroedd daear yn 'dda'. Mae hyn yn awgrymu y cynhelir ansawdd y dŵr yn unol ag amcan 9 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, fodd bynnag, mae'r amcan hwn hefyd yn cynnwys gwella ansawdd y dŵr. Nid oes data wedi'u diweddaru ar gael i gadarnhau unrhyw duedd neu newid. | Mae angen gwaith monitro tymor hwy er mwyn dadansoddi unrhyw newidiadau neu dueddiadau. |
| **16** | Nifer y ceisiadau caniatâd cynllunio sy'n cynnwys SUD | Ers mis Ionawr 2019, mae proses gymeradwyo y Corff Cymeradwyo SuDS wedi dod i rym, sy'n gosod safonau gorfodol o ran draenio cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad sy'n cynnwys mwy nag un annedd neu sy'n fwy na 100m2, felly nid yw'r dangosydd hwn yn berthnasol mwyach. | Nid oes angen monitro mwyach oherwydd proses ar wahân a grëwyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad fodloni safonau draenio cynaliadwy. |

### Tabl 13. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Aer

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLl (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **17** | Lefelau cyfartalog crynodiadau NO2, PM2.5 a PM10 (a gofnodir fel Dangosyddion Ansawdd Aer) ar draws Powys | Mae'r ffigurau hyn yn dangos tuedd $NO_2$ sefydlog a erys ar grynodiadau o 4 µg/M3, ond mae gronynnau a gludir yn yr awyr o'r ddau faint wedi cynyddu ychydig yn ystod tair blynedd y gwaith monitro. Yn seiliedig ar 2019 y mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yng nghyfnod monitro AMB 2021, ac felly mae angen gwaith monitro tymor hwy i gasglu newidiadau ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. | Mae angen gwaith monitro tymor hwy er mwyn dadansoddi unrhyw newidiadau neu dueddiadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **18** | Lefelau penodol o NO2 yn erbyn Amcanion Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol ar draws Powys | Mae hyn yn edrych yn benodol ar lefelau $NO_2$, gan ddefnyddio safleoedd monitro yn y Drenewydd nad ydynt yn rhai awtomatig, safle yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer sydd bellach wedi ei dirymu. Mae'r safleoedd hyn i gyd yn dangos gostyngiadau clir yn y lefelau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer, sef 2019, o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, sy'n dangos y swyddogaeth y mae ffordd osgoi'r Drenewydd wedi ei chwarae o ran gwella ansawdd yr aer ar y safle hwn. | Effaith gadarnhaol mewn cysylltiad ag amcan 10 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn diogelu a gwella ansawdd yr aer ym Mhowys ac yn benodol Ardal Rheoli Ansawdd Aer y Drenewydd. |

**Tabl 14. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Ffactorau Hinsoddol**

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLl (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **19** | Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) lle mae lefel y risg gan afonydd a'r môr yn ganolig neu uchel | Monitro nifer y cartrefi a'r busnesau yn y sir sydd mewn perygl canolig i uchel o lifogydd. Mae 4,294 eiddo bellach sydd mewn perygl o lifogydd, sy'n gynnydd o 30 ers mabwysiadu'r CDLl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod effaith negyddol o reidrwydd oherwydd ei fod yn cipio rhai ardaloedd ym mharth C1 lle mae amddiffynfeydd rhag llifogydd yn bresennol.  Ni nodwyd unrhyw faterion wrth weithredu Polisi cyfatebol DM5 y CDLl yn rhan o AMB 2021. | Dim effaith glir ar amcan 11 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd. |
| **20** | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Mae canlyniadau Powys yn gadarnhaol ar draws bron pob sector bob blwyddyn, gan gynnwys Domestig, Trafnidiaeth a Defnyddio Tir a Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth, gyda gostyngiad cyffredinol, ar draws pob sector gan eu cymryd gyda'i gilydd, o 1.19% rhwng 2018 a 2019. Mae hyn yn parhau â'r duedd hirdymor a welwyd cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu. | Parhau â'r duedd sy'n berthnasol i Amcan 12 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol mewn cysylltiad â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. |

**Tabl 15. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Adnoddau ac Asedau Strategol**

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLl (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **21** | Nifer y safleoedd mwynau presennol | Mae nifer y safleoedd mwynau a allai fod yn weithredol yn y sir yn parhau i fod yn 15, ac ni fu unrhyw newid yn y nifer hwn ers cyn i'r CDLl gael ei fabwysiadu. | Effaith niwtral ar amcan 13 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o ran diogelu adnoddau mwynau. |
| **22** | Nifer y datblygiadau a ganiateir ar gyfer datblygiad parhaol ar safleoedd mwynau a ddiogelir | Mae'r dangosydd hwn wedi datgelu anghysondebau yn y ffordd y caiff Polisi DM8 ei gymhwyso ym mhob blwyddyn fonitro, gan dynnu sylw at yr angen am ragor o hyfforddiant a gwaith ymchwil, ac i ailystyried y polisi. | Effaith negyddol ar amcan 13 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn diogelu adnoddau mwynau rhag datblygiadau a fyddai'n atal gwaith cloddio. |
| **23** | Nifer y ceisiadau datblygiad cynllunio fyddai'n effeithio ar y seilwaith trafnidiaeth strategol a gyfeirir at Lywodraeth Cymru | Roedd y dangosydd hwn yn cynnwys monitro perfformiad polisi T3 mewn cysylltiad â diogelu ac amddiffyn llwybr Ffordd Osgoi'r Drenewydd. Nid yw'r dangosydd hwn yn berthnasol bellach oherwydd bod y ffordd osgoi wedi ei chwblhau a'i hagor yn 2019. | Nid oes angen monitro mwyach oherwydd bod ffordd osgoi'r Drenewydd wedi ei chwblhau. |
| **24** | Nifer y datblygiadau a ganiateir ar neu sy'n effeithio ar Wersyll Hyfforddi Pontsenni (Y Weinyddiaeth Amddiffyn) | Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r gwaith o ddiogelu Ardal Hyfforddi Pontsenni drwy ddefnyddio Polisi SP7. Yn ystod oes y CDLl hyd yma, ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio yn yr Ardal Hyfforddi i brofi perfformiad y Polisi â nhw, felly nid oes casgliad y gellir dod iddo o'r dangosydd. | Effaith niwtral ar amcan 14 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn diogelu seilwaith penodol rhag datblygiadau anghydnaws. |

**Tabl 16. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Treftadaeth Ddiwylliannol**

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLl (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **25** | Cynnydd neu golled net o ddynodiadau'r amgylchedd hanesyddol – Adeiladau Rhestredig, Henebion Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig | Ers mabwysiadu'r CDLl, bu cynnydd net o bedwar Adeilad Rhestredig a dwy Heneb Gofrestredig. Felly, mae nifer y rhestrau/cofrestrau newydd wedi rhagori ar nifer y rhestrau/cofrestrau a gollwyd. Ni fu unrhyw newid yn nifer yr Ardaloedd Cadwraeth (55), Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (37), na Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig (10). | Effaith gadarnhaol ar amcan 16 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn deall, gwerthfawrogi, diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol Powys. |
| **26** | Canran yr henebion rhestredig yng Nghymru mewn cyflwr sefydlog neu gyflwr sy'n gwella | O'r Henebion Cofrestredig a aseswyd gan Cadw yn rhan o'i Arolwg Henebion mewn Perygl, aseswyd bod 69% mewn cyflwr sefydlog neu gyflwr sy'n gwella. Ni chafwyd unrhyw wybodaeth wedi'i diweddaru oddi wrth Cadw ac felly nid yw'n bosibl nodi unrhyw newidiadau na thueddiadau ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |
| **27** | Canran yr adeiladau rhestredig heb | Yn ôl cofrestr Cadw o Adeiladau mewn Perygl (2015), nid oedd 82% o adeiladau rhestredig yn ardal CDLl Powys yn agored i niwed nac mewn perygl. Nid yw Cadw wedi gwneud unrhyw waith arolygu ychwanegol | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | statws 'bregus' neu 'mewn risg' | oherwydd bod archwiliadau wedi eu cyfyngu gan gyfyngiadau COVID-19, ac felly nid yw'n bosibl nodi unrhyw newidiadau na thueddiadau ers mabwysiadu'r CDLI. | |
| **28** | Nifer, canran a dosraniad Siaradwyr Cymraeg | Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio data o'r Cyfrifiad diweddaraf. O ganlyniad i hynny, bydd yn 2022 cyn cyhoeddir data o'r Cyfrifiad diweddaraf, fel y gellir diweddaru'r data sylfaenol (o Gyfrifiad 2011), ac felly nid yw'n bosibl nodi unrhyw newidiadau na thueddiadau ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu. | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |
| **29** | Newidiadau mewn sgiliau iaith y boblogaeth | Mae'r dangosydd hwn yn monitro newidiadau yn sgiliau Cymraeg y boblogaeth gan ddefnyddio data o'r Cyfrifiad diweddaraf. O ganlyniad i hynny, bydd yn 2022 cyn cyhoeddir data o'r Cyfrifiad diweddaraf, fel y gellir diweddaru'r data sylfaenol (o Gyfrifiad 2011) ac felly nid yw'n bosibl nodi unrhyw newidiadau na thueddiadau ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu. | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |
| **30** | Canran y boblogaeth 3 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg | Mae'r data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod canran poblogaeth Powys sy'n gallu siarad Cymraeg wedi parhau i gynyddu i ddechrau ar ôl mabwysiadu'r CDLI, gyda chynnydd yn y ganran o 28.9% yn 2018 i 29.9% yn 2019; fodd bynnag, ers hynny, mae'r ganran wedi gostwng i 27.3% yn 2020 ac i 24% yn 2021. | Ceir tueddiad negyddol posibl, fodd bynnag, bydd symud ymlaen â data Cyfrifiad 2021 yn helpu i gadarnhau unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. |

**Tabl 17. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Tirwedd**

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLI (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **31** | Ardal (ha) / cyfran y datblygu a ganiateir sydd tu allan i ffiniau datblygu ac | Mae gan y dangosydd hwn rai materion sy'n ymwneud â'i ddefnyddioldeb oherwydd bod canran uchel iawn o'r sir (97%) a ddosberthir fel datblygiadau sy'n rhagorol neu o ansawdd uchel. Mae hyn yn golygu y bydd bron | Dim tuedd amlwg. Ailystyried effeithiolrwydd y dangosydd hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o fewn ardaloedd agwedd LANDMAP a ddynodir yn eithriadol / uchel eu hansawdd | unrhyw ddatblygiad y tu allan i ffin ddatblygu yn perthyn i ardal o'r fath. Er gwaethaf hyn, ni ddeilliodd unrhyw duedd glir o'r data ers y mabwysiad, gyda 241 hectar yn y flwyddyn gyntaf, 164 hectar yn yr ail flwyddyn a 507 hectar yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Heblaw hynny, nid yw monitro Polisi DM4 y CDLI, sy'n cyfeirio at LANDMAP, wedi nodi unrhyw faterion penodol. | |
| **32** | Cyfran yr ardaloedd agwedd eithriadol/uchel eu hansawdd a nodir gan LANDMAP | Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ailasesu'r meysydd agwedd ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac ers hynny, mae'r cyfnod asesu wedi newid o bob blwyddyn i bob pum mlynedd. | Nid yw'r data wedi'u diweddaru ar gael. |

### Tabl 18. Canfyddiadau Monitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd – Geoamrywiaeth

| Dangosydd rhif | Dangosydd Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol | Crynodeb o'r canfyddiadau ers mabwysiadu'r CDLI (Ebrill 2018) | Tuedd/effaith gyffredinol ar amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **33** | Nifer y RIGS a safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol | Mae'r canlyniadau dros y tair blynedd ers mabwysiadu yn dangos rhywfaint o amrywiad yn niferoedd y Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol, sy'n ganlyniad i'r anhawster o gael gafael ar ddata awdurdodol yn gyson. Deellir mai'r ffigur diweddaraf ar gyfer Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol yw'r mwyaf awdurdodol. Mae'r data ar gyfer safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol yn dangos mwy o barhad. Yn gyffredinol felly, mae'n anodd nodi neu ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch tueddiadau, fodd bynnag, bydd y data diweddaraf yn darparu llinell sylfaen wrth symud ymlaen o leiaf. | Nid oes unrhyw duedd amlwg, fodd bynnag, bydd gwelliannau i'r data yn galluogi monitro mwy cywir yn y dyfodol. |
| **34** | Nifer y datblygiadau a ganiateir ar neu sy'n effeithio ar | Monitro perfformiad Polisi DM2 y CDLI mewn cysylltiad â'r amddiffyniad a roddir i'r Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol a'r safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol yn ardal y CDLI. Ym mhob un o'r tair | Effaith negyddol ar amcan 18 yr Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn diogelu Safleoedd Geoamrywiaeth o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | RIGS neu safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol | blynedd y mae gwaith monitro wedi digwydd ynddynt, bu materion yn ymwneud â sut y mae’r dynodiadau penodol hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau. Bydd gwelliannau o ran mapio yn helpu i unioni’r materion hyn, ynghyd â hyfforddiant. | Bwys Rhanbarthol rhag datblygiadau anghydnaws. |

# ATODIAD B Tablau cryno o Adolygiad Polisi y CDLl

### Tabl 19. Polisïau Strategol

| Cyfeirnod Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **SP1** | Twf Tai | Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf. |
| **SP2** | Twf Cyflogaeth | Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf ac i adlewyrchu tystiolaeth safle cyflogaeth strategol rhanbarthol y Canolbarth sy'n dod i'r amlwg. |
| **SP3** | Targed Tai Fforddiadwy | Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth, a'r dystiolaeth ddiweddaredig o'r angen am dai mewn amcangyfrifon cenedlaethol a rhanbarthol a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, ynghyd â thystiolaeth hyfywedd ddiweddaredig. Dull polisi newydd o nodi safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy i'w hystyried. |
| **SP4** | Twf Adwerthu | Adolygu'r polisi er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaredig ac ailystyried priodoldeb y dyraniad manwerthu o dan Bolisi R2 (yr ymddengys fod perygl o beidio â'i gyflawni). |
| **SP5** | Hierarchaeth Anheddiad | Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf. |
| **SP6** | Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad | Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf. |
| **SP7** | Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Caiff ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol a bod yr adnoddau a'r asedau strategol rhestredig yn parhau i fod yn berthnasol. |

### Tabl 20. Polisïau Rheoli Datblygu

| Cyfeirnod Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **DM1** | Ymrwymiadau Cynllunio | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. |
| **DM2** | Yr Amgylchedd Naturiol | Ailystyried y polisi er mwyn adlewyrchu'r newid o Safleoedd Ewropeaidd i'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, y newidiadau i'r amcanion deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol, ac yng nghyd-destun yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd. |
| **DM3** | Man Agored Cyhoeddus | Ailystyried y polisi â chyfraniad Rheoli Datblygu er mwyn darparu eglurder, ynghyd â gofynion y Seilwaith Gwyrdd. |
| **DM4** | Tirwedd | Adolygu'r polisi er mwyn adlewyrchu tystiolaeth yn yr Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol a pholisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol. |
| **DM5** | Datblygiad a Pherygl o Lifogydd | Ailystyried y polisi yng ngoleuni Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. |

| | | |
|---|---|---|
| **DM6** | Mesurau Atal Llifogydd a Draenio Tir | Ailystyried y polisi yng ngoleuni Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, ynghyd â gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy. |
| **DM7** | Awyr Dywyll a Goleuadau Allanol | Defnyddir y polisi hwn yn bennaf i gefnogi amodau cynllunio sy'n ymwneud â chynlluniau goleuo allanol sydd â'r nod o osgoi effaith ar fywyd gwyllt nosol, yn hytrach nag asesu'r effaith ar lygredd golau a gwelededd awyr y nos. Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol a thystiolaeth gysylltiedig. |
| **DM8** | Diogelu Mwynau | Mae'r polisi hwn yn cefnogi gofynion mewn polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson. Bydd rhagor o hyfforddiant a mapio cyfyngiadau swyddogion yn helpu, ynghyd â geiriad diwygiedig |
| **DM9** | Gwaith Mwynau Presennol | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, dylid ychwanegu geiriad ychwanegol er mwyn adlewyrchu polisïau a chanllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru. |
| **DM10** | Tir Llygredig ac Ansefydlog | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. |
| **DM11** | Amddiffyn Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol Presennol | Ailystyried y polisi er mwyn egluro sut i'w ddefnyddio, a'i berthynas â pholisïau cysylltiedig eraill (e.e. polisïau R3 ac C1). |
| **DM12** | Datblygiadau mewn Cadarnleoedd y Gymraeg | Ailystyried y polisi yng ngoleuni'r dystiolaeth ddiweddaraf, ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg y dylid ei gynnal yn rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI. |
| **DM13** | Dyluniad ac Adnoddau | Ailystyried y polisi ac elfennau ynddo yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol, yn enwedig o ran cynaliadwyedd ac egwyddorion creu lleoedd. |
| **DM14** | Rheoli Ansawdd Aer | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, dylid ychwanegu geiriad ychwanegol. |
| **DM15** | Gwastraff mewn Datblygiadau | Ni chymhwysir y polisi hwn mor eang ag y bwriadwyd. Ymdrinnir â hyn drwy drafod â Rheoli Datblygu. |
| **DM16** | Diogelu Safleoedd Cyflogaeth Presennol | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisïau Cyflogaeth. Gweler Polisi E4 hefyd. |

**Tabl 21. Polisïau sy'n Seiliedig ar Bwnc**

| Cyfeirnod Polisi | Teitl | Trosolwg |
|---|---|---|
| **E1** | Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd a Ddyrannwyd ar gyfer Cyflogaeth | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd angen ei ailasesu yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth Twf a'r Strategaeth Ofodol. Caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisïau Cyflogaeth. |
| **E2** | Cynigion Cyflogaeth ar | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd angen ei ailasesu yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | Safleoedd Heb eu Dyrannu ar gyfer Cyflogaeth | Strategaeth Twf a'r Strategaeth Ofodol. Caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisïau Cyflogaeth. |
| **E3** | Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Cyflogaeth Defnydd Cymysg a Dyrannwyd | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd angen ei ailasesu yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau i'r Strategaeth Twf a'r Strategaeth Ofodol. Caiff y geiriad ei adolygu i sicrhau eglurder a chysondeb â'r gyfres o Bolisïau Cyflogaeth. |
| **E4** | Safleoedd Cyflogaeth a Ddiogelir | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol. Bydd yn cael ei ddiweddaru er mwyn sicrhau bod y rhestr o safleoedd a ddiogelir yn gyfredol ac yn gywir a bod y polisi'n parhau i gydymffurfio â pholisi cenedlaethol a thystiolaeth wedi'i diweddaru. Gweler Polisi DM16 hefyd. |
| **E5** | Parc Iechyd Bronllys | Ailystyried y polisi gofynnol yng ngoleuni'r materion a nodwyd wrth ei ddefnyddio, yn ogystal â'r angen i adolygu ei berthnasedd wrth symud ymlaen. |
| **E6** | Arallgyfeirio ar y Fferm | Ailystyried y polisi er mwyn ystyried arallgyfeirio ym maes amaethyddiaeth ochr yn ochr ag arallgyfeirio oddi wrth amaethyddiaeth, ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau mewn polisïau cenedlaethol. |
| **E7** | Gweithio o Adref | Disgwylir i'r polisi barhau i fod yn gefnogol ac yn hyblyg o ran gweithio gartref. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen, gan gynnwys cyfeirio at y newid mewn arferion gweithio yn sgil COVID-19. |
| **T1** | Teithio, Traffig a Seilwaith Trafnidiaeth | Ailystyried y polisi yn dilyn pwyslais ar deithio cynaliadwy yn Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol. |
| **T2** | Diogelu Seilwaith Cludiant Nas Defnyddir | Ni ddefnyddiwyd y polisi. Dylid gwneud gwaith ymchwil i nodi'r rheilffyrdd segur a'r seidins segur neu nas defnyddir, a seilwaith trafnidiaeth arall, yn ardal y Cynllun, yn rhan o'r broses adolygu. Bydd yr ymchwil hon yn galluogi dealltwriaeth o'r dull polisi i'w ddatblygu a gallai arwain at nodi cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd. |
| **T3** | Ffordd Osgoi'r Drenewydd | Nid oes angen y polisi mwyach. Mae Ffordd Osgoi'r Drenewydd wedi ei hadeiladu ac yn weithredol. |
| **H1** | Cynigion Datblygu Dai | Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf. |
| **H2** | Safleoedd Tai | Adolygu'r polisi i adlewyrchu yr ailystyriaeth a roddir i'r strategaeth ofodol a'r strategaeth twf. |
| **H3** | Darparu Tai | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol; fodd bynnag, caiff ei ailystyried er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dull o gyflawni tai a mynd i'r afael â'r angen am dai. |
| **H4** | Dwysedd Tai | Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol ac ymchwil ychwanegol i lywio'r dull o ymdrin â dwysedd tai ar draws haenau aneddiadau a mathau o ddatblygiad. |
| **H5** | Cyfraniadau at Dai Fforddiadwy | Ailystyried y polisi, gan gynnwys targedau sy'n benodol i safle, yng ngoleuni tystiolaeth wedi'i |

| | | |
|---|---|---|
| | | diweddaru am yr angen am dai a hyfywedd, ynghyd â pholisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol. |
| **H6** | Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig a Alluogwyd | Ailystyried y polisi yng ngoleuni polisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol. Bydd angen adlewyrchu diwygiadau i'r strategaeth, rhaglenni Landlord Cymdeithasol Cofrestredig/Awdurdod Tai Strategol, a thystiolaeth o fforddiadwyedd ac angen lleol yn y dull o ymdrin â safleoedd eithriedig. |
| **H7** | Datblygiadau gan Ddeiliaid Tai | Yn gyffredinol, ystyrir bod y polisi'n gweithio'n effeithiol, yn enwedig o ran datblygiadau atodol. Mae'n bosibl y bydd angen geiriad ychwanegol i adlewyrchu ystyriaethau ychwanegol. |
| **H8** | Adnewyddu Anheddau Gwag | Defnyddir y polisi hwn yn effeithiol ochr yn ochr â chanllawiau Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24, er mwyn sicrhau bod anheddau gwag yn cael eu hadnewyddu'n sympathetig a bod asesiad archeolegol neu fod adeiladau'n cael eu cofnodi. |
| **H9** | Anheddau a Amnewidir | Nodwyd materion wrth ddehongli'r polisi hwn, yn enwedig o ran nodi ac asesu adeiladau o gymeriad cynhenid lleol. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o eglurhad ynghylch polisïau i adlewyrchu gofynion asesu archeolegol. |
| **H10** | Safleoedd a Charafanau Sipsiwn a Theithwyr | Disgwylir i'r polisi barhau i fod yn gefnogol ac yn hyblyg o ran darparu safleoedd pan fo hynny'n angenrheidiol. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol i'r gofynion polisïau cyfredol a'r anghenion sy'n codi. |
| **H11** | Darpariaeth Safle Sipsiwn a Theithwyr | Bydd y polisi presennol yn dyddio wrth i anghenion gael eu diwallu. Bydd angen polisi newydd i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru. |
| **R1** | Datblygiad Adwerthu Newydd | Adolygu Polisi yn unol â chanfyddiadau'r Astudiaeth Fanwerthu wedi'i diweddaru. |
| **R2** | Dyraniadau Adwerthu | Adolygu'r Polisi yn dilyn canfyddiadau yr Adroddiadau Monitro Blynyddol. |
| **R3** | Datblygiad mewn Ardaloedd Canol Tref | Adolygu'r Polisi i egluro ei ddefnydd, a'i berthynas â pholisïau cysylltiedig eraill, yng ngoleuni adferiad yn sgil COVID-19 hefyd a'r effaith ar y stryd fawr. Bydd yr hierarchaeth Fanwerthu a'r ffryntiadau siopa yn cael eu hadolygu yn unol â'r strategaeth ofodol ddiwygiedig a'r dystiolaeth wedi'i diweddaru. |
| **R4** | Siopau a Gwasanaethau Lleol a Phentref | Ailystyried y polisi fel ei fod yn parhau i fod yn gefnogol, yn gyfredol ac yn berthnasol i greu lleoedd cynaliadwy yn unol ag ailystyried y strategaeth twf a'r strategaeth ofodol. Dylid ymchwilio ymhellach i Gysylltiadau â Pholisïau C1 a DM11, er mwyn sicrhau dull cydlynol o gefnogi cymunedau cynaliadwy. |
| **TD1** | Datblygiadau Twristiaeth | Adolygu'r Polisi yn dilyn canfyddiadau yr Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae angen diwygio'r geiriad hefyd er mwyn darparu eglurder. |
| **TD2** | Defnyddio Datblygiad Twristiaeth mewn Ffyrdd Eraill | Mae'r polisi hwn yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag, dylid ystyried a oes angen egluro ystyr ardal wledig. |

| | | |
|---|---|---|
| **TD3** | Camlas Maldwyn a Datblygiadau Cysylltiedig | Dylid ailystyried y polisi o ystyried swyddogaeth Camlas Trefaldwyn ar draws sawl maes pwnc CDLl ac yng nghyd-destun y dynodiad Ardal Cadwraeth Arbennig, Seilwaith Gwyrdd a chreu lleoedd. |
| **W1** | Lleoliad Datblygiadau Gwastraff | Mae’r polisi hwn yn gweithio’n effeithiol. |
| **W2** | Cynigion Rheoli Gwastraff | Mae’r polisi hwn yn gweithio’n effeithiol. |
| **RE1** | Ynni Adnewyddadwy | Ailystyried y polisi yng ngoleuni cyhoeddiad Cymru’r Dyfodol a newidiadau i’r drefn gydsynio. |
| **M1** | Safleoedd Mwynau Presennol | Mae’r polisi hwn yn gweithio’n effeithiol. Dylid asesu a diweddaru’r geiriad fel y bo’n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth newydd. |
| **M2** | Safleoedd Mwynau Newydd | Mae’r polisi hwn yn gweithio’n effeithiol. Dylid asesu a diweddaru’r geiriad fel y bo’n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth newydd. |
| **M3** | Gweithfeydd Mwynau Dros Dro | Ni chafwyd unrhyw geisiadau i brofi’r polisi hwn hyd yma. Mae’r polisi’n cyfeirio at bolisi cenedlaethol felly ni ddylai fod angen ei ddiweddaru. |
| **M4** | Cynigion Mwynau | Defnyddir y polisi hwn yn effeithiol. Dylid asesu a diweddaru’r geiriad fel y bo’n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth neu newidiadau newydd mewn polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu newidiadau i bolisïau cysylltiedig eraill yn y CDLl (e.e., tirwedd a bioamrywiaeth). |
| **M5** | Gwaith Adfer ac Ôl-ofal | Mae’r polisi hwn yn gweithio’n effeithiol. Dylid asesu a diweddaru’r geiriad fel y bo’n briodol i adlewyrchu unrhyw dystiolaeth neu newidiadau newydd mewn polisi cenedlaethol. |
| **C1** | Cyfleusterau Cymunedol a Chyfleusterau Hamdden Dan Do | Mae’r polisi hwn yn gweithio’n effeithiol, fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd angen egluro ei berthynas â Pholisi DM11. |
| **MD1** | Cynigion Datblygu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn | Ni ddefnyddiwyd y polisi. Ystyried a ddylid cynnwys y polisi yn y CDLl Newydd yn ei fformat presennol ac a oes angen unrhyw newidiadau. |

# ATODIAD C Tablau cryno ar statws Cynigion CDLl

### Tabl 22. Polisi H2 a) Statws Dyraniadau Tai a Dyraniadau Defnydd Cymysg ar 1 Ebrill 2021

| Anheddiad | Cyfeirnod y Safle | Lleoliad y Safle | Nifer yr Unedau | Statws |
|---|---|---|---|---|
| Llanfair-ym-Muallt a Llanelwedd | P08 HA2 | Tir i'r gorllewin o'r ysgol gynradd | 59 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanfair-ym-Muallt a Llanelwedd | P08 HA3 | Tir ger Tai Ar Y Bryn, Ffordd yr Ysbyty | 43 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Tref-y-clawdd | P24 HA1 | Ger 'Shirley' Ludlow Road | 24 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Tref-y-clawdd | P24 HA3 | Ffordd Llanandras | 70 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llandrindod | P28 HA1 | Tir ger Crabtree Green | 50 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Llandrindod | P28 HA2 | Estyniad Parc Tremont | 122 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llandrindod | P28 HA3 | Ffordd Ithon, | 122 | Dechreuwyd |
| Llandrindod | P28 HA4 | Tir yn Ridgebourne Drive | 100 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanfair Caereinion | P30 HA1 | Tir yn Nhan-y-fron | 40 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanfair Caereinion | P30 HA2 | OS 6906, Tir i'r Gogledd o Watergate Street | 20 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Llanfyllin | P32 HA1 | Tir gyferbyn â Maesydre | 14 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanfyllin | P32 HA2 | Cae Maesydre | 55 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanfyllin | P32 HA2 | Cae 7674, i'r de o Faesydre | 90 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanidloes | P35 HA1 | Tir ym Mhenyborfa, Llanidloes | 27 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanidloes | P35 HA2 | Fferm y Capel, Gorn Road | 46 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Machynlleth | P42 HA1 | OS1546, Ffordd Aberystwyth | 29 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Machynlleth | P42 HA2 | Tir ger HA1, Ffordd Aberystwyth | 14 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Machynlleth | P42 HA3 | Depo storio canolbarth Cymru | 14 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Trefaldwyn | P45 HA1 | Tir yn Verlon, Ffordun Road | 54 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Y Drenewydd | P48 HA2 | Hendidley | 15 | Dechreuwyd |
| Y Drenewydd | P48 HA3 | I'r de o Heol Treowen Estyniad | 70 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Drenewydd | P48 HA4 | I'r de o Heol Treowen / Great Brimmon | 136 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanandras | P51 HA2 | Safle Ffordd Joe Deakins | 35 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Rhaeadr | P52 HA1 | Tir Gaia | 70 | Dechreuwyd |
| Rhaeadr | P52 HA2 | Tir oddi ar Stryd y Dwyrain | 16 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Y Trallwng | P57 HA1 | Tir oddi ar Gallowstree Bank | 30 | Cwblhawyd |
| Y Trallwng | P57 HA2 | Tir yn Greenfields, Caeglas | 11 | Cwblhawyd |
| Y Trallwng | P57 HA3 | Tir yn Red Bank | 149 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HA1 | Tir oddi ar Heol Aberhonddu | 59 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HA3 | Ysgol GS Penrhos, Ffordd Aberhonddu | 41 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HA5 | Fferm Glanrhyd | 8 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HA9 | Fferm Penrhos | 76 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HA10 | Brynygroes | 136 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HA11 | Estyniad i Ysgol Penrhos | 122 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HA12 | Caeau Chwarae Cynlais | 10 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Aber-craf | P01 HA1 | Tir i'r Dwyrain o Faesycribarth | 14 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Aber-miwl | P02 HA1 | Tir sy'n ymuno â Thŷ Aber-miwl | 10 | Disodlwyd |
| Aber-miwl | P02 HA2 | Tir ger The Meadows a thir ger Parkside | 30 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Yr Ardd-Lin | P03 HA1 | Tir i'r gorllewin o Dŷ Trederwen | 17 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Aberriw | P04 HA1 | Tir i'r dwyrain o'r pentref, wrth ymyl y gamlas | 12 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Bochrwyd a Llyswen | P06 HA1 | Tir yn Llyswen ger Llys Meillion | 30 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Bochrwyd a Llyswen | P06 HA2 | Tir ger Beeches Park, Bochrwyd | 15 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Bronllys | P07 HA1 | Tir ger Ysgol GS Bronllys, Neuadd Terrace | 38 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Bronllys | P07 HA2 | Tir ym Mronllys tua'r gorllewin o Hen Ysgubor | 10 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Bronllys | P07 HA3 | Tir tuag at gefn Greenfields Bronllys | 6 | Dechreuwyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Caersws | P09 HA1 | Tir i'r gogledd o Ffordd Carno | 43 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Carno | P10 HA1 | Tir oddi ar Ffordd Dol-Llin | 14 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Carno | P10 HA2 | Tir i'r gogledd o Erddi Cledan | 27 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Yr Ystog | P12 HA1 | Tir i'r gorllewin o Fir House | 36 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Cleirwy | P13 HA1 | Tir i'r de-ddwyrain o Gleirwy (B) | 14 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Maes-y-crew | P15 HA1 | Tir gyferbyn â The Firs (rhwng Fferm Malt House a Bryn Mawr) | 23 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Y Groes | P16 HA1 | Tir i'r de o Studio Cottage | 19 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Ffordun / Kingswood | P17 HA1 | Tir oddi ar Heritage Green | 15 | Cwblhawyd |
| Ffordun / Kingswood | P17 HA2 | Tir rhwng Heatherwood a Kingswood Lane | 10 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Four Crosses | P18 HA1 | Tir yn Oldfield (gan gynnwys tir y tu cefn i'r ysgol) | 32 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Y Clas-ar-Wy | P19 HA1 | Stablau Treble Hill | 5 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Cegidfa | P20 HA1 | Tir ger Celyn Lane | 20 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Cegidfa | P20 HA2 | Tir i'r dwyrain o Groes-lwyd | 22 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Y Gelli | P21 MUA1 | Tir yn Gypsy Castle Lane | 49 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Hawy | P22 HA1 | Tir yn Crossways Court | 38 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Hawy | P22 HA2 | Tir wrth ymyl Stad Goylands | 12 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Cnwclas | P25 HA1 | Tir yn Castle Green | 17 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Llanbrynmair | P26 HA1 | Tir i'r gorllewin o Fryncoch | 19 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llandinam | P27 HA1 | Tir gyferbyn â Safle Old Barn Close | 8 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llandrinio | P29 HA1 | Gwernybatto Tir oddi ar Orchard Croft | 30 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanfechain | P31 HA1 | Tir i'r gogledd o Eglwys Llanfechain | 25 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llangurig | P33 HA1 | Tir ger Maesllan | 19 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant | P36 HA1 | Tir ym Maes yr Esgob | 19 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llansantffraid-ym-Mechain | P37 HA1 | Tir yn Fferm Spooney | 22 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llansantffraid-ym-Mechain | P37 HA2 | Tir ger. Maes y cain | 13 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llanymynech | P40 HA1 | Tir ger Parc Llwyfen | 11 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanymynech | P40 HA2 | Tir oddi ar Lôn Carreghofa | 20 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanllŷr | P41 HA1 | Tir yn Fferm Llanllyr-yn-Rhos | 19 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Meifod | P43 HA1 | Gwaith Pentre a thir gerllaw | 45 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Treberfedd | P44 HA1 | Tir i'r gorllewin o Golfa Close | 19 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Penybontfawr | P49 HA1 | Tir i'r dwyrain o Ysgol Pennant | 11 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Pontrobert | P50 HA1 | Tir yn Y Fferm | 6 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Llanandras | P51 MUA1 | Cyn safle Ffowndri Kaye | 60 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Aberllynfi | P53 MUA1 | Tir rhwng / wrth ymyl Gwernyfed Avenue | 32 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Tregynon | P55 HA1 | Tu cefn i Gapel Bethania | 24 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |
| Trewern | P56 HA1 | Tir i'r dwyrain o Ysgol Trewern | 27 | Dyrannwyd, Dim Caniatâd |

**Tabl 23. Polisi H2 b) Statws yr Ymrwymiadau Tai ar 1 Ebrill 2021**

| Anheddiad | Cyfeirnod y Safle | Lleoliad y Safle | Nifer yr Unedau | Statws |
|---|---|---|---|---|
| Llanfair-ym-Muallt a Llanelwedd | P08 HC1 | Safle Warws The Old Skin, Ffordd Aberhonddu | 7 | Cwblhawyd |
| Llanfair-ym-Muallt a Llanelwedd | P08 HC2 | Garej Ffordd y Gelli | 11 | Dechreuwyd |
| Llanfair-ym-Muallt a Llanelwedd | P08 HC3 | Ysbyty Llanfair-ym-Muallt | 17 | Cwblhawyd |
| Tref-y-clawdd | P24 HC1 | Cyn ffatri ddillad, West Street | 21 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Tref-y-clawdd | P24 HC2 | Safle cyn ffatri mowldiau trafford | 18 | Mae'r Caniatâd wedi Dod i Ben |
| Llandrindod | P28 HC1 | Tir ar Fferm y Gât | 10 | Mae'r Caniatâd wedi Dod i Ben |
| Llandrindod | P28 HC2 | Highland Moors | 16 | Cwblhawyd |
| Llandrindod | P28 HC3 | Safle ger Autopalace | 22 | Dechreuwyd |
| Llanfyllin | P32 HC1 | Ger 38 Maes Y Dderwen | 14 | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llanidloes | P35 HC1 | Lower Green, Victoria Avenue | 31 | Dechreuwyd |
| Llanidloes | P35 HC2 | Tir yn Hafren Furnishers | 23 | Mae’r Caniatâd wedi Dod i Ben |
| Llanidloes | P35 HC3 | Tir ger Mynwent Dolhafren | 31 | Cwblhawyd |
| Llanwrtyd | P39 HC1 | Cae’r Ficerdy, Beulah Road | 7 | Dechreuwyd |
| Llanwrtyd | P39 HC2 | OS 2664 Caemawr, oddi ar Ffos Road | 47 | Dechreuwyd |
| Llanwrtyd | P39 HC3 | OS 1451 Meadow View, Ffordd yr Orsaf | 19 | Dechreuwyd |
| Trefaldwyn | P45 HC1 | Tir yn New Road | 13 | Cwblhawyd |
| Y Drenewydd | P48 HC1 | Heol Pengwern | 50 | Cwblhawyd |
| Y Drenewydd | P48 HC2 | Bryn Lane | 65 | Dechreuwyd |
| Y Drenewydd | P48 HC3 | Ffordd Croesawdy | 29 | Cwblhawyd |
| Y Drenewydd | P48 HC4 | Tir yn Severn Hts, (Brimmon Close) | 23 | Dechreuwyd |
| Y Drenewydd | P48 HC5 | Fferm Rock | 103 | Dechreuwyd |
| Y Drenewydd | P48 HC6 | Tu cefn i’r Eglwys Efengylaidd | 27 | Cwblhawyd |
| Y Drenewydd | P48 HC8 | Hen Lys Ynadon ac adeilad TA, Lôn Gefn | 23 | Cwblhawyd |
| Y Drenewydd | P48 HC9 | Iard Severnside, Commercial Street | 48 | Cwblhawyd |
| Y Drenewydd | P48 HC10 | 1 Wesley Place | 6 | Cwblhawyd |
| Llanandras | P51 HC1 | Safle Ffordd Tref-y-clawdd | 11 | Cwblhawyd |
| Rhaeadr | P52 HC1 | Nant Rhyd-Hir | 18 | Cwblhawyd |
| Rhaeadr | P52 HC2 | Hen Ddepo Cyflenwi Adeiladwyr | 10 | Cwblhawyd |
| Y Trallwng | P57 HC1 | Tir Burgess, Red Bank | 73 | Dechreuwyd |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HC1 | Tir R/O Jeffrey's Arms, Ffordd Aberhonddu | 18 | Dechreuwyd |
| Ardal Ystradgynlais | P58 HC2 | Ysgol y Gurnos School, Cwmtwrch Isaf | 45 | Cwblhawyd |
| Bettws Cedewain | P05 HC1 | Bryn Bechan | 10 | Dechreuwyd |
| Bochrwyd & Llyswen | P06 HC1 | Y Depo, Bochrwyd | 12 | Cwblhawyd |
| Bochrwyd & Llyswen | P06 HC2 | Beeches Park, Bochrwyd | 5 | Cwblhawyd |
| Bronllys | P07 HC1 | Tir ger Cwrt Bronllys | 34 | Cwblhawyd |
| Caersws | P09 HC1 | Rhan o Buck Hotel, Main Street | 5 | Dechreuwyd |
| Castell Caereinion | P11 HC1 | Tir yn Swallows Meadow | 31 | Dechreuwyd |
| Yr Ystog | P12 HC1 | Tir ym Maes Neuadd (tu cefn i Neuadd y Bentref) | 16 | Dechreuwyd |
| Yr Ystog | P12 HC2 | Tir yn y Garej | 6 | Disodlwyd |
| Yr Ystog | P12 HC3 | Tir yn y Ddeorfa | 12 | Cwblhawyd |
| Yr Ystog | P12 HC4 | Tir wrth ymyl The View | 11 | Dechreuwyd |
| Cleirwy | P13 HC1 | Tir i’r dwyrain o Gleirwy (A) | 21 | Dechreuwyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Groes | P16 HC1 | Oaktree Meadows | 15 | Dechreuwyd |
| Cegidfa | P20 HC1 | Sarn Meadows | 46 | Dechreuwyd |
| Ceri | P23 HC1 | Dolforgan View | 62 | Dechreuwyd |
| Cnwclas | P25 HC1 | Hen Waith yr Orsaf | 6 | Mae'r Caniatâd wedi Dod i Ben |
| Llanbrynmair | P26 HC1 | Bryncoch | 5 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Llansantffraid-ym-Mechain | P37 HC1 | Tir oddi ar Ffordd Spoonley | 12 | Cwblhawyd |
| Llansantffraid-ym-Mechain | P37 HC2 | Bronhyddon. Llansantffraid | 5 | Cwblhawyd |
| Llansilin | P38 HC1 | Tir gyferbyn â'r Wynnstay Inn | 23 | Dechreuwyd |
| Llanymynech | P40 HC1 | PT OS 3978, Oddi ar Teras Ashfield | 13 | Cwblhawyd |
| Llanllŷr | P41 HC1 | Tir rhwng Moorlands a Llyr | 12 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Maesyfed | P46 HC1 | Fferm Water Street | 14 | Caniatâd Cynllunio, Heb ei Ddechrau |
| Pontnewydd-ar-Wy | P47 HC1 | Y Berllan | 5 | Cwblhawyd |
| Pontnewydd-ar-Wy | P47 HC2 | Tir yng Nghae Tyler | 26 | Cwblhawyd |
| Trefeglwys | P54 HC1 | Tir i'r gorllewin o Lwyncelyn (Cam 2) | 17 | Cwblhawyd |

**Tabl 24. Statws Polisi H11 ar 1 Ebrill 2021, Dyraniadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

| Cyfeirnod | Enw'r Safle | Nifer y lleiniau | Statws |
|---|---|---|---|
| **P42 HC1** | Tir wrth ymyl y Fynwent, Heol y Drenewydd, Machynlleth | 5 | Cwblhawyd 5 llain. |
| **P57 HC2** | Tir yn Leighton Arches, Y Trallwng | 2 | Cwblhawyd 2 lain. |

**Tabl 25. Statws Polisïau E1 ac E3 ym mis Tachwedd 2021, Dyraniadau Cyflogaeth ac Ymrwymiadau a Dyraniadau Defnydd Cymysg**

| Cyfeirnod | Enw'r Safle | Maint yr Ardal Datblygu Cyflogaeth (hectarau) | Statws |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **P02 EA1** | Parc Busnes Abermiwl, Abermiwl | 2.6 | Dechreuwyd (2.6 hectar) |
| **P08 EA1** | Parc Menter Glannau Gwy, Llanfair-ym-Muallt | 0.7 | Dim caniatâd cynllunio |
| **P08 EC1** | Parc Menter Glannau Gwy, Llanfair-ym-Muallt | 0.5 | Caniatâd cynllunio blaenorol |
| **P12 EA1** | Yr Ystog | 1.28 | Gweithredwyd caniatâd cynllunio (0.66 hectar)<br>Dim caniatâd cynllunio (0.62 hectar) |
| **P18 EA1** | Four Crosses | 0.5 | Dechreuwyd (0.17 hectar)<br>Dim caniatâd cynllunio (0.24 hectar) |
| **P28 EA1** | Parc Busnes Calon Cymru, Llandrindod | 3.9 | Dim caniatâd cynllunio |
| **P35 EA1** | Parc Busnes Derwen Fawr, Llanidloes | 1.2 | Dim caniatâd cynllunio. |
| **P35 EA2** | Parc Hafren, Llanidloes | 1.2 | Cwblhawyd (0.8 hectar)<br>Dim caniatâd cynllunio (0.4 hectar) |
| **P35 EC1** | Parc Hafren, Llanidloes | 0.5 | Cwblhawyd (0.5 hectar) |
| **P42 EA1** | Parc Menter Treowain, Machynlleth | 1.7 | Dim caniatâd cynllunio |
| **P48 EA1** | Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd | 2 | Dim caniatâd cynllunio |
| **P51 EA1** | Parc Busnes Broadaxe, Llanandras | 2.4 | Cwblhawyd (1.5 hectar)<br>Dechreuwyd (0.08 hectar)<br>Dim caniatâd cynllunio (0.7 hectar) |
| **P52 EA1** | Parc Menter Brynberth, Rhayader | 3.7 | Dim caniatâd cynllunio |
| **P57 EC1** | Parc Menter, Buttington Cross, Y Trallwng | 1.5 | Cwblhawyd |
| **P58 EA1** | Parc Busnes Woodlands, Ystradgynlais | 2.31 | Dim caniatâd cynllunio |
| **P59 EA1** | Chwarel Buttington, Trewern | 6 | Dechreuwyd 0.43 hectar<br>Cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i ddod ar ran o'r safle |
| **P60 EC1** | Parc Busnes Clawdd Offa, Y Trallwng | 7.3 | Caniatâd cynllunio (1.76 hectar)<br>Cwblhawyd (5.14 hectar) |
| **P21 MUA1** | Gypsy Castle Lane, Y Gelli | 2.4 | Dim caniatâd cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **P53 MUA1** | Tir yn cyffinio â Gwernyfed Avenue, Aberllynfi | 3.4 | Caniatâd cynllunio (datblygiad masnachol) |

**Tabl 26. Statws Polisi R2 ar 1 Ebrill 2021, Dyraniad Manwerthu**

| Cyfeirnod | Enw'r Safle | Maint yr Ardal Datblygu Manwerthu (hectarau) | Statws |
|---|---|---|---|
| **P51 MUA1** | Cyn safle Ffowndri Kaye, Llanandras | 0.4 (er mwyn darparu 1000 metr sgwâr o arwynebedd llawr manwerthu net) | Dim caniatâd cynllunio |

## ATODIAD D Crynodeb o’r Sylwadau ac Ymateb y Cyngor

| Rhif | Gan bwy | Crynodeb o’r sylwadau | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| 1. | Cymdeithas Camlesi Abertawe | **Twristiaeth a’r amgylchedd hanesyddol**<br>O blaid diogelu mwy ar dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol Powys a’r manteision i dwristiaeth. Cyfeirio at waith adfer ar Gamlas Abertawe a’r holl henebion archaeoleg diwydiannol sydd wedi goroesi yn ardal de Powys o gwmpas ardaloedd Ystradgynlais ac Abercraf, gan gyfeirio at amrywiol gyhoeddiadau, rhestri a mynegai. Yn ystyried yr henebion diwydiannol a restrir yn yr ymateb i fod yn werth eu cynnwys yn y rhestri o strwythurau sydd i’w gwarchod a’u hyrwyddo er mwyn cefnogi’r agweddau treftadaeth a diwylliannol ynghyd â photensial twristiaeth Sir Powys. | **Twristiaeth a’r amgylchedd hanesyddol**<br>Mae’r Cyngor yn nodi’r ymateb manwl a roddir yng nghyswllt hanes Camlas Abertawe a’r strwythurau a gofnodir i fod wedi goroesi, ynghyd â’r manteision i dwristiaeth. Bydd testun ychwanegol yn cael ei gynnwys o dan adran 8.5 yn yr Adroddiad Adolygu ar ystyried nodweddion treftadaeth a thwristiaeth pwysig fel rhan o’r LDP diwygiedig. |
| 2. | Yr Awdurdod Glo | **Nodweddion ac adnoddau pyllau glo a pheryglon posib**<br>Cyfeirio at gofnodion yr Awdurdod Glo ar nodweddion pyllau glo (nodweddion mwyngloddio ac adnoddau glo ar yr wyneb) ar yr wyneb ac yn agos i’r wyneb yn ardal Cyngor Sir Powys, a hefyd at yr adnoddau glo wyneb yn yr ardal, gan gyfeirio at gyngor cynllunio ar hyn.<br>Hefyd yn cyfeirio at gasgliad yr adolygiad o ran cadw Polisi DM10 Tir Ansad a Halogedig, heb unrhyw wrthwynebiad ar yr amod bod y polisi’n cynnwys bod angen ystyried y peryglon posib a gyflwynir gan hen waith pyllau glo. | **Nodweddion ac adnoddau pyllau glo a pheryglon posib**<br>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd. Fel y noda’r Adroddiad Adolygu, nid oes angen i bolisïau’r LDP ddiogelu adnoddau glo mwyach, fel yr eglurir ym Mholisi Cynllunio Cymru (para. 5.10.17). Fodd bynnag, bydd testun ychwanegol yn cael ei gynnwys o dan adran 8.11 yr Adroddiad Adolygu i adlewyrchu ystyriaethau’n ymwneud â nodweddion ac adnoddau pyllau glo wrth adolygu polisi DM10 yr LDP. |
| 3. | YDCW Sir Drefaldwyn | **Tai**<br>Mae angen adolygu dyraniadau tai a’r system haenau anheddiad fel na fydd aneddiadau llai’n destun yr un cynigion mawr â threfi. Materion yn ymwneud â’r effaith ar seilwaith, adnoddau a chymunedau, cyfleoedd gwaith, | **Tai**<br>Fel y noda’r Adroddiad Adolygu, bydd strategaeth ofodol yr LDP, gan gynnwys y dyraniadau a’r haenau anheddiad, yn cael eu hadolygu fel rhan o broses diwygio’r LDP, wedi’i goleuo gan Asesiad Aneddiadau. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i’r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | teithio ac ôl-troed carbon. Mae angen ystyried cymeriad y safle ac anghenion yr anheddiad a'r ardal.<br>**Storio carbon**<br>Mae angen diogelu priddoedd mawn a thywyll oddi wrth ddatblygiadau anaddas, diwydiannol eu maint.<br>**Ardaloedd a rag-aseswyd**<br>Rhestru'r ffactorau heb eu hystyried, angen asesiad llawn a phroses ymgynghori i ddiwygio'r Ardaloedd a Rag-aseswyd ar lefel leol, ynghyd â dadansoddiad budd i ystyried yr anfanteision, difrod posib a llai o wynt.<br>**Unedau Amaethu Dwys**<br>O blaid bod angen polisi gyda chanllawiau trylwyr, rhaid ystyried agosrwydd unrhyw dai digysylltiad, ac effeithiau priffyrdd gwaredu tail.<br>**Teithio llesol**<br>Angen mesurau i annog cerdded a beicio rhwng cymunedau a pheidio ei gyfyngu ar sail maint y boblogaeth, heb fawr neu ddim trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau llai.<br>**Y Tirlun**<br>Angen cyflawni a chymhwyso hwn yn drylwyr fel rhan o'r broses gynllunio ynghyd â diogelu'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas, a phwysigrwydd tirlun Powys fel adnodd i gael blaenoriaeth fel ystyriaeth drwy gydol y broses.<br>**Ymrwymiadau cynllunio**<br>Angen cynnwys cyllid i gynnal adnoddau cymunedol am byth bythoedd, efallai dan ofal Cynghorau Tref a Chymuned y dylid ymgynghori â nhw'n gynnar yn y broses i sicrhau yr enillir y manteision cynllunio iawn i'r gymuned. | **Storio carbon**<br>Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd polisi DM13 yr LDP, sy'n cynnwys meini prawf yn ymwneud â mawn trwchus, yn cael ei ailystyried fel rhan o'r LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Ardaloedd a rag-aseswyd**<br>Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud â pholisi cynllunio cenedlaethol yn Dyfodol Cymru a PPW, sy'n cynnwys polisïau manwl a meini prawf ar gyfer asesu cynigion ynni gwynt yn yr ardaloedd hyn. Noda PPW na ddylai Awdurdodau Cynllunio Lleol geisio diwygio'r ardaloedd a rag-aseswyd o fewn eu ffiniau oherwydd maen nhw'n rhan o'r cynllun datblygu. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Unedau amaethu dwys**<br>Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd polisïau amaeth yr LDP yn cael eu hailystyried i adlewyrchu newidiadau cyd-destun. Bydd testun ychwanegol yn cael ei gynnwys o dan adran 8.2 yr Adroddiad Adolygu i nodi'n gliriach y bwriedir ystyried cynnwys polisi priodol ar gyfer datblygiadau amaethu dwys yn yr LDP diwygiedig.<br>**Teithio llesol**<br>Noda'r Cyngor y sylwadau ar deithio llesol fydd yn ystyriaeth bwysig i'r LDP diwygiedig ac yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Asesiad Aneddiadau. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Y Tirlun**<br>Bydd yr Asesiad Cymeriad Tirlun Lleol yn goleuo strategaeth, polisïau a chynigion yr LDP a bydd hefyd yn darparu Canllawiau Cynllunio Atodol i oleuo cynigion datblygu a phenderfyniadau cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cynnwys polisi cenedlaethol ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, fydd yn cael ei ystyried yn y broses dethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | safleoedd. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Ymrwymiadau cynllunio**<br>Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd y dulliau o ddarparu seilwaith i gyd-fynd â datblygiadau'n cael eu hystyried fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ymrwymiadau Cynllunio hefyd yn cael eu hadolygu, gan gynnwys ystyried sut y mae ymrwymiadau'n cael eu rheoli. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 4. | Cadw, Cangen Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru | **Ymgynghori â Cadw a CPAT**<br>Dim sylwadau ond atgoffa bod angen ymgynghori â Cadw fel rhan o'r broses SEA a'i bod yn bwysig ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (CPAT) sy'n cael eu hariannu i roi cyngor yn ystod y broses LDP, ar faterion archaeolegol. | **Ymgynghori â Cadw a CPAT**<br>Noda'r Cyngor ei atgoffa i ymgynghori â Cadw fel rhan o'r broses SEA sy'n gysylltiedig â'r LDP diwygiedig. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymgysylltu â CPAT wrth adolygu'r LDP a bydd yn parhau i wneud hynny fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 5. | United Utilities | **Seilwaith dŵr**<br>Yn dymuno gweithio mewn partneriaeth ac yn rhagweithiol i adnabod anghenion a rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac UU. Yn rhoi manylion cyswllt i ddatblygwyr gael gofyn am a derbyn cyngor cyn-gais am ddim ar wastraff a dŵr. Yn pwysleisio bod angen diogelu asedau seilwaith dŵr strategol a bod angen ymgysylltu'n gynnar ar ddyraniadau arfaethedig yng ngham yr LDP diwygiedig er mwyn cadarnhau cyfyngiadau a goblygiadau. Cais i barhau i ymgynghori wrth i'r Cynllun symud ymlaen. | **Seilwaith dŵr**<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pa mor berthnasol yw'r materion a godir wrth baratoi'r LDP diwygiedig o ran cynllunio seilwaith, y broses dethol safleoedd ac i hyrwyddwyr safleoedd, ac fel rhan o'r Asesiad Aneddiadau er mwyn adnabod cyfleoedd a chyfyngiadau. Bydd y Cyngor yn parhau i ymgynghori ag United Utilities fel rhan o broses yr LDP diwygiedig ac ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 6. | Network Rail | **Seilwaith rheilffyrdd**<br>Mae polisïau'n ymwneud â gwarchod a gwella'r seilwaith rheilffyrdd yn berthnasol a gallai cyfraniad gan y datblygwr fod yn ofynnol ar gyfer cynlluniau datblygu. Yn atgoffa'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r ddyletswydd statudol i | **Seilwaith rheilffyrdd**<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod perthnasedd y materion a godir i'r LDP diwygiedig o ran cynllunio seilwaith, cynlluniau datblygu'n agos at reilffyrdd ac effaith bosib unrhyw ddatblygiad newydd ar weithrediad y defnydd a wneir o reilffyrdd a chroesfannau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymgynghori ar effaith datblygiad ar groesfannau rheilffordd a bod y datblygwr yn ariannu unrhyw welliannau sy'n ofynnol. Cais cwrtais i ymgynghori â Network Rail ar unrhyw bolisi, cyn-gais neu gais cynllunio yn y dyfodol os cyflwynir rhai ar gyfer safleoedd gerllaw neu'n agos i reilffordd, oherwydd gallai'r datblygiad effeithio ar weithrediad y rheilffordd, e.e. defnyddio croesfan a / neu orsaf reilffordd gerllaw a byddai Network Rail yna'n gwneud sylwadau penodol fel bo angen. | Bydd y Cyngor yn parhau i ymgynghori â Network Rail fel rhan o broses yr LDP diwygiedig ac ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 7. | Glandŵr Cymru – yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru | **Camlas Trefaldwyn**<br>Sylwadau'n ymwneud â Pholisi TD3 yr LDP. Mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cyngor ar sut orau i sicrhau parhad statws a natur amlbwrpas bwysig y Gamlas, ac ar gefnogi adferiad y Gamlas a sicrhau nad yw datblygiadau yn y dyfodol yn amharu ar y gwaith adfer, ac ar gysoni blaenoriaethau rhanbarthol. Byddai'n well gennym gael polisi ar wahân ar Gamlas Trefaldwyn er mwyn rhoi sylw i'r gwahanol feysydd pwnc perthnasol, gan gynnwys yr awgrym y gallai ddod o dan bennod ar Drafnidiaeth / Gwarchod yr Amgylchedd yn yr LDP. Cynnig gweithio gyda'r Cyngor i ddrafftio'r geiriad posib ar gyfer polisi ar Gamlas Trefaldwyn. | **Camlas Trefaldwyn**<br>Noda'r Cyngor y sylwadau a dderbyniwyd ar Gamlas Trefaldwyn. Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd Polisi TD3 presennol yr LDP yn cael ei ailystyried i adlewyrchu rôl y Gamlas ar draws nifer o feysydd pwnc yn yr LDP ac o ran pa bennawd y dylai'r polisi fod o dano yn yr LDP. Bydd y Cyngor yn parhau i ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 8. | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau Cymru | Cefnogi'r Diwygiad Llawn arfaethedig o'r cynllun.<br>**Diogelu Mwynau**<br>Pryderon wedi eu lleisio gan yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar anghysondebau gyda gweithredu Polisi DM8 yr LDP. Mae hyn yn destun pryder mawr i'r diwydiant mwynau. Bydd angen i'r Cyngor gadarnhau sut y bydd yn datrys hyn.<br>**Datganiad Technegol Rhanbarthol**<br>Anghytuno â rhai datganiadau yn yr Adroddiad Adolygu ar beth fydd y gofynion o ran dyraniadau agregau tywod a | Nodir y gefnogaeth. Cafwyd cyngor technegol ar lefel ranbarthol er mwyn ymateb i'r sylwadau hyn, sy'n nodi rhai gwallau yn ymateb MPA Cymru.<br>**Diogelu mwynau**<br>Nodir y pryder. Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd mwy o hyfforddiant i swyddogion a mapio cyfyngiadau'n helpu, ynghyd â geiriad polisi diwygiedig, i wella eglurder fel rhan o'r LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Datganiad Technegol Rhanbarthol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gro yn y dyfodol. Tynnu sylw bod angen i newidiadau yn y cronfeydd mwynau gael eu hadlewyrchu yn nhystiolaeth y Cyngor. Bydd y banc tir yn disgyn o dan faint sy'n ofynnol yn ystod cyfnod tymor canolig yr LDP diwygiedig. Tynnu sylw bod angen Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol (SSRC) fel y noda'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Dylai'r angen am ddyraniadau gael ei ystyried yn yr LDP diwygiedig a bydd angen i'r Cynllun gyfeirio at fod angen banc tir 10 mlynedd o leiaf o graig fâl drwy gydol cyfnod y Cynllun a bod angen adolygu'r RTS bob 5 mlynedd. Cyfeirio at PPW, sylw bod cronfeydd mwynau ym Mhowys heb os o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn croesawu bod y Cyngor yn ystyried cyd-destun ehangach y cronfeydd.<br>**Gofynion tystiolaeth newydd – Cynllun Seilwaith**<br>Dylai cynigion seilwaith newydd gael eu cefnogi gan asesiad adnoddau ac archwiliadau cadwyn gyflenwi cysylltiedig i adnabod faint o ddeunyddiau crai sydd ei angen i ddarparu'r seilwaith, a ffynonellau'r deunyddiau.<br>**Polisi tai newydd am hen**<br>O blaid polisïau sy'n ceisio cadw'r bensaernïaeth leol, ond mae angen agwedd bositif tuag at gyflenwi cerrig adeiladu lleol sy'n helpu i gynnal cymeriad ardal.<br>**Canllawiau Cynllunio Atodol**<br>Awgrymu cyflwyno canllawiau priodol ar Ddiogelu Mwynau ar y cyfle cyntaf posib.<br>**Gweithio'n gydweithredol**<br>Cais i gyfeirio at y Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol (SSRC) a nodir yn yr Ail Adolygiad o'r RTS, o gofio bod Powys yn cael ei gydnabod fel cyflenwr cynhyrchion mwynau pwysig ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. | Mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor ar y sylwadau a gyflwynwyd ac yn anghytuno â'r pwyntiau a wneir ar gyfrifiadau ar y banc tir a hefyd ar y cynnwys o ran tywod a gro a gloddir o'r tir. Mae para 5.2.7 o'r Adroddiad Adolygu'n nodi beth y mae Datganiadau RTS2 yn ei ddatgan fel cronfeydd a banc tir. Dengys Adroddiad Blynyddol SWRAWP 2019 (yr un diweddaraf) fod y banc tir wedi cynyddu i fwy na 50 mlynedd. O ran yr angen am SSRC, mae Powys yn isranbarth yn ei hawl ei hun ac felly nid oes angen iddo ond cytuno â fo ei hun, nid yw'n ymwneud â gofynion Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill. Mae'r sylwadau ar dywod a gro a gloddir o'r tir yn anghywir oherwydd nid oes gofyniad ar gyfer Powys.<br>**Gofynion tystiolaeth newydd – Cynllun Seilwaith**<br>Bydd sgôp y Cynllun Seilwaith yn cael ei benderfynu fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Polisi tai newydd am hen**<br>Bydd Polisi H9 yr LDP yn cael ei ddiwygio i roi sylw i faterion yn ymwneud â gweithredu'r polisi, fel y noda'r Adroddiad Adolygu. Bydd manylion y polisi a'r sgôp i fynd i'r afael â chyflenwi cerrig adeiladu lleol yn cael eu hystyried fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Canllawiau Cynllunio Atodol**<br>Yn ogystal ag adolygu'r canllawiau SPG mabwysiedig, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn adnabod yr angen am ganllawiau SPG newydd i gynorthwyo gweithredu polisïau'r LDP diwygiedig. Bydd yr angen am ganllawiau SPG i gynorthwyo'r polisi diogelu mwynau'n cael ei ystyried. Testun ychwanegol i'w fewnosod o dan adran 8.14 i gadarnhau hyn.<br>**Gweithio'n gydweithredol**<br>Mae'r Adroddiad Adolygu'n cyfeirio droeon at yr RTS ac fel yr eglurwn uchod nid yw proses yr SSRC yn berthnasol i Bowys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 9. | Fforwm Mynediad Lleol Powys | Yn croesawu'r cynnig i baratoi LDP diwygiedig.<br>**Hawliau tramwy cyhoeddus**<br>Nid oes cyfeiriad at golli mynediad at hawliau tramwy cyhoeddus oherwydd diffyg cynnal a chadw, rhwystro a datblygiadau anghyfreithlon, a dylid tynnu sylw at hyn. Gofyn i'r warchodaeth a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer mannau agored cyhoeddus gael eu hymestyn i ystyried hawliau tramwy. Mae cyflwr presennol hawliau tramwy ym Mhowys yn cael effaith andwyol ar apêl yr ardal i dwristiaid.<br>**Asesiad seilwaith gwyrdd**<br>Gofyn am asesiad penodol o gyflwr hawliau tramwy ym Mhowys sy'n cynnwys faint ohonynt sy'n hygyrch a hawdd eu defnyddio.<br>**Problemau trafnidiaeth**<br>Gofyn am gynnwys marchogion ceffylau ynghyd â cherdded a beicio, gan gynnwys rhai gyda thrafferthion symudedd, ac i ba raddau y mae'r seilwaith presennol yn darparu'n briodol ar eu cyfer. Bydd hefyd yn bwysig ystyried a ellid defnyddio priffyrdd nad ydynt yn cael eu cynnal yn gyhoeddus mwyach, a Llwybrau Eraill gyda Mynediad i'r Cyhoedd (ORPA), i wella'r seilwaith trafnidiaeth.<br>**Ymrwymiadau cynllunio**<br>Gofyn am asesiad o ymdrechion y Cyngor i wneud y mwyaf o'r ymrwymiadau hyn pan fydd ceisiadau cynllunio'n agos at, neu, ar safleoedd datblygu, a chwestiynu cyflwyno Lefi Seilwaith Cymunedol i ddisodli ymrwymiadau cynllunio. | Nodir y gefnogaeth.<br>**Hawliau tramwy cyhoeddus**<br>Nid yw canlyniadau Adroddiad Monitro Blynyddol yr LDP, a grynhoir yn yr Adroddiad Adolygu, yn nodi'r mynediad a gollir at hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd Polisi SP7 yr LDP, ynghyd â Pholisi DM13 sy'n cynnwys maen prawf yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus, yn cael eu hailystyried fel rhan o'r LDP diwygiedig, a pha mor effeithiol y mae'r polisïau hyn wedi cael eu gweithredu. Mae rhai o'r materion a godir yn cael sylw gan yr adran Priffyrdd yn hytrach na Chynllunio a gallai fod yn rhan o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Bydd angen i'r LDP diwygiedig ystyried hawliau tramwy cyhoeddus yng nghyd-destun Seilwaith Gwyrdd. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Asesiad seilwaith gwyrdd**<br>Bydd hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu hystyried ond efallai na fydd sgôp hyn yn cynnwys asesu eu cyflwr. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Problemau trafnidiaeth**<br>Nodir y sylwadau hyn a lle bo'n berthnasol bydd yn cael ei ystyried fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Nodir y sylwadau ar lwybrau trafnidiaeth segur a bydd testun ychwanegol yn cael ei gynnwys ym mhara. 8.3.3 ac Atodiad B yr Adroddiad Adolygu, i adlewyrchu'r ystyriaeth hon.<br>**Twristiaeth**<br>Nodir y sylwadau hyn – wele'r ymateb uchod ar hawliau tramwy. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Ymrwymiadau cynllunio** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd y dulliau o ddarparu seilwaith i gyd-fynd â datblygiadau'n cael eu hystyried fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a ddylai'r Cyngor ddilyn proses Lefi Seilwaith Cymunedol. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 10. | Cerddwyr Powys | Dalier sylw: Mae'r sylwadau gan Gerddwyr Powys yr un fath â'r rhai a dderbyniwyd gan Fforwm Mynediad Lleol Powys, ac eithrio'r ffaith nad yw Cerddwyr Powys wedi sôn am farchogion yn eu hymateb. | Wele'r ymateb uchod i Fforwm Mynediad Lleol Powys. |
| 11. | Man Gwyrdd Cymunedol Llanigon | **Twf tai**<br>Datblygiad diweddar ym mhentref bychan Llanigon a welodd gynnydd o 30%. Nid oes gan y pentref y rhwydwaith ffyrdd i dderbyn mwy o dwf a datblygiadau tai.<br>**Lles, cyfleusterau cymunedol a mannau agored cyhoeddus**<br>Angen man gwyrdd diogel yn y pentref i gryfhau'r gymuned a helpu i gynnal iechyd a lles y gymuned. Hefyd, i warchod adnoddau naturiol, byd natur a chynefinoedd. Yn dymuno gweld yr LDP diwygiedig yn cynnwys safle Ysgol Llanigon yn cael ei ddynodi'n Fan Gwyrdd Cymunedol, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau hamdden, chwaraeon, rhandiroedd ayyb. Mae'n bwysig gwarchod mannau agored a sicrhau bod yr adrannau cynllunio'n dilyn yr LDP. | **Twf tai**<br>Bydd yr LDP diwygiedig yn ailystyried y Strategaeth Twf Tai a Gofodol ar draws ardal LDP Powys (faint o dwf y dylen ni gynllunio ar ei gyfer a ble i leoli'r twf). Bydd yr LDP diwygiedig yn cael ei oleuo gan ganlyniadau'r asesiad aneddiadau, sy'n ceisio dadansoddi rôl a phwrpas pob anheddiad gan ystyried y cyfyngiadau i ddatblygu a pha gyfleoedd sydd i greu aneddiadau cynaliadwy. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Lles, cyfleusterau cymunedol a mannau agored cyhoeddus**<br>Mae iechyd a lles, cyfleoedd hamdden, gwarchod yr amgylchedd, a mannau gwyrdd (seilwaith gwyrdd) i gyd yn bynciau perthnasol. Mae'r DA yn cynnwys cyfeiriad at gam Safleoedd Ymgeisiol / Enwebiadau Safle, ac awgrymwn eich bod yn cyflwyno eich cynigion am Fan Gwyrdd Cymunedol ar gyfer y safle yn y cam hwnnw. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 12. | Hughes Architects | **Dyraniadau tai**<br>Mae diffyg darpariaeth tai'n awgrymu nad yw'r system dyraniadau safle'n gweithio. Mae'r ffocws ar ddyraniadau safle mwy mewn ardal sydd ag eiddo gwerth isel, ac felly | **Dyraniadau tai**<br>Bydd y Strategaethau Twf a Gofodol, gan gynnwys dyraniadau tai, yn cael eu hailystyried fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Bydd hyn yn cynnwys ystyried opsiynau i ddarparu tai, gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | llog isel gan ddatblygwyr preifat, yn arwain at y diffyg datblygu hwn. Awgrymu y dylid ystyried system fwy hyblyg sy'n caniatáu datblygu mwy o safleoedd llai. Dylid hefyd annog pobl i godi eu tai eu hunain ar leiniau tir 'untro'n unig'.<br>**Ffosffadau**<br>Mae'r cwestiwn ffosffadau'n golygu nad yw'n bosib datblygu llawer o'r Sir. Roedd datblygiadau preifat yn araf iawn, yn wir, bron ddim yn digwydd o gwbl cyn i'r mater hwn godi felly rhaid dod o hyd i ateb cyn gynted â phosib. | gynnwys drwy safleoedd bach, fel sy'n ofynnol gan PPW. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Ffosffadau**<br>Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol, drwy broses yr LDP diwygiedig, yn gallu cyfrannu at roi sylw i faterion sydd wedi codi, gan gynnwys effaith ffosffadau ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, fel y noda Adroddiad Adolygu'r LDP. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 13. | CRG (Grŵp Preswylwyr Pryderus) Caersws | **Llifogydd**<br>Os oes unrhyw amheuon llifogydd ar safle ymgeisiol arfaethedig, neu a allai gynyddu neu greu unrhyw broblemau i drydydd partïon, dylid craffu'n fwy trylwyr yn gynt ym mhroses yr LDP, er mwyn asesu unrhyw newidiadau hinsawdd mwy eithafol a allai ddod yn amlwg nes ymlaen, efallai hyd yn oed cyn rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio.<br>**Dyraniadau tai**<br>Cwestiynu pam fod cyn lleied o'r dyraniadau safle yn yr LDP wedi cael eu datblygu, ai oherwydd nad oeddent yn hyfyw ac wedi eu dyrannu ar y sail eu bod y "gorau o ddewis gwael" yn y pentref neu'r dref dan sylw. | **Llifogydd**<br>Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd polisïau llifogydd yr LDP yn cael eu hailystyried i adlewyrchu'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, ac yn cael eu goleuo gan Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, a ddefnyddir hefyd i asesu safleoedd ymgeisiol. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Dyraniadau tai**<br>Mae'r Adroddiad Adolygu'n cydnabod yr achosir y broblem o ddarparu twf tai'r LDP gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys pa mor gyflym y mae dyraniadau safle'n dod gerbron. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 14. | Unigolyn | Yn nodi bod y Rhagarweiniad yn ddefnyddiol iawn.<br>**Rhagolygon poblogaeth**<br>Oherwydd bod y Cyfrifiad yn rhan o'r data dechreuol ar ffigurau poblogaeth ayyb, y peth gorau fyddai aros tan y bydd ar gael. Dengys Tabl 9 fod y canlyniadau'n wael iawn, a rhaid cywiro hyn.<br>**Cynghorau Tref a Chymuned** | Nodir y gefnogaeth.<br>**Rhagolygon poblogaeth**<br>Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd y Cyfrifiad yn rhoi tystiolaeth bwysig i oleuo'r LDP diwygiedig a phroses gysylltiedig yr Asesiad Anheddiadau. Bydd proses yr LDP diwygiedig yn gyfle i'r Awdurdod Cynllunio ymateb i newidiadau i ragolygon poblogaeth ac aelwydydd. Ni chynigir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes sôn o gwbl am safiad a chyfrifoldebau Cynghorau Tref a Chymuned. Nhw yw'r haen gyntaf o lywodraeth ddemocrataidd, nid gwirfoddolwyr ond cynrychiolwyr etholedig y cyhoedd. | gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Cynghorau Tref a Chymuned**<br>Mae Ymgynghoriad Drafft y Cytundeb Darparu, a fu'n destun ymgynghori arno ochr yn ochr â'r Adroddiad Adolygu, yn egluro'r bwriad i gynnwys ymgyngoreion – gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned – ym mhroses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 15. | Ymddiriedolaeth Dolafon (Plymouth Bretheren Christian Church) | **Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol**<br>Nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at ddarparu addoldai cyhoeddus. Mae darparu addoldai wedi eu lleoli mewn mannau priodol (agos i'r gynulleidfa) yn hanfodol i greu dyfodol cynaliadwy i Bowys. | **Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol**<br>Mae Polisïau C1 a DM11 yn yr LDP mabwysiedig presennol yn darparu ar gyfer, a diogelu, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae addoldai wedi eu cynnwys mewn rhestr o enghreifftiau o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn yr LDP mabwysiedig presennol (para. 4.12.5). Byddwn yn ystyried darparu rhestr gynhwysfawr o gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus yn yr LDP diwygiedig, fel y mae'r Adroddiad Adolygu yn ei egluro. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 16. | Cyngor Tref y Gelli Gandryll | **Tai**<br>Gofyn a fyddai'n bosib cynnwys mesurau amgylcheddol-gyfeillgar ym mhob cartref cyngor newydd, plannu coed lle bo'n bosib a darparu cynefin bioamrywiaeth ychwanegol.<br>**Tai fforddiadwy**<br>Yn nodi bod y targed ar gyfer tai fforddiadwy wedi'i gyrraedd yng ngogledd Powys ond nid yn ne Powys. Gofyn am i gartrefi fforddiadwy gael blaenoriaeth yn ne Powys dros weddill cyfnod y Cynllun. Hefyd o'r farn y dylai nifer y cartrefi fforddiadwy y cynigir eu codi gan ddatblygwyr, cyn gwneud cais cynllunio, fod yn nifer wedi'i warantu unwaith y rhoddir caniatâd ac na ddylid caniatáu lleihau nifer y tai fforddiadwy drwy ddweud bod y costau'n uwch na'r disgwyl. | **Tai**<br>Mae angen i dai fforddiadwy a godir gan y Cyngor gwrdd â safonau ansawdd datblygu Llywodraeth Cymru er mwyn ateb dibenion cynllunio a grantiau cymdeithasol. Mae hefyd angen i'r tai hyn gwrdd â'r rheoliadau adeiladu diweddaraf sy'n cynnwys safonau arbed ynni uchel ynghyd â gofynion polisïau cynllunio, e.e. gwelliannau bioamrywiaeth. Cyfeiriwyd y sylwadau hyn at yr Awdurdod Tai Strategol am sylw. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Tai fforddiadwy**<br>Mae Adran 8.1 yn yr Adroddiad Adolygu'n egluro mai'r rheswm na wnaeth datblygiadau a ganiatawyd yn ardal is-farchnad Canol Powys gyrraedd targed y polisi yw oherwydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Datblygu economaidd**<br>Gofyn am ystyried trawsnewid Parc Iechyd Bronllys yn ysbyty cyffredinol o ystyried pa mor bell yw'r Gelli Gandryll o ysbyty cyffredinol.<br>**Trafnidiaeth**<br>O blaid rhoi blaenoriaeth i drafnidiaeth gyhoeddus ond yn dymuno cyfrannu mwy at y broses ymgynghori a phenderfynu er mwyn gwella trafnidiaeth gyhoeddus a'i gwneud yn fwy integredig. O ran Polisi 1 yr LDP, ni fyddai trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau mewn trefi cyfagos yn cwrdd â'r uchelgais o sicrhau system effeithlon, effeithiol ac integredig i sicrhau diogelwch pob defnyddiwr. O blaid bod angen lleihau'r defnydd o geir preifat a gweld mwy o gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Gofyn a fydd cynnal a chadw llochesi bws yn foddhaol yn cael ei gynnwys yn yr LDP diwygiedig. Hefyd, na ddylai unrhyw ddatblygiad ddigwydd ar linellau rheilffordd segur fel sydd wedi digwydd ar hen dir y rheilffordd rhwng Henffordd ac Abertawe.<br>**Siopau a chanol trefi**<br>O blaid mewn egwyddor, ond yn amodol ar ymgynghori, gweld siop gornel yn rhan o unrhyw ddatblygiad newydd yn y Gelli Gandryll (er enghraifft, ym mhen uchaf Gypsy Castle Lane).<br>**Cyfleusterau hamdden dan do a chymunedol**<br>Ynghylch anghysondeb gyda gweithredu Polisi DM11 yr LDP a chyfeirio at achos yn ymwneud â gwneud i ffwrdd â'r hen ganolfan gymunedol yn y Gelli Gandryll a chodi canolfan newydd yn ei lle, yn ôl addewid, a bod ystafell gymunedol fach yn y llyfrgell newydd yn anfoddhaol.<br>**Yr amgylchedd naturiol** | bod y safleoedd wedi derbyn caniatâd cynllunio o dan y Cynllun Datblygu Unedol blaenorol. Felly nid ydynt yn adlewyrchu gweithrediad polisïau'r LDP presennol. Mae ail-negodi niferoedd tai fforddiadwy ar sail hyfywedd yn cael ei ganiatáu gan bolisi cynllunio cenedlaethol a rhaid i bolisïau'r LDP gydymffurfio â hyn. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br><br><br>**Datblygu economaidd**<br>Nodir y sylwadau, fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r rhan(nau) perthnasol yn yr LDP fel rhan o broses yr LDP diwygiedig, ac ar-y-cyd â'r rhanddeiliaid perthnasol. Dylid cyfeirio at yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn y Cytundeb Darparu, sy'n cynnwys ffenestr ar gam yr Enwebiadau Safle (o dymor yr hydref 2022 ymlaen). Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Trafnidiaeth**<br>Noda'r Cyngor y sylwadau ar wella trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hwn yn fater i'w ystyried yn ofalus ym mhroses yr LDP diwygiedig wrth i bolisi cynllunio ar bob lefel (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) weithredu hierarchaeth o drafnidiaeth gynaliadwy i wella mynediad drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Nid yw cynnal a chadw llochesi bws yn fater cynllunio. Mae'r Adroddiad Adolygu'n egluro y bydd rheilffyrdd segur yn cael eu hadnabod a'r polisi'n cael ei ystyried fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Siopau a chanol trefi**<br>Mae'r Adroddiad Adolygu'n egluro y bwriedir ailystyried polisïau manwerthu'r LDP fel rhan o'r LDP diwygiedig. Ni ellir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | A fyddai'n bosib i Gyngor Sir Powys weithio'n agosach â Chynghorau Tref a Chymuned i helpu i ddynodi ardaloedd i'w hystyried ar gyfer gwarchod geoamrywiaeth?<br>**Ardaloedd awyr dywyll**<br>Gofyn a ellir hyrwyddo'r safleoedd Awyr Dywyll (e.e. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yn well gan eu bod yn gaffaeliad mawr i'r ardal, yn cysylltu pobl i'r amgylchedd naturiol a chreu manteision amgylcheddol lleol.<br><br>**Mannau agored cyhoeddus**<br>Yn gofyn a fyddai'n bosib cryfhau'r polisïau rhwng y timau Mannau Agored a Seilwaith Gwyrdd yng Nghyngor Sir Powys i greu mwy o synergedd a dull mwy holistig.<br>**Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**<br>Sylw nad yw'r Asesiad HRA yn pwysoli o gwbl ar gyfer effaith ar bobl, gan roi'r enghraifft o wahardd lansio canŵs o Bont Clas-ar-Wy a'r effaith ar y bobl sy'n ei defnyddio, a'r farn bod y manteision yn llawer mwy na'r manteision i gynefin yr afon. Dadlau y dylai'r HRA ystyried effaith Asesiadau HRA ar bobl.<br>**Ffosffadau**<br>Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddatrys y mater hwn yn syth oherwydd un o ganlyniadau hyn yw diffyg codi unrhyw dai fforddiadwy ar draws Powys, sy'n niweidiol i breswylwyr lleol. | ystyried gofynion safle-benodol yn y cam adolygu hwn. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Cyfleusterau hamdden dan do a chymunedol**<br>Rydym yn deall bod yr achos dan sylw wedi'i leoli y tu allan i ardal LDP Powys ac ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae materion a gododd gyda gweithredu polisi LDP Powys wedi eu hadnabod fel rhan o fonitro blynyddol yr LDP ac yn cael sylw fel rhan o'r LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br><br>**Yr amgylchedd naturiol**<br>Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyfrifol am ddynodi safleoedd o ddiddordeb geoamrywiaeth (a wneir gan UNESCO neu'n genedlaethol). Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Adolygu'n nodi bod angen ystyried geiriad Polisi DM2 yng nghyswllt geoamrywiaeth ac yng nghyd-destun seilwaith gwyrdd. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Ardaloedd awyr dywyll**<br>Mae Polisi DM7 yr LDP yn cydnabod Gwarchodfa Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r Adroddiad Adolygu'n adnabod bod materion wedi codi gyda gweithredu'r polisi hwn, fydd yn cael sylw fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Mannau agored cyhoeddus**<br>Mae'r Adroddiad Adolygu'n egluro y bydd integreiddio polisïau mannau agored a seilwaith gwyrdd yn cael ei ystyried fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r broses Asesiadau HRA yn cael ei llywodraethu gan reoliadau cenedlaethol er mwyn asesu effaith yr LDP ar bwysigrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig i warchod natur, ac felly nid yw'n asesu'r effaith ar bobl. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd o'r LDP diwygiedig yn ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yr LDP yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Ffosffadau**<br>Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol, drwy broses yr LDP diwygiedig, yn gallu cyfrannu at roi sylw i faterion sydd wedi codi, gan gynnwys effaith ffosffadau ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, fel y noda Adroddiad Adolygu'r LDP. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 17. | Clwyd Alyn Housing Ltd | **Anghenion tai a darparu tai**<br>Mae Clwyd Alyn Housing Limited (CAHL) yn un o brif ddarparwyr tai fforddiadwy a thai cymdeithasol eraill yn y Sir. Nid yw CAHL yn diystyru o gwbl pa mor anodd yw darparu tai ar draws Cymru a'r Sir. Fel un o bartneriaid y Cyngor, mae CAHL o blaid yr egwyddor o adolygu'r LDP yn gynnar er mwyn adolygu sut a ble y dylid lleoli tai i gwrdd ag anghenion tai'r Sir a dyheadau Llywodraeth Cymru i ddarparu aneddiadau a thai cynaliadwy a chwrdd ag anghenion poblogaeth y Sir. Dim sylwadau pellach yn y cam hwn. | **Anghenion tai a darparu tai**<br>Nodir y gefnogaeth. Bydd materion yn ymwneud ag anghenion a darparu tai fforddiadwy'n cael eu hystyried fel rhan o'r LDP diwygiedig, fel y noda'r Adroddiad Adolygu. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn trafod gyda Chymdeithasau Tai fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. |
| 18. | Bronllys Well Being Park CLT (Community Land Trust) Ltd | **Parc Iechyd Bronllys**<br>Gofyn am gadw'r Polisi E5 (Parc Iechyd Bronllys) presennol yn ei gyfanrwydd yn yr LDP diwygiedig: | **Parc Iechyd Bronllys**<br>Nodir y sylwadau, fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r rhan(nau) perthnasol yn yr LDP fel rhan o broses yr LDP diwygiedig, ac ar-y-cyd â'r rhanddeiliaid perthnasol. Dylid cyfeirio at yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn y Cytundeb Darparu, sy'n cynnwys ffenestr ar gam yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Polisi E5 – Parc Iechyd Bronllys: Bydd cynigion i ddatblygu safle Ysbyty Bronllys fel Parc Iechyd a Lles yn cael eu cefnogi. | Enwebiadau Safle (o dymor yr hydref 2022 ymlaen). Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 19. | Unigolyn | **Parc Iechyd Bronllys**<br>Gofyn am gadw'r Polisi E5 (Parc Iechyd Bronllys) presennol yn ei gyfanrwydd yn yr LDP diwygiedig:<br><br>Polisi E5 – Parc Iechyd Bronllys: Bydd cynigion i ddatblygu safle Ysbyty Bronllys fel Parc Iechyd a Lles yn cael eu cefnogi. | **Parc Iechyd Bronllys**<br>Nodir y sylwadau, fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r rhan(nau) perthnasol yn yr LDP fel rhan o broses yr LDP diwygiedig, ac ar-y-cyd â'r rhanddeiliaid perthnasol. Dylid cyfeirio at yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn y Cytundeb Darparu, sy'n cynnwys ffenestr ar gam yr Enwebiadau Safle (o dymor yr hydref 2022 ymlaen). Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |
| 20. | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Casgliad yr adolygiad**<br>Yn nodi'r casgliad mai gweithdrefn ddiwygio lawn a fyddai'r adolygiad mwyaf priodol oherwydd yr holl newidiadau polisi a chanllawiau.<br>**Newidiadau cyd-destun**<br>Yn croesawu'r cadarnhad y bydd yr LDP diwygiedig yn ystyried yr Ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiad Ardal Canolbarth Cymru. Hefyd yn cyfeirio at ddogfen Llywodraeth Cymru 'Canllaw i'r Hanfodion – Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'n Lles'. Yn annog y Cyngor i ystyried sut y gellir defnyddio Datganiadau Ardal i ategu a gwella'r LDP diwygiedig drwy greu papur pwnc neu bapur tystiolaeth i ystyried, yn benodol, Dyletswydd Adran 6 a Datganiad Argyfwng Hinsawdd y Cyngor.<br>**Fframwaith monitro'r LDP diwygiedig**<br>Ni ddylai hyn fod ond yn ddiweddariad ar y fframwaith presennol, dylai adeiladu ar ffocws Argyfwng Hinsawdd y Cyngor a pholisi a chanllawiau cenedlaethol eraill.<br>**Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)** | **Casgliad yr adolygiad**<br>Nodir y sylwadau.<br>**Newidiadau cyd-destun**<br>Bydd testun ychwanegol yn cael ei fewnosod o dan adran 5 yr Adroddiad Adolygu i gyfeirio at y Canllaw i'r Hanfodion hwn. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn ystyried yr awgrym ar gyfer papur pwnc neu bapur tystiolaeth ar y Ddyletswydd Adran 6 fel rhan o broses yr LDP diwygiedig.<br>**Fframwaith monitro'r LDP diwygiedig**<br>Mae'r Cyngor yn cytuno bod yn rhaid adolygu'r fframwaith monitro ar gyfer yr LDP diwygiedig yn drylwyr i ystyried newidiadau cyd-destun, ynghyd â dulliau a gwybodaeth newydd, fel y noda adran 9 yr Adroddiad Adolygu. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)**<br>Mae canlyniadau'r gwaith monitro Arfarniad Cynaliadwyedd ar beryglon llifogydd, ar sail geiriad Dangosydd 19, yn canolbwyntio ar fonitro faint o dai sy'n wynebu perygl canolig neu uchel o lifogydd, yn hytrach nag ar gadw gorlifdiroedd. Nodir yr awgrymiadau o ran tystiolaeth a gwybodaeth arall. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nid yw Dangosydd 19 wedi adrodd ar sut y mae gorlifdiroedd wedi eu cadw i storio dŵr drwy ddatblygiadau gan felly leihau llifogydd mewn rhannau eraill o'r dalgylch, gan gynnwys mewn Cynghorau cyfagos. Yn croesawu y bydd yr AMR nesaf yn ystyried asesiad dechreuol 2020 NRW o safleoedd gwarchodedig a thrwy hynny'n goleuo'r LDP diwygiedig. Cynghori bod hefyd angen ystyried tystiolaeth arall yn yr asesiad, gan gynnwys arolygon cen i asesu effeithiau amonia – Adroddiad Rhif 298 (Mai 2019), a gwybodaeth arall sydd ar gael fel Cynllun Rheoli Afon Gwy a'r System Gwybodaeth Llygredd Aer.<br>**Ffosffadau**<br>Yn cadarnhau nad yw cyngor NRW yn gyngor 'interim' mwyach ac y bydd yn cael ei ddiweddaru'n systematig i gefnogi'r broses gynllunio, gyda'r diweddariad nesaf yn y Gwanwyn 2022.<br>**Mawn**<br>Yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, a'r mapiau mawn ar gyfer Cymru, fel tystiolaeth i helpu i adnabod ardaloedd sydd angen eu gwarchod oherwydd pwysigrwydd eu pridd neu ddaearegol.<br>**Diraddio pridd**<br>Ystyried defnyddio, gwarchod ac atal diraddio'r pridd drwy fentrau ffermio newydd a fyddai angen caniatâd cynllunio, i'w gynnwys yn yr LDP diwygiedig.<br>**Unedau amaethu dwys**<br>Yn cynghori y dylai'r LDP diwygiedig roi sylw i'r heriau sy'n gysylltiedig â datblygiadau amaethyddol ym Mhowys. Yn atgoffa bod angen cyflwyno polisïau sy'n ystyried effeithiau cronnus datblygiadau o'r fath. Yn annog defnydd digonol o dir amaethyddol, gorchudd tir a | Bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth adolygu'r Arfarniad Cynaliadwyedd a'i fframwaith monitro, fel rhan o broses yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Ffosffadau**<br>Testun ychwanegol yn adran 5 yn cadarnhau nad yw'r cyngor cynllunio diweddaraf gan NRW yn gyngor 'interim' mwyach.<br>**Mawn**<br>Bydd y rhaglen a'r mapiau mawn y cyfeiriwyd atynt yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth i oleuo'r LDP diwygiedig a'r SA cysylltiedig, ac i oleuo'r broses o asesu cynigion datblygu. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn.<br>**Diraddio pridd**<br>Bydd testun ychwanegol yn cael ei gynnwys yn Adran 8.2 yr Adroddiad Adolygu i adlewyrchu bod angen gwarchod pridd rhag diraddio, o fewn sgôp y system gynllunio, fel rhan o broses yr LDP diwygiedig.<br>**Unedau amaethu dwys**<br>Fel y noda'r Adroddiad Adolygu, bydd polisïau amaeth yr LDP yn cael eu hailystyried i adlewyrchu newidiadau cyd-destun. Bydd testun ychwanegol yn cael ei gynnwys o dan adran 8.2 yr Adroddiad Adolygu i nodi'n gliriach y bwriedir ystyried cynnwys polisi priodol ar gyfer datblygiadau amaethu dwys yn yr LDP diwygiedig.<br>**Asesiad seilwaith gwyrdd (GIA)**<br>Nodir y cyngor ar sgôp y GIA a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth wneud Asesiad GIA fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr LDP diwygiedig. Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Adolygu yn y cyswllt hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | thystiolaeth cynefin i oleuo'r LDP diwygiedig fel nad yw datblygiadau amaethyddol yn bygwth ymdrechion natur i adfer ei hun, fel cyllid gan Fargen Dwf y Canolbarth i adfer rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Camlas Trefaldwyn.<br>**Asesiad seilwaith gwyrdd (GIA)**<br>Yn pwysleisio na ddylid cyfyngu seilwaith gwyrdd i ardaloedd trefol gan ystyried ymylon gwledig ardaloedd trefol a 'lletemau glas' wrth wneud asesiad seilwaith gwyrdd yn y dyfodol.  Gallai'r GIA fod yn ddull neu'n gyfrwng o ddarparu atebion 'natur' a gwelliannau bioamrywiaeth er mwyn cyflawni amcanion cyffredinol yr LDP diwygiedig a Chynllun Llesiant Powys. | |

## TALFYRIADAU

| Acronym | Ystyr |
|---|---|
| AMB | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| AQMA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| BBNPA | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| CJC | Cyd-bwyllgorau Corfforedig |
| DPM3 | Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) |
| EA | Dyraniad Safleoedd Cyflogaeth |
| EC | Ymrwymiad Cyflogaeth |
| ELR | Adolygiad o Dir Cyflogaeth |
| GCR | Safle Adolygu Cadwraeth Ddaearegol |
| GIA | Asesiad Seilwaith Gwyrdd |
| GTAA | Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| HA | Dyraniadau Tai |
| HC | Ymrwymiadau Tai |
| HIA | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| ISA | Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig |
| JNCC | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| LBAP | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| LHMA | Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol |
| LLCA | Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol |
| LPA | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| LSA | Ardal Chwilio Lleol |
| LVIA | Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol |
| MTAN | Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau |
| MUA | Dyraniadau Defnydd Cymysg |
| OSA | Asesiad Man Agored |
| PCC | Cyngor Sir Powys |
| PEDW | Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru |
| PSB | Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus |
| RAWP | Gweithgorau Agregau Rhanbarthol |
| REA | Asesiad Ynni Adnewyddadwy |
| RIGS | Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol |
| RSL | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig |
| RTS | Datganiadau Technegol Rhanbarthol |
| SA | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| SAB | Corff Cymeradwyo SuDS |
| SAC | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| SDP | Cynllun Datblygu Strategol |
| SEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SFCA | Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd |
| SHA | Awdurdod Tai Strategol |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| SPG | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| SuDS | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| SWRAWP | Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru |
| TAN | Nodiadau Cyngor Technegol |
| WLIA | Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg |